RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
26/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/05/2018

# Gwerthusiad o Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd am golli'r ysgol yn rheolaidd

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-78937-199-4

Gwerthusiad o Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd am golli'r ysgol yn rheolaidd

Awduron: ICF Consulting Limited ar y cyd ag Ymchwil Arad

Mae'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
David Roberts
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Ll31 9RZ
0300 062 5485
E-bost: david.roberts@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o’r tablau....2
Rhestr o’r ffigurau ....3
Geirfa ....4
Crynodeb Gweithredol ....5
1. Cyflwyniad a Chefndir ....12
2. Cefndir polisi ....19
3. Dulliau o ddatblygu Cod ALl ....24
4. Gweithredu’r broses yn ymarferol....35
5. Cydosod y cod â pholisïau ac arferion eraill a’i effeithiolrwydd ....62
6. Opsiynau Polisi yn y Dyfodol ....70
Cyfeiriadau....88

**Rhestr o'r tablau**


Tabl 3.1: Rhesymau dros gyflwyno HCBau mewn Codau ALlau ........................................26
Tabl 4.1 Cyfanswm yr HCBau a gyflwynwyd fesul blwyddyn gan ALl...............................38
Tabl 4.2 Nifer yr HCBau y disgwylir eu cyflwyno yn 2016/17, 18 Awdurdod Lleol .............40
Tabl 4.3 Rhesymau dros gyflwyno HCBau, % o HCBau 2015/16 ....................................41
Tabl 4.4 Absenoldebau anawdurdodedig a HCBau a gyflwynwyd fesul 1,000 o ddisgyblion 48
Tabl 4.5 Canran y sesiynau a gollwyd gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ôl y rheswm dros yr absenoldeb.......................53
Tabl 4.6 Canran y sesiynau a gollwyd gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a chanol, yn ôl y rheswm dros yr absenoldeb..............................54
Tabl 4.7 Nifer yr HCBau wedi'u talu a heb eu talu. 2014/15 a 2015/16, Cymru.................59

**Rhestr o'r ffigurau**


Ffigur 3.1: Cynhaliwyd ymgynghoriad addas â rhanddeiliaid, gan gynnwys staff ysgolion, wrth i'm Hawdurdod Lleol ddatblygu ei god ........ 29
Ffigur 4.1 HCBau fesul 1,000 o ddisgyblion 5 – 15 oed yn ôl ardal awdurdod lleol, 2014/15 a 2015/16 ........ 39
Ffigur 4.2 Ar sail eich dealltwriaeth, yn nodweddiadol, dan ba rai o'r amgylchiadau canlynol y caiff HCBau eu cyflwyno ........ 43
Ffigur 4.3 Absenoldebau anawdurdodedig yn ôl ardal ALl, 2015/16 ........ 49
Ffigur 4.4 Absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig (canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd) fesul rhanbarth a Chymru, 2011/12 i 2015/16 ........ 51
Ffigur 4.5 Cyfanswm yr absenoldebau a chyfran yr absenoldebau anawdurdodedig ac awdurdodedig o'r holl absenoldebau fesul ALl yn 2015/16 ........ 56
Ffigur 4.6 Graff gwasgariad o ganran yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig ym mhob awdurdod lleol, 2015/16 ........ 57
Ffigur 4.7 Yn gyffredinol, mae'r HCBau a gyflwynwyr yn bodloni'r gofynion ac yn dilyn a gweithdrefnau a bennir yng nghod yr ALl ........ 58
Ffigur 4.8 Mae cod yr ALl yn darparu hyblygrwydd addas i ystyried amgylchiadau teuluol ac amgylchiadau perthnasol eraill ........ 59
Ffigur 5.1 Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfathrebu'n effeithiol â mi ynghylch sut y gellir defnyddio HCBau neu sut y cânt eu defnyddio ........ 63
Ffigur 5.2 Mae cod yr ALl wedi'i gydosod â pholisïau mewnol ein hysgol ........ 64
Ffigur 5.3 Mae ein hysgol wedi ystyried defnyddio HCBau yn rhan o'r broses o adolygu a monitro polisi ac arfer i wella presenoldeb ........ 65
Ffigur 5.4 Mae HCBau yn ffordd effeithiol o atal absenoldebau anawdurdodedig ........ 66
Ffigur 6.1 Mae angen arweiniad neu hyfforddiant gwell ar gyflwyno HCBau ........ 70
Ffigur 6.2 Opsiynau polisi (Dywedwch i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol) ........ 71

**Geirfa**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| ALI | Awdurdod Lleol |
| CARh | Consortiwm Addysg Rhanbarthol |
| CSCJES | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (Consortiwm Addysg Rhanbarthol sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg) |
| ERW | Ein Rhanbarth ar Waith (Consortiwm Addysg Rhanbarthol sy'n cynnwys Cyngor Sir Gâr, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys, a Dinas a Sir Abertawe) |
| EWO | Swyddog Lles Addysg (aelod o'r Gwasanaeth Lles Addysg) |
| EWS | Gwasanaeth Lles Addysg (gwasanaeth a ddarperir ym mhob awdurdod lleol) |
| GCA | Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru (Consortiwm Addysg Rhanbarthol sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Dir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) |
| GwE | Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (Consortiwm Addysg Rhanbarthol yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) |
| HCB | Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer absenoldebau rheolaidd o'r ysgol |

## Crynodeb Gweithredol

1. Cafodd ICF Consulting ac Ymchwil Arad eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig oherwydd bod disgyblion yn colli'r ysgol yn rheolaidd.

2. Mae gwella presenoldeb disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae mynd i'r ysgol yn rheolaidd yn hanfodol i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu ac yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

3. Yn 2013, daeth Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) Llywodraeth Cymru i rym. Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu am gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i rieni am absenoldeb anawdurdodedig rheolaidd eu plant. O dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol (ALlau) ddatblygu cod ymarfer ar gyfer cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig yn eu hardal. Mabwysiadodd ALlau godau lleol ar Hysbysiadau Cosb Benodedig yn 2014 ac yn 2015, a dechreuont gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig naill ai yng nghanol blwyddyn academaidd 2014/15 neu ar ddechrau blwyddyn academaidd 2015/16.

4. Tasg yr astudiaeth hon oedd cynnal asesiad o'r ffordd y mae'r Rheoliadau ar Hysbysiadau Cosb Benodedig a'r arweiniad polisi ar Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u rhoi ar waith ledled Cymru, sut penderfynwyd ar y codau ymddygiad a sut y deuir i benderfyniadau yn ymarferol ar gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig, gan gymhwyso'r codau ymddygiad a ddatblygwyd gan ALlau. Defnyddir y canfyddiadau i asesu sut mae'r canllawiau a luniwyd ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u defnyddio a'u dehongli, sut mae'r polisi yn gweithio ac i benderfynu p'un a oes angen unrhyw newidiadau i'r canllawiau neu ganllawiau pellach. Yn ogystal, defnyddir y canfyddiadau i alluogi Llywodraeth Cymru i ystyried p'un a oes angen ymdrin yn fwy cyson â Hysbysiadau Cosb Benodedig; mae hyn yn cynnwys ystyried p'un a fyddai cod ymddygiad cenedlaethol yn fuddiol.

### Nodau'r astudiaeth

5. Nodau'r astudiaeth oedd:

   - Gwerthuso'r dulliau gwahanol a ddefnyddir gan ALlau ar draws Cymru wrth benderfynu ar eu codau ar Hysbysiadau Cosb Benodedig
   - Ymchwilio i'r rhesymau dros gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig ac amgylchiadau eu cyflwyno

- Ymchwilio i'r modd y mae penaethiaid yn dehongli ac yn defnyddio codau'r ALlau wrth ystyried Hysbysiadau Cosb Benodedig
- Ystyried rôl Consortia Addysg Rhanbarthol o ran Hysbysiadau Cosb Benodedig, gan gynnwys drafftio codau a darparu canllawiau safonol i ysgolion
- Ystyried p'un a oes angen cod ymddygiad cenedlaethol a beth fyddai'n briodol ym marn rhanddeiliaid.

**Methodoleg yr astudiaeth**

6. I gyflawni nodau'r astudiaeth, ymgymerwyd ag amrywiaeth o ddulliau ansoddol a meintiol. Cwblhawyd y gweithgareddau ymchwil canlynol:

   - Cyfweliadau rhannol strwythuredig dros y ffôn gyda swyddogion yr ALl sy'n gyfrifol am weithredu'r cod ar Hysbysiadau Cosb Benodedig ym mhob un o 22 ALl Cymru
   - Cyfweliadau rhannol strwythuredig dros y ffôn gydag un Consortiwm Addysg Rhanbarthol ac un rhanddeiliad (Llywodraethwyr Cymru)
   - E-arolwg o athrawon, staff ALlau a staff consortia addysg rhanbarthol, gan sicrhau 255 o ymatebion
   - Trafodaethau â phenaethiaid a staff y Gwasanaeth Lles Addysg mewn chwech ALl, gan gynnwys cyfanswm o 70 athro a staff Gwasanaethau Lles Addysg naill ai drwy grŵp trafod neu drwy nifer o gyfweliadau dros y ffôn
   - Dadansoddiad o ddata Ystadegau Cymru ar absenoldeb o'r ysgol, data Llywodraeth Cymru ar Hysbysiadau Cosb Benodedig a data ar Hysbysiadau Cosb Benodedig a ddarparwyd yn uniongyrchol gan swyddogion ALlau
   - Dadansoddiad o godau pob un o'r 22 ALl ar Hysbysiadau Cosb Benodedig a dogfennau eraill ar Hysbysiadau Cosb Benodedig sydd wedi'u cynhyrchu gan ALlau
   - Adolygiad o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd ar gyflwyno sancsiynau a'u heffaith ar bresenoldeb yn yr ysgol, ac arfer gorau wrth wella presenoldeb a/neu ostwng absenoldebau anawdurdodedig
   - Dadansoddiad ac arfarniad o opsiynau posibl ar gyfer polisi yn y dyfodol gan ddilyn arweiniad Trysorlys EM ar ddadansoddiadau aml faen prawf

**Canfyddiadau**

7. Mae canfyddiadau allweddol yr ymchwil fel a ganlyn:

**Dulliau o ddatblygu Codau ALlau**

8. I ddechrau, bu ALlau yn cydweithio mewn grwpiau rhanbarthol i ddatblygu eu codau. Fe wnaeth rhai ALlau cyfagos gydweithio i ddatblygu codau union debyg. Mae llawer o gysondeb mewn geiriad a chymalau sydd wedi'u cynnwys yng nghodau gorffenedig ALlau ymhlith ALlau yn yr un rhanbarth.

9. Ymgynghorodd ALlau yn lleol cyn llunio'r codau gorffenedig ar Hysbysiadau Cosb Benodedig. Ychydig iawn o ymgynghori'n fewnol a wnaeth rhai ALlau, gydag eraill yn ymgysylltu â phenaethiaid ac eraill yng nghymuned yr ysgol, gan gynnwys athrawon, rhieni a myfyrwyr.

10. Mae dadansoddiad o godau ALlau yn dangos y gofynion canlynol:

    - Rhaid colli o leiaf 10 sesiwn oherwydd absenoldebau anawdurdodedig cyn y gellir sbarduno Hysbysiad Cosb Benodedig (heblaw am un ALl sy'n gofyn am 20 sesiwn).
    - Mae codau 18 ALl yn cynnwys sbardunau ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig oherwydd gwyliau. Mae pymtheg cod yn cynnwys sbardunau oherwydd triwantiaeth.
    - Mae pob cod yn cynnwys sbardunau ar gyfer cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd ar ôl cau'r gofrestr am o leiaf 10 sesiwn.
    - Mae gofyniad hefyd yng nghodau pob ALl yng nghonsortiwm de-orllewin a chanolbarth Cymru (ERW) bod presenoldeb cyffredinol islaw 90 y cant er mwyn cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig.

11. Roedd rhan Consortia Addysg Rhanbarthol yn natblygiad codau Hysbysiadau Cosb Benodedig a'u gweithredu yn gyfyngedig. Fe wnaeth pob un ohonynt gefnogi'r gwaith cydlynu cychwynnol. Bach iawn o dystiolaeth sydd o Gonsortia yn rhoi hyfforddiant neu ganllawiau helaeth i ysgolion ar weithredu eu codau.

**Gweithredu'r Rheoliadau ar Hysbysiadau Cosb Benodedig yn ymarferol**

12. Cyflwynwyd Hysbysiadau Cosb Benodedig yn raddol gan y rhan fwyaf o ALlau yn ystod blwyddyn academaidd 2014/15.

13. Yn ymarferol, penaethiaid ysgol neu eu dirprwyon dynodedig sy'n gwneud pob cais i'r ALl am gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig. Yn ôl y disgwyl, mae penaethiaid yn defnyddio'u disgresiwn wrth ddod i'r penderfyniad hwn, trwy ystyried ffactorau eraill pan fydd disgyblion yn cyrraedd y trothwyon a'r pwyntiau sbarduno yng nghodau'r ALl. Swyddogion yr ALl sy'n gwneud y penderfyniad ac yn ystyried y dystiolaeth yn unol â'r cod lleol; caiff rhai ceisiadau eu gwrthod. Mae penaethiaid a swyddogion yr ALl fel ei gilydd yn defnyddio'u disgresiwn wrth gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig.

14. Mae pob un ond tri ALl wedi cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig; yn 2015/16, amrywiodd y niferoedd yn sylweddol gyda dau ALl yn cyhoeddi dros 1,000 ohonynt a dau arall yn cyhoeddi dros 250 ohonynt, tra cyhoeddodd naw ALl lai na 50 ohonynt. Mewn ALlau sy'n cofnodi'r rhesymau dros Hysbysiadau Cosb Benodedig, cyflwynir y rhan fwyaf o Hysbysiadau Cosb Benodedig am absenoldebau anawdurdodedig cyffredinol fel y'u diffinnir yng nghodau'r ALlau (gan gynnwys triwantiaeth), gyda llai o Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu cyflwyno am absenoldebau anawdurdodedig oherwydd gwyliau neu hwyrni.

15. Disgwylir i nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig ostwng yn 2016/17 o gymharu â 2015/16, efallai o ganlyniad i gymryd mwy o bwyll ac oherwydd effeithiolrwydd cychwynnol Hysbysiadau Cosb Benodedig wrth ostwng lefelau absenoldebau anawdurdodedig.

16. Dywed ymatebwyr yr arolwg a'r bobl a gyfwelwyd fod yr arfer mewn ysgolion yn amrywio o safbwynt p'un a gaiff Hysbysiadau Cosb Benodedig eu hystyried pan gyrhaeddir trothwy a pha fathau o absenoldebau anawdurdodedig sy'n sbarduno'u hystyried. Gallai hyn esbonio'r graddau na chânt eu defnyddio ac amrywiol lefelau eu defnyddio ymhlith ysgolion.

17. Ymhlith ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd ysgolion o Hysbysiadau Cosb Benodedig, heblaw am god yr ALl, y mae amgylchiadau unigol y plentyn/rhieni, y mae disgwyl i ysgolion eu hystyried, dull yr ysgol o gynnal perthynas â rhieni, yr amgyffrediad o'r baich gweinyddol o ran yr adnoddau sydd ar gael i'r ysgol, lefel gyffredinol yr absenoldeb ac arfer ysgolion eraill.

18. Ymhlith ffactorau sy’n dylanwadu ar ba mor rhagweithiol y mae ALlau wrth herio ysgolion i ddefnyddio’r mesur i wella presenoldeb a gostwng absenoldebau anawdurdodedig y mae amgyffrediad swyddogion o effeithiolrwydd y mesur, y baich gweinyddol o ran yr adnoddau sydd ar gael gan yr ALl a barn y tîm cyfreithiol am ansawdd y dystiolaeth sy’n ofynnol.

19. Nid oes perthynas amlwg rhwng yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a gyflwynir a lefel yr absenoldebau anawdurdodedig ar lefel yr ALl. Gellid bod wedi disgwyl hyn gan ei fod yn fesur i ostwng y lefel, ond mae defnydd ychydig ALlau arnynt yn adlewyrchu lefel eu habsenoldebau anawdurdodedig.

20. Nid oes tystiolaeth o berthynas rhwng lefelau newidiol o absenoldebau awdurdodedig, anawdurdodedig ac absenoldebau cyffredinol a Hysbysiadau Cosb Benodedig, ond mae lefelau cymharol pob un yn awgrymu bod dehongliadau gwahanol yn digwydd er bod codau ALlau yn debyg.

**Cydosod y cod â pholisïau ac arferion eraill a’i effeithiolrwydd**

21. Mae pob ALl yn casglu’r data y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdano ar Hysbysiadau Cosb Benodedig ac ni chyflawnant unrhyw ddadansoddi systematig arall o’u data manwl na’r cysylltiadau rhwng data ar bresenoldeb yn yr ysgol a Hysbysiadau Cosb Benodedig. Mae ychydig ALlau wedi olrhain neu maent wrthi’n olrhain presenoldeb nifer bach o ddisgyblion ar hyn o bryd i archwilio effaith Hysbysiadau Cosb Benodedig ar ddisgyblion unigol.

22. Yn gyffredinol, mae codau ALlau yn cyd-fynd â pholisïau ysgolion ar bresenoldeb. Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi ystyried y defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig ac yn ei gydnabod yn un o amryw fesurau y gellir eu defnyddio i annog presenoldeb da. Ond, dywed y rhai a gafodd eu cyfweld nad oedd hyn yn golygu bod Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu hystyried fel mater o arfer pan fydd lefelau presenoldeb disgyblion yn cyrraedd sbardunau a throthwyon. Mewn rhai ysgolion, mae dealltwriaeth ddiofyn na chaiff Hysbysiadau Cosb Benodedig eu defnyddio na’u hystyried yn opsiwn. Hefyd, cydnabyddir nad yw Hysbysiadau Cosb Benodedig yn briodol i rai teuluoedd a disgyblion unigol.

23. Cymysg yw barn ymatebwyr yr arolwg ynghylch effeithiolrwydd Hysbysiadau Cosb Benodedig, gyda 56 y cant o’r farn eu bod yn effeithiol ond 37 y cant o’r farn nad ydynt yn effeithiol. Esboniodd rhai o’r bobl a gafodd eu cyfweld eu bod yn amheus yn wreiddiol am effeithiolrwydd Hysbysiadau Cosb Benodedig, ond eu bod wedi gweld newidiadau cadarnhaol mewn presenoldeb ers hynny ac, felly, wedi’u hargyhoeddi y

gall yr Hysbysiadau fod yn effeithiol i rai disgyblion a rhieni. Cred sawl un ohonynt fod y llythyr rhybudd yn arf ataliol effeithiol.

24. Soniodd pobl a gafodd eu cyfweld am rai canlyniadau anfwriadol, sef bod rhieni wedi dod i wybod am y sbardunau a'r trothwyon presenoldeb yng nghodau'r ALl a bod dirwyon, o'u talu'n brydlon, yn is o lawer na'r arbedion yn sgil cymryd gwyliau yn ystod y tymor.

**Opsiynau Polisi yn y Dyfodol**

25. Mae ymatebwyr yr arolwg a'r rhai a gyfwelwyd o'r farn bod angen gwell canllawiau a hyfforddiant gan ALlau a Llywodraeth Cymru yn benodol i gynyddu cysondeb wrth weithredu'r polisi ar Hysbysiadau Cosb Benodedig ac, felly, tegwch.

26. Nid oes fawr o awydd ymhlith ymatebwyr yr arolwg i gynnal y sefyllfa sydd ohoni na chael gwared ar Hysbysiadau Cosb Benodedig.

27. Mae mwyafrif ymatebwyr yr arolwg (88 y cant) yn cytuno y dylid cael un cod cenedlaethol. Ond er bod llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn cydnabod y dylai hyn wella cysondeb, bydd yn dibynnu ar y graddau y mae ysgolion o'r farn bod Hysbysiadau Cosb Benodedig yn fesur effeithiol.

28. Nid yw'r dogfennau ymchwil yn cynnig tystiolaeth gref fod cosbau ariannol ar eu pen eu hunain bob amser yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad oedolion mewn polisïau cymdeithasol. Ar raddfa fechan, mae rhai astudiaethau wedi darganfod effeithiau cadarnhaol cyffredinol yn deillio o sancsiynau ariannol. Credir bod yr effeithiau hyn yn fwy pan fydd gan y bobl sydd wedi'u heffeithio wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r rhesymau dros ddefnyddio'r sancsiwn a sut y penderfynwyd ar y sancsiwn.

29. I raddau helaeth, mae Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu arfer da cyhoeddedig, yn enwedig y ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar. Gellid gwella'r Fframwaith trwy wneud awgrymiadau am: arfer da wrth fynd i'r afael â phresenoldeb mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar i sefydlu ymddygiadau da, ymgysylltu â rhieni, dadansoddi data monitro ar lefel yr ALl a phwysleisio'r berthynas rhwng presenoldeb a bod ar ei hôl hi gyda gwaith a bwlio.

30. Trwy fanteisio ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon, gellid cryfhau'r canllawiau presenoldeb ar Hysbysiadau Cosb Benodedig i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n deillio o godau'r ALlau. Mae meysydd i'w gwella yn cynnwys:

- Pwysleisio bod gan benaethiaid bwerau dewisol i awdurdodi absenoldeb pan fydd rhieni'n ceisio caniatâd;
- Symleiddio'r canllawiau ynghylch y sefyllfaoedd pan fyddai cyflwyno hysbysiad cosb yn briodol;
- Diweddaru'r canllawiau ar rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb a rôl y consortia addysg rhanbarthol er mwyn adlewyrchu arferion gweithio ar hyn o bryd;
- Annog ALlau i gyhoeddi datganiadau sy'n cynnwys gwybodaeth am y refeniw a gesglir er mwyn cael gwared ar amgyffredion bod Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu defnyddio'n ddull o hybu refeniw.

31. Trwy asesiad o'r opsiynau polisi, mae'n eglur y byddai un cod cenedlaethol neu ganllawiau cenedlaethol cadarnach i lywio codau lleol yn fwy buddiol na pheidio â newid neu gael gwared ar Hysbysiadau Cosb Benodedig yng Nghymru. Byddai disgwyl i un cod cenedlaethol gyda chanllawiau cadarnach i ALlau ac ysgolion ar gymhwyso'r cod gael mwy o effaith ar gysondeb gweinyddol ac ar lefel yr absenoldebau anawdurdodedig na chanllawiau cadarnach i ALlau ac ysgolion ar godau ALlau a gweithredu'r codau hynny.

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Comisiynwyd ICF Consulting ac Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o ddefnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) oherwydd i ddisgyblion golli'r ysgol yn rheolaidd.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol (ALlau) ledled Cymru wrth bennu a gweithredu eu polisïau ar roi HCBau. Yna, mae'n cyflwyno asesiad o'r dewisiadau polisi i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae'n defnyddio gwybodaeth a gasglwyd trwy gyfweliadau ansoddol â staff ALlau, cylchoedd trafod â phenaethiaid a phobl eraill sy'n gysylltiedig â'r broses, arolwg ar-lein o staff ysgolion ac ALlau, a dadansoddiad o ddata a dogfennau ar golli'r ysgol a defnyddio HCBau. Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng Mawrth a Gorffennaf 2017.

### Cefndir a chyd-destun

*Effaith absenoldeb ar gyrhaeddiad disgyblion*

1.3 Mae gwella presenoldeb disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu ac yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

1.4 Canfu astudiaeth o gyrhaeddiad mewn ysgolion yn Lloegr ar gyfer yr Adran Addysg (DfE) (2016), ar gyfer disgyblion â'r un cyrhaeddiad blaenorol a nodweddion, ar gyfer pob cynnydd mewn absenoldeb cyffredinol o sesiwn ysgol (hanner diwrnod) ar draws Cyfnod Allweddol 2, mae:

- Gostyngiad o tua 0.2 y cant i'r tebygolrwydd y bydd disgyblion yn cyflawni lefel 4 neu'n uwch mewn darllen a mathemateg; a
- Gostyngiad o tua 0.4 y cant i'r tebygolrwydd o gyflawni lefel 5 neu'n uwch yn yr un pynciau.[1]

1.5 Ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, canfu astudiaeth, ar gyfer pob sesiwn ysgol a gollwyd, bod:

- Gostyngiad o tua 1.8 y cant i'r tebygolrwydd o gyflawni 5 gradd A*-C mewn TGAU neu gymhwyster cyfwerth, gan gynnwys Saesneg a mathemateg; a
- Gostyngiad o tua 2.1 y cant i'r tebygolrwydd o gyflawni Bagloriaeth Lloegr.[2]

[1] http://dera.ioe.ac.uk/25828/1/The-link-between-absence-and-attainment-at-KS2-and-KS4-2013-to-2014-academic-year.pdf

1.6 Ledled Cymru, collwyd 5 y cant o'r holl sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion (cynradd ac uwchradd) oherwydd absenoldeb yn 2015/16[3]. Bu gostyngiad amlwg mewn absenoldebau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a chollwyd 7.8 y cant o sesiynau hanner diwrnod ysgolion yn 2011/12. Mae'r gostyngiad yn nifer yr absenoldeb awdurdodedig yn cyfrif am y gostyngiad hwn, yn bennaf, a ddisgynnodd o 6.5 y cant o sesiynau hanner diwrnod ysgolion yn 2011/12 i 4.6 y cant yn 2015/16. Disgynnodd cyfran y sesiynau a gollwyd ym mhob ALl yn ystod y cyfnod hwn. Mae absenoldebau anawdurdodedig wedi aros tua'r un lefel; 1.4 y cant yn 2011/12 ac 1.3 y cant yn 2015/16. Ceir gwahaniaethau sylweddol o ran lefel yr absenoldeb anawdurdodedig rhwng ALlau. Mae hyn yn amrywio o 0.3% o sesiynau hanner diwrnod ysgolion yng Ngwynedd i 2.0% yng Nghasnewydd. Ceir rhagor o fanylion yn Adran 4, paragraffau 4.14 i 4.23.

*Cefndir rheoleiddiol i HCBau ar gyfer colli'r ysgol yn rheolaidd heb awdurdod*

1.7 Caiff y dyletswyddau canlynol eu pennu mewn deddfwriaeth:

- Mae **rhieni** yn gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd neu'n cael addysg addas mewn lleoliad arall;
- Mae gan **ysgolion** ddyletswydd i fonitro presenoldeb mewn ysgolion. Mae'n ofynnol i ysgolion roi gwybod i ALlau os bydd disgybl yn methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd; neu os fu'n absennol o'r ysgol ar absenoldeb anawdurdodedig am gyfnod di-dor nad yw'n llai na deng diwrnod ysgol;
- Mae gan **ALlau** ddyletswydd i gymryd camau i sicrhau bod plentyn sy'n byw yn ardal yr awdurdod yn cael addysg addas, naill ai trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall.

1.8 Yn 2013, rhoddodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) ar waith. Mae 'Rheoliadau 2013' yn caniatáu i HCBau gael eu cyflwyno i rieni am absenoldebau anawdurdodedig rheolaidd.

1.9 Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau ddatblygu cod ymddygiad ar gyfer cyflwyno HCBau ar draws eu hardal. Ceir rhagor o fanylion am y Rheoliadau hyn yn Adran 2, paragraffau 2.5 i 2.16. Mabwysiadodd ALlau y codau yn 2014 ac, yn dibynnu ar y dyddiad y'u mabwysiadwyd, dechreuasant gyflwyno HCBau naill ai

[2] Ibid.
[3] Ystadegau Cymru, Addysg a Sgiliau, Absenoldeb, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Absenteeism

yng nghanol blwyddyn academaidd 2014/15 neu ddechrau blwyddyn academaidd 2015/16.

*Nodau'r astudiaeth a chwestiynau ymchwil*

1.10 Y dasg ar gyfer yr astudiaeth hon oedd cynnal asesiad o sut y rhoddwyd y polisi HCB ar waith ledled Cymru, sut y penderfynwyd ar y codau ymddygiad a sut y gwneir penderfyniadau'n ymarferol ynghylch cyflwyno HCBau gan gymhwyso'r codau ymddygiad a ddatblygwyd gan ALlau. Caiff y canfyddiadau eu defnyddio i asesu sut mae'r arweiniad a luniwyd ar gyfer HCBau wedi'i ddefnyddio a'i ddehongli, sut mae'r polisi'n cael ei weithredu a phenderfynu p'un a oes angen unrhyw newidiadau i'r arweiniad neu arweiniad pellach. Hefyd, caiff y canfyddiadau eu defnyddio i alluogi Llywodraeth Cymru i ystyried p'un a oes angen dull mwy cyson ar gyfer cyflwyno HCBau. Mae hyn yn cynnwys ystyried p'un a fyddai cod ymddygiad cenedlaethol yn fuddiol ai peidio.

1.11 Mae gan yr astudiaeth bum amcan ymchwil allweddol a chwestiynau ymchwil cysylltiedig. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Gwerthuso'r gwahanol ddulliau gan **ALlau ledled Cymru** wrth iddynt benderfynu ar eu codau HCB
  - Beth oedd y sail resymegol gychwynnol i'r codau HCB?
  - Sut aeth ALlau ati i ddatblygu eu cod?
  - Beth oedd rôl y Consortiwm Addysg Rhanbarthol (CARh) o ran datblygu'r cod?
  - Sut y gwnaed penderfyniadau ynghylch pob elfen o'r cod?

- Ymchwilio i'r rhesymau **pam y caiff HCBau eu cyflwyno, a'r amgylchiadau**
  - Gyda'r cod ar waith, sut caiff HCBau eu cyflwyno'n ymarferol?
  - Pwy sydd ynghlwm pan gaiff HCB ei gyflwyno?
  - Pa fath o gyfathrebu a geir rhwng ALlau/CARh ac ysgolion?
  - Beth yw'r rhesymau nodweddiadol dros gyflwyno HCB?
  - Sut caiff HCBau eu defnyddio o gymharu ag opsiynau eraill i wella presenoldeb?
  - Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar b'un a chaiff HCBau eu talu'n brydlon ai peidio?
  - I ba raddau y mae nifer a natur yr HCBau a gyflwynir yn cyfateb i god yr ALl? Pa mor aml y caiff ei ddefnyddio'n ddogfen gyfeirio gan randdeiliaid?

- Ymchwilio i **sut mae penaethiaid yn dehongli ac yn defnyddio codau ALlau** wrth ystyried HCBau
  - Pa fath o drefniadau monitro sydd ar gael i olrhain HCBau? A ydynt yn addas i'r diben?
  - A yw cod yr ALl yn alinio â pholisi'r ysgol? A yw ysgolion yn ystyried ceisiadau am absenoldeb gan rieni fesul achos?
  - A yw rhanddeiliaid yn credu bod HCBau yn cyfrannu at bresenoldeb gwell? Os ydynt, pam felly? Os nad ydynt, pam felly?
  - Pa elfennau o'r cod sy'n galluogi/llesteirio hyn?

- Ystyried **rôl y Consortia Addysg Rhanbarthol mewn HCBau**, gan gynnwys drafftio codau a rhoi arweiniad safonol i ysgolion
  - Beth oedd rôl y CARh o ran datblygu'r cod?
  - Sut y derbyniwyd hyfforddiant y CARh?
  - Pa arweiniad a roddodd CARhau a beth allai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol?

- Ystyried **a oes angen cod ymddygiad cenedlaethol** a beth mae rhanddeiliaid yn teimlo fyddai'n briodol
  - A yw'n briodol cadw codau ALlau?
  - A fyddai'n ddefnyddiol cael arweiniad ychwanegol gan CARhau?
  - A fyddai'n ddefnyddiol cael arweiniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru?
  - Beth yw manteision/anfanteision cael cod Cymru gyfan?

*Methodoleg yr astudiaeth*

1.12 I fodloni'r nodau ac amcanion ymchwil uchod, roedd yr astudiaeth yn cynnwys y tasgau canlynol:

- **Cyfweliadau ffôn â'r holl ALlau (22)**: cynhaliom gyfweliadau lled-strwythuredig â swyddogion ALlau sy'n gyfrifol am weithredu'r cod HCBau ym mhob ALl yng Nghymru. Roedd y cyfweliadau'n archwilio dull yr ALl o sefydlu'r cod, ei sail resymegol ar gyfer nodweddion allweddol, pwy sydd ynghlwm wrth wneud penderfyniadau, y rhesymau dros lefelau presennol yr HCBau, amgyffrediad o ran effeithiolrwydd, problemau a materion yn ymwneud â'r broses, a barnau ynghylch opsiynau'r dyfodol a meysydd i'w gwella.

- **Cyfweliadau ffôn â Chonsortia Addysg Rhanbarthol a rhanddeiliaid (2):** cynhaliom gyfweliadau ag un CARh ac un sefydliad rhanddeiliaid (Llywodraethwyr Cymru) â buddiant ym mholisi presenoldeb ysgolion. Gwnaethom gysylltu â thri CARh a phum sefydliad rhanddeiliaid arall, ond gwrthododd y rhain gymryd rhan neu ni wnaethant ymateb i geisiadau. Y rhesymau a roddwyd gan y CARhau oedd nad oeddent yn credu bod ganddynt rôl flaenaf mewn gweithredu HCBau ac

nad oeddent yn gallu cynnig unrhyw farn ar y mater. Roedd y cyfweliadau'n archwilio cymorth a roddwyd gan CARhau i ALlau wrth baratoi i fabwysiadu'r cod, unrhyw ymgysylltiad ers y cyfnod hwnnw, ac amgyffrediad o ran effeithiolrwydd, problemau a materion yn ymwneud â'r broses, a barnau ynghylch opsiynau'r dyfodol a meysydd i'w gwella.

- **Dosbarthu e-arolwg a gafodd 255 o ymatebion**: lansiwyd arolwg ar-lein ar 24 Mai 2017 ac fe ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2017. Lledaenwyd y ddolen i'r arolwg trwy negeseuon e-bost uniongyrchol i gysylltiadau presenoldeb ysgol (lle y darparwyd y rhain gan yr ALl), cyfeiriadau e-bost cyffredinol ysgolion ac yn anuniongyrchol trwy gysylltiadau mewn ALlau (lle'r oeddent yn fodlon gwneud hynny), a hysbysiad yng nghylchlythyr Dysg Llywodraeth Cymru[4]. Cafodd yr arolwg 207 o ymatebion llawn ac 168 o ymatebion rhannol. Ar ôl adolygu'r ymatebion rhannol, cynhwyswyd 48 ohonynt yn y dadansoddiad, lle yr atebwyd yr holl gwestiynau rhagarweiniol perthnasol[5] ac o leiaf un cwestiwn sylweddol o leiafswm o 24 o gwestiynau ac uchafswm o 48 o gwestiynau. Dylid nodi i'r arolwg ddefnyddio samplu cyfleus yn hytrach na samplu systematig neu haenedig. Ar ben hynny, mae'n bosibl bod y broses samplu cyfleus wedi arwain at orgynrychiolaeth o ymatebion o ardaloedd ALlau lle'r oedd y cysylltiadau mewn ALlau yn arbennig o weithgar o ran annog ymatebion. Ni chymhwyswyd unrhyw bwysoliad i'r canlyniadau. Yn hynny o beth, nid yw canlyniadau'r arolwg yn darparu cynrychiolaeth ystadegol gynrychioliadol o safbwyntiau'r rhai sy'n gyfrifol am bresenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru.
- **Cylchoedd trafod â phenaethiaid a staff y Gwasanaeth Lles Addysg (EWS) mewn chwe ALl:** gwnaethom drefnu cylchoedd trafod â phenaethiaid, dirprwy benaethiaid a staff EWS mewn pum ALl astudiaeth achos a chynnal cyfred o gyfweliadau lled-strwythuredig â phenaethiaid mewn un ALl astudiaeth achos lle nad oedd yn bosibl trefnu cyfarfod wyneb-yn-wyneb. Dewiswyd ardaloedd yr astudiaeth achos (Sir Gâr, Caerdydd, Ceredigion, Merthyr Tudful, Casnewydd a Gwynedd, a oedd hefyd yn cynnwys ysgolion o Ynys Môn) i gynnwys ALlau â lefelau uchel, canolig ac isel o absenoldebau anawdurdodedig a lefelau uchel, canolig ac isel o HCBau a gyflwynwyd, yn ogystal â chyfrif am wahanol gyd-destunau[6]. Lluniwyd y trafodaethau hyn i roi mewnwelediad i'r heriau â

[4] Cyhoeddwyd yr hysbysiad yn y cylchlythyron 'cyn-11' ac 'ôl-11'.

[5] Roedd y cwestiynau rhagarweiniol yn gofyn i'r ymatebwyr am wybodaeth am eu math o sefydliad a rôl eu swydd. Gan ddibynnu ar y math o sefydliad, gofynnwyd rhwng 3 a 6 o gwestiynau rhagarweiniol i'r ymatebwyr.

[6] Dewiswyd ALlau o ardaloedd trefol/gwledig, lleoliadau daearyddol yng Nghymru, lleoliadau twristiaeth (arfordirol/gwledig) a phoblogaethau myfyrwyr o wahanol feintiau.

chyfraddau cymharol uchel ac isel o absenoldebau anawdurdodedig a sut caiff ystod y dulliau a ddefnyddir eu rhoi ar waith yn ymarferol. Ymgysylltwyd â chyfanswm o 70 o athrawon o staff EWS trwy'r cylchoedd trafod hyn.

- **Dadansoddi data:** gwnaethom ddadansoddi data Ystadegau Cymru ar absenoldebau ysgol gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol (5 – 15 oed)[7]. Yn benodol, gwnaethom archwilio tueddiadau mewn absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd rhwng 2011/12 a 2015/16. Hefyd, gwnaethom archwilio data ar HCBau a gyflwynwyd gan ALlau yn 2014/15 a 2015/16 gan Lywodraeth Cymru (a gasglwyd o adroddiadau a ddarperir i Lywodraeth Cymru'n flynyddol gan ALlau). Gwnaethom ddefnyddio'r data hwn i amlygu patrymau a thueddiadau, a chydweddu'r rhain â data Ystadegau Cymru ar absenoldebau er mwyn amlygu unrhyw berthynas ystadegol rhwng gwahanol lefelau o HCBau a mathau o absenoldebau. Hefyd, gwnaethom gasglu data ar HCBau a gyflwynwyd yn ystod dau dymor academaidd cyntaf 2016/17 fel rhan o ymgysylltu â swyddogion ALlau, ac archwilio tueddiadau HCBau am y tair blynedd cyntaf o'u gweithredu. Hefyd, gwnaethom ddadansoddi'r rhesymau pam y cyflwynwyd HCBau yn 2014/15 a 2015/16 ar gyfer ALlau sy'n casglu'r rhain ac a oedd yn gallu rhoi'r data i ni.
- **Adolygu dogfennau:** cawsom godau HCB y 22 ALl trwy'r we neu swyddogion ALlau[8] (nid oedd codau HCB pump ALl ar gael ar eu gwefannau ar ddyddiadau amrywiol ym Mai 2017, pan gynhaliwyd yr adolygiad, er bod hyn yn ofyniad yn ôl arweiniad LIC ar gyfer ALlau) ac adolygu'r rhain er mwyn amlygu nodweddion cyffredin a gwahaniaethau o ran geiriad. Hefyd, gwnaethom gasglu ac adolygu dogfennau arweiniad a deunyddiau hyfforddiant ychwanegol a luniwyd gan ALlau.
- **Adolygu llenyddiaeth:** gwnaethom gwblhau adolygiad o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd i amlygu tystiolaeth empirig o unrhyw berthynas rhwng cyflwyno cosbau a phresenoldeb gwell, a chrynhoi'r dystiolaeth ddiweddaraf o arfer gorau ar gyfer polisïau sydd â'r nod o wella presenoldeb a/neu leihau absenoldebau anawdurdodedig.
- **Dadansoddiad ac arfarnu'r opsiynau:** defnyddiom y wybodaeth a gasglwyd o'r holl dasgau i lywio asesiad ansoddol o'r opsiynau posibl ar gyfer polisi yn y

[7] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Absenteeism

[8] Nid oedd codau HCB pump ALl ar gael ar eu gwefannau ar ddyddiadau amrywiol ym Mai 2017.

dyfodol. Roedd yr asesiad yn dilyn arweiniad Trysorlys EM ar ddadansoddiadau aml faen prawf [9].

1.13 Mae'r offer ymchwil a oedd yn llywio'r tasgau uchod (canllawiau ar destunau cyfweliad, holiadur yr arolwg a phrotocol adolygu llenyddiaeth) wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

*Strwythur yr adroddiad*

1.14 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 2 – Cefndir a chyd-destun polisi;
- Adran 3 – Dulliau o ddatblygu codau ALlau;
- Adran 4 – Gweithredu'r broses HCB yn ymarferol;
- Adran 5 – Cydosod â pholisïau eraill a'i effeithiolrwydd;
- Adran 6 – Opsiynau polisi ac asesiad

1.15 Mae hefyd yn cynnwys yr atodiadau canlynol:

- Atodiad A – Cyfeiriadau
- Atodiad B – Offer Ymchwil

[9] HM Treasury Green Book: supplementary guidance, Multi-criteria analysis: a manual, Ionawr 2009, https://www.gov.uk/government/publications/green-book-supplementary-guidance-multi-criteria-decision-analysis

## 2. Cefndir polisi

2.1 Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu'n gryno'r cyd-destun polisi y datblygwyd HCBau ynddo.

**Gwella presenoldeb**

2.2 Bu gwella presenoldeb mewn ysgolion yn faes allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru ers peth amser (ac mae'n faes allweddol o hyd). Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *'Behaving and Attending: Action Plan Responding to the National Behaviour and Attendance Review'*. Roedd y cynllun gweithredu hwn yn pwysleisio pwysigrwydd ysgolion yn amlygu materion yn ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb a rhoi strategaethau ymyrraeth gynnar ar waith cyn i ddisgybl ddechrau sefydlu patrwm o golli'r ysgol. Roedd hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys rhieni'n gynnar mewn unrhyw ymyrraeth, gan ddweud; 'Mae angen i rieni a gofalwyr, disgyblion ac athrawon oll weithio mewn awyrgylch lle bydd y naill yn parchu'r llall a lle bydd pawb yn deall yn glir eu hawliau eu hunain yn ogystal â hawliau pobl eraill'.

2.3 Yr ymrwymiadau allweddol a roddwyd oedd:

- Y byddai Llywodraeth Cymru yn diwygio codau presenoldeb er mwyn sicrhau mwy o gysondeb o ran arfer, ac y byddai'n datblygu Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan ar y cyd ag ALlau ac EWS; ac
- Y byddai ysgolion yn cydweithio â'u cynghorau ysgol a'u disgyblion i ystyried ffyrdd i wella presenoldeb, yn cydweithio ag EWS er mwyn sicrhau atgyfeiriadau mwy cyson, ac yn drylwyr o ran casglu data presenoldeb.

2.4 Ar ôl y cynllun gweithredu, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau ac arweiniad yn amlinellu'r disgwyliadau a'r rolau y dylai Allai ac ysgolion eu cyflawni i wella presenoldeb disgyblion, fel y trafodir isod.

**Rheoliadau**

2.5 Yn ôl y gyfraith, mae rhiant/gofalwr yn gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn o oedran ysgol gorfodol (yn fras, mae hyn yn golygu plant 5–16 oed) yn cael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i oedran, gallu a doniau'r plentyn, ynghyd ag unrhyw Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sydd gan y plentyn yn ôl adran 7 Deddf

Addysg 1996 ('Deddf Addysg 1996')[10]. Mae hyn trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall (gall y rhiant/gofalwr ddewis addysgu'r plentyn gartref).

2.6 Os yw'n ymddangos i'r ALI nad yw plentyn yn cael addysg addas, rhaid iddo ddechrau gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno gorchymyn presenoldeb ysgol dan adran 437 Deddf Addysg 1996.

2.7 Dan Adran 444(1A) Deddf Addysg 1996, mae'n drosedd waethygedig i riant, sy'n gwybod bod ei blentyn yn methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd, fethu gwneud i'w blentyn fynychu' ysgol heb gyfiawnhad rhesymol. Gellir erlyn rhieni am y drosedd hon, a all arwain at ddirwy o hyd at £2,500 fesul rhiant ar gyfer pob plentyn absennol, neu fynd i'r carchar am uchafswm o 3 mis, neu'r ddwy gosb.

2.8 Mae'n ddyletswydd ar ysgolion i fonitro presenoldeb disgyblion. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 ('Rheoliadau 2010')[11] yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol gadw cofrestr o bresenoldeb disgyblion, gan gofnodi presenoldeb pob disgybl ar ddwy adeg yn ystod y dydd; ar ddechrau sesiwn y bore ac ar un adeg yn ystod sesiwn y prynhawn. Os yw disgybl yn absennol, dylai'r gofrestr gofnodi p'un a yw'r absenoldeb yn un awdurdodedig neu anawdurdodedig.

2.9 Mae amrywiaeth o resymau pam y gallai ysgolion awdurdodi ceisiadau rhieni i blentyn fod yn absennol o'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys salwch neu'r angen i neilltuo amser ar gyfer ymlyniad crefyddol. Mae Rheoliadau 2010 yn caniatáu pwerau disgresiwm i ysgol ganiatáu absenoldeb awdurdodedig o'r ysgol i alluogi disgybl i fynd ar wyliau a gosod terfyn uchaf (deng diwrnod y flwyddyn), y tu hwnt i hwnnw na fyddai absenoldeb yn cael ei ganiatáu (heblaw mewn amgylchiadau eithiadol)[12]. I bob diben, mae hyn yn golygu y gallai'r pennaeth awdurdodi absenoldeb o bythefnos ar gyfer gwyliau teuluol.

2.10 Mae absenoldebau anawdurdodedig yn cynnwys absenoldeb heb reswm, cyrraedd yr ysgol yn hwyr ar ôl i'r gofrestr gau (cofnodwyd cod "U" ar ddata presenoldeb yr ysgol), a disgyblion ar wyliau nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan yr ysgol (naill ai oherwydd iddynt gael eu gwrthod, na wnaed cais, neu lle mae gwyliau teuluol wedi mynd y tu hwnt i nifer y dyddiau a awdurdodwyd gan yr ysgol).

---

[10] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/7

[11] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/1954/contents/made

[12] Mae'r Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan yn cyfeirio at deithiau tramor estynedig i ddisgyblion o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig. Yn benodol, mae'n datgan "dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r Rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â sefyllfa teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol ac amgylchiadau arbennig pob achos". Mae'r Fframwaith hefyd yn awgrymu y dylai ysgolion esbonio i rieni "os oes rhaid trefnu gwyliau yn ystod y tymor, ni ddylai'r absenoldeb fod yn fwy na deg diwrnod ysgol". http://gov.wales/docs/dcells/publications/121121frameworkcy.pdf

2.11 Dan ‘Reoliadau 2010’, mae’n ofynnol i ysgolion ddarparu adroddiadau data i ALlau yn rheolaidd (er na fanylir ar ba mor aml).

2.12 Er mwyn darparu ffordd ychwanegol i ALlau fynd i’r afael ag absenoldebau anawdurdodedig rheolaidd, rhoddodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013 (‘Rheoliadau 2013’)[13] ar waith. Pan y’u cyflwynwyd, eglurodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, sef Huw Lewis AC, y dylai HCBau “gael eu hystyried fel opsiwn ychwanegol at fesurau ymyrryd sydd eisoes ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol”[14].

2.13 Mae ‘Rheoliadau 2013’ yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau ddatblygu ac ymgynghori ar god ymddygiad sy’n amlinellu mesurau i sicrhau cysondeb a thryloywder wrth gyflwyno HCBau ar draws eu hardal. Dylent gynnwys gwybodaeth am:

- Sut i osgoi’r mater o ddyblygu hysbysiadau cosb;
- Mesurau i sicrhau nad yw hysbysiad cosb yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â throsedd pan mae trafodion ar gyfer y drosedd honno wedi’u hystyried neu eu dechrau gan yr ALl;
- Achlysuron pan fydd yn briodol cyflwyno hysbysiad cosb ar gyfer trosedd;
- Uchafswm nifer yr hysbysiadau cosb y gellir eu cyflwyno i un rhiant mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis; a
- Threfniadau ar gyfer cydlynu rhwng yr ALl, awdurdodau lleol cyfagos lle bo hynny’n briodol, yr heddlu a swyddogion awdurdodedig[15].

2.14 Mae’r Rheoliadau yn pennu cosbau ariannol fel a ganlyn:

- £60, pan gaiff y swm ei dalu cyn pen 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad cosb; neu
- £120, pan wneir y taliad rhwng 28 a 42 diwrnod.

2.15 Gall yr ALl ddechrau achos cyfreithiol ar gyfer peidio â thalu ar ôl y cyfnod o 42 diwrnod. Mae’n ofynnol i ALlau gadw cofnodion o HCBau, fel pa bryd y cyflwynwyd pob un, pryd y gwnaed y taliadau, os tynnwyd hysbysiad yn ôl a pham felly, a ph’un a erlynwyd y derbynnydd ai peidio .

[13] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/1983/contents/made

[14] Cofnod o Drafodion Cynulliad Cymru, 02/07/2013, Datganiad: Cyflwyno Bil Addysg (Cymru) gan Huw Lewis AC, http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/rop.aspx?meetingid=64&assembly=4&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=01/07/2013&endDt=01/09/2013&keyword=fixed%20penalty%20notice

[15] Caiff “swyddog awdurdodedig” ei ddiffinio yn adran 444B(4) Deddf Addysg 1996 (c.56) mewn perthynas â hysbysiadau cosb dan adran 444A y Ddeddf honno. https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/444

2.16 Mae ‘Rheoliadau 2013’ hefyd yn amodi y caiff y derbyniadau o ddirwyon HCB eu cadw gan yr ALI i dalu’r costau sy’n gysylltiedig â chyflwyno a gorfodi hysbysiadau cosb ac erlyn mewn achosion o beidio â thalu. Caiff unrhyw dderbyniadau na chânt eu defnyddio at y diben hwn eu dychwelyd i Weinidogion Cymru.

**Arweiniad ar fesurau penodol i wella presenoldeb**

2.17 I gynorthwyo ysgolion ac ALlau i wella presenoldeb ac annog arfer mwy cyson, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘*Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan, Arweinlyfr gweithredol i’r Gwasanaeth Lles Addysg’*[16] in 2011. Roedd hwn yn cynnwys strategaethau i ysgolion wella presenoldeb a rheoli diffyg prydlondeb.

2.18 Caiff ysgolion eu hannog i fod ag ystod o fentrau ar waith o gefnogi presenoldeb, fel polisi presenoldeb cynhwysfawr, hyrwyddo manteision presenoldeb rheolaidd i rieni (dysgu gwell, llai o berygl o ddisgyn ar ei hôl hi, manteision cymdeithasol cael ffrindiau, llai o berygl o ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol ac ati), cysylltu â rhieni os bydd plant yn colli’r ysgol heb esboniad, sicrhau bod staff yr ystafell ddosbarth yn deall codau presenoldeb, ac adolygu data presenoldeb yn rheolaidd er mwyn i dimau arweinyddiaeth ysgolion ddeall tueddiadau yn eu hysgol, pa ddisgyblion sy’n absennol yn rheolaidd a pha strategaethau ymyrryd a ddefnyddiwyd. Mae’r Fframwaith yn pwysleisio ‘Pan fo staff yr ysgol yn teimlo bod yna batrwm o absenoldeb, mae’n hanfodol eu bod yn gweithio’n agos gyda gwasanaethau cymorth iechyd, cymdeithasol ac addysg i sicrhau bod yr ymyrraeth fwyaf priodol ac effeithiol ar gael i’r disgybl a rhieni.’ Caiff ysgolion eu hannog hefyd i fod â pholisi sy’n cael ei ddeall yn glir a’i weinyddu’n gyson, sy’n manylu ar yr amgylchiadau pan na fyddant yn awdurdodi absenoldeb.

2.19 Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad ar gyflwyno HCBau ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig rheolaidd o’r ysgol. Mae’r arweiniad yn glir mai HCBau yw un o ystod o gamau gweithredu sydd ar gael i ysgolion i wella presenoldeb. Mae’n awgrymu y gallai HCBau fod yn fwyaf effeithiol ar gyfer achosion o absenoldeb nad yw wedi’i ymwreiddio ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn ysgol neu gan grwpiau penodol o fyfyrwyr, fel absenoldebau yn ystod y cyfnod cyn arholiadau. Gellir defnyddio HCBau hefyd i fynd i’r afael â thriwantiaeth mewn amgylchiadau pan fernir y gallai rhieni/gofalwyr sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plentyn neu ymhle y maent, ond nad ydynt yn fodlon cymryd cyfrifoldeb dros wneud hynny, er enghraifft pan fydd y rhiant/gofalwr wedi methu ymgymryd ag unrhyw gamau gwirfoddol neu gynorthwyol a gynigiwyd yn flaenorol.

[16] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework/?lang=cy

2.20 Mae'r arweiniad yn glir y dylai ysgolion ac ALlau gydweithio â rhieni/gofalwyr a disgyblion i annog presenoldeb a darparu unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen cyn mynd rhagddo ag unrhyw erlyniad. Mae'n datgan ei fod yn arfer da, ond nad yw'n ofyniad cyfreithiol, i rieni gael hysbysiad ysgrifenedig yn eu rhybuddio am y tebygolrwydd o gyflwyno HCB a chaniatáu 15 diwrnod ysgol i wella presenoldeb. Hefyd, dylai ysgolion ystyried a yw diffyg presenoldeb yn gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgybl, ac ni ddylent gyflwyno HCBau yn ddewis arall i gydweithio â rhieni i fynd i'r afael â'r rhain.

2.21 Yn Ionawr 2016, ysgrifennodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, at bob pennaeth yn rhoi arweiniad pellach ar awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor ysgol[17]. Roedd hyn yn dilyn llythyr i Gyfarwyddwyr Addysg ar yr un mater yn Rhagfyr 2015.

*2.22* Mae'r llythyr i benaethiaid yn pwysleisio bod Rheoliadau Cofrestru Disgyblion (Cymru) 2010 yn rhoi pŵer disgresiwn i benaethiaid awdurdodi hyd at 10 diwrnod yn ystod y tymor ysgol ar gyfer gwyliau teuluol, pan fydd rhieni'n gofyn am ganiatâd. Mae hefyd yn pwysleisio y gellir ystyried ceisiadau am wyliau o fwy na 10 diwrnod mewn 'amgylchiadau eithriadol'. Mae'r llythyr hefyd yn datgan pryder y Gweinidog ynghylch polisïau cyffredinol ar wrthod ceisiadau ar gyfer absenoldebau tebyg ac yn atgoffa penaethiaid i ystyried pob cais yn deg ac yn ôl ei rinweddau.

2.23 Cyhoeddwyd dogfen cwestiynau cyffredin ar wyliau yn ystod y tymor ysgol yng Nghymru yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2018, ac fe'i diweddarwyd ym Mai 2017[18]. Mae'r ddogfen gyfredol yn rhoi gwybodaeth am achos gan Gyngor Ynys Wyth i'r Goruchaf Lys ("achos Ynys Wyth") ar ddirwyon ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig. Ceisiodd yr achos eglurhad ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â phresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Dyfarnodd y Goruchaf Lys fod *presenoldeb rheolaidd* yn golygu presenoldeb yn unol â'r rheolau a ragnodwyd gan yr ysgol. Mae'r ddogfen yn esbonio bod hyn, yn ymarferol, yn golygu bod rhaid i'r corff llywodraethol, yn hytrach na rhieni plentyn, benderfynu ar yr hyn sy'n gyfystyr â phresenoldeb rheolaidd, a bod rhaid i rieni plentyn ofyn am ganiatâd y pennaeth i dynnu plentyn o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol. Pe byddai pennaeth yn gwrthod cais a bod y rhiant yn mynd â'r plentyn ar wyliau serch hynny, byddai'n cael ei farcio'n absenoldeb anawdurdodedig a gallai arwain at gyflwyno hysbysiad cosb i'r rhiant.

[17] http://gov.wales/docs/dcells/publications/160111-holidays-in-term-time-letter-cy.pdf
[18] http://gov.wales/docs/dcells/publications/170516-holidays-in-term-time-faq-v2-cy.pdf

## 3. Dulliau o ddatblygu Cod ALI

Mae'r bennod hon yn darparu tystiolaeth ar gyfer ystyried y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Gwerthuso'r gwahanol ddulliau gan ALlau ledled Cymru wrth iddynt benderfynu ar eu codau HCB
  - Beth oedd y sail resymegol gychwynnol i'r codau HCB?
  - Sut aeth ALlau ati i ddatblygu eu cod?
  - Beth oedd rôl y Consortiwm Addysg Rhanbarthol (CARh) o ran datblygu'r cod?
  - Sut y gwnaed penderfyniadau ynghylch pob elfen o'r cod?
- Ystyried rôl y Consortia Addysg Rhanbarthol mewn HCBau, gan gynnwys drafftio codau a rhoi arweiniad safonol i ysgolion
  - Beth oedd rôl y CARh o ran datblygu'r cod?
  - Sut y derbyniwyd hyfforddiant y CARh?
  - Pa arweiniad a roddodd CARhau a beth allai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol?

### Datblygu Cod yr ALI

*Gwaith datblygu cychwynnol mewn consortia rhanbarthol*

3.1 Ar ôl cyhoeddi arweiniad Llywodraeth Cymru, gweithiodd yr holl ALlau mewn pedwar grŵp rhanbarthol i ddechrau (yn ôl grwpiau'r CARhau) i ddatblygu codau HCB. Roedd y rhain naill ai'n grwpiau rhanbarthol presennol o fewn y CARhau a oedd â buddiant yn y polisi presenoldeb, neu'n grwpiau newydd a ymgynullwyd ac a gynhaliwyd gan staff y CARhau. Ymddengys y bu mewnbwn staff y CARh o fewn y grwpiau hyn yn amrywiol, gydag o leiaf un CARh yn darparu amser staff i helpu aelodau'r grŵp i ddehongli'r arweiniad a helpu i ddrafftio. Dywedodd llawer o gyfweleion ALlau eu bod yn disgwyl mabwysiadu codau rhanbarthol unfath wrth iddynt ddechrau'r broses. Dywedodd ychydig ohonynt eu bod hefyd wedi disgwyl mabwysiadu cod cenedlaethol ar gyfer Cymru yn wreiddiol, gan ddangos eu bod wedi camddeall arweiniad Llywodraeth Cymru, cyn sylweddoli bod angen cod lleol.

3.2 Wrth ddatblygu cod, llywiwyd ALlau gan ddadansoddiad o ddata absenoldeb anawdurdodedig ac arweiniad Llywodraeth Cymru. Ystyriodd rhai ALlau farn athrawon ac ymarferwyr EWS hefyd.

3.3 Daeth y grwpiau i gydsyniad ynghylch agweddau allweddol ar y cyd, a chrëwyd dogfennau drafft rhanbarthol. Yna, cymerodd ALlau y drafftiau hyn i'w trafod ymhellach â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

'Roedd geiriad a ffocws y cod ymddygiad yn wahanol yn y pen draw... rhoddodd y consortiwm yr arweiniad gwreiddiol, ond fe adawyd i'r awdurdod lleol.' Swyddog ALl

3.4 Parhaodd rhai ALlau cyfagos i gydweithio â'i gilydd ar eu codau ar ôl i'r gwaith rhanbarthol ddod i ben, a gwnaethant geisio sicrhau bod eu codau'n debyg neu'n unfath. Roedd yr ALlau hyn yn teimlo y byddai cael codau unfath yn helpu i gyfleu neges gyson i rieni y gallai eu plant fod yn mynychu ysgolion mewn ALlau gwahanol, a helpu ag erlyniadau lle mae ALlau yn rhannu llys ynadon.

3.5 Mae'n glir bod y trafodaethau cychwynnol hyn a gwaith cydlynu pellach wedi cael dylanwad cryf ar y codau terfynol a fabwysiadwyd. Mae Tabl 3.1 yn dangos bod cysondeb sylweddol o ran y geiriad a gynhwyswyd yng nghodau terfynol ALlau rhwng ALlau yn yr un rhanbarth.

**Tabl 3.1: Rhesymau dros gyflwyno HCBau mewn Codau ALlau**

| AWDURDOD LLEOL | | ABSENOLDEB ANAWDURDODEDIG | | | | | GWYLIAU | | | | HWYRNI CYSON | | | ARALL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer y sesiynau a gollwyd oherwydd absenoldeb anawdurdodedig | | | | | Nifer y sesiynau a gollwyd oherwydd gwyliau yn ystod y tymor neu oedi wrth ddychwelyd o wyliau estynedig | | | | Disgybl yn cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau am fwy na nifer ganlynol y sesiynau: | | | |
| | | **10** yn ystod y **tymor** presennol | **20** yn ystod y **tymor** presennol | **10** yn ystod y tymor presennol gan ddod â'r presenoldeb cyffredinol islaw **90%** yn ystod y flwyddyn ysgol | **10** yn ystod y **flwyddyn** academaidd bresennol | **Triwantia-eth**[19] | **10** | **20** | **10** gan ddod â phresenoldeb cyffredinol y disgybl islaw **90%** yn ystod y flwyddyn ysgol | Ni fanylwyd ar nifer y sesiynau | **10** yn ystod y tymor presennol | **20** yn ystod y tymor presennol | **10** mewn tymor gan ddod â'r presenoldeb cyffredinol islaw **90%** yn ystod y flwyddyn ysgol | Methiant **rhieni neu ofalwyr** i **ymgysylltu** â'r ysgol a/neu'r EWS |
| Gogledd Cymru (GwE) | Conwy | ✓ | | | | ✓[20] | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ |
| | Sir Ddinbych | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | | |
| | Sir y Fflint | | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ | | | |
| | Gwynedd | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | |
| | Ynys Môn | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | |
| | Wrecsam | ✓ | | | | ✓ | | | | | ✓ | | | |
| De-orllewin a chanolbarth Cymru (ERW) | Sir Gâr | | | ✓ | | | | | ✓ | | | | ✓ | |
| | Ceredigion | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | |
| | Castell-nedd Port Talbot | | | ✓ | | | | | ✓ | | | | ✓ | |
| | Sir Benfro | | | ✓ | | | | | ✓ | | | | ✓ | |
| | Powys | | | ✓ | | | | | ✓ | | | | ✓ | |
| | Abertawe | | | ✓ | | | | | ✓ | | | | ✓ | |

[19] Mae hyn yn cynnwys pan ddaw disgybl at sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol heb reswm derbyniol

[20] Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd ar fentrau cyrch triwantiaeth (bydd hyn ond yn bosibl pan fydd y ffeithiau eisoes yn hysbys e.e. pan fydd gan blentyn hanes o absenoldebau cyson), oni bai bod rheswm cyfiawnadwy dros fod yn absennol o'r ysgol

| AWDURDOD LLEOL | | ABSENOLDEB ANAWDURDODEDIG | | | | | GWYLIAU | | | | HWYRNI CYSON | | | ARALL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer y sesiynau a gollwyd oherwydd absenoldeb anawdurdodedig | | | | Triwantia-eth[21] | Nifer y sesiynau a gollwyd oherwydd gwyliau yn ystod y tymor neu oedi wrth ddychwelyd o wyliau estynedig | | | | Disgybl yn cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau am fwy na nifer ganlynol y sesiynau: | | | Methiant **rhieni neu ofalwyr** i **ymgysylltu** â'r ysgol a/neu'r EWS |
| | | **10** yn ystod y **tymor** presennol | **20** yn ystod y **tymor** presennol | **10** yn ystod y tymor presennol gan ddod â'r presenoldeb cyffredinol islaw **90%** yn ystod y flwyddyn ysgol | **10** yn ystod y **flwyddyn** academaidd bresennol | | **10** | **20** | **10** gan ddod â phresenoldeb cyffredinol y disgybl islaw **90%** yn ystod y flwyddyn ysgol | Ni fanylwyd ar nifer y sesiynau | **10** yn ystod y tymor presennol | **20** yn ystod y tymor presennol | **10** mewn tymor gan ddod â'r presenoldeb cyffredinol islaw **90%** yn ystod y flwyddyn ysgol | |
| Canol De Cymru (CSCJES) | Pen-y-bont ar Ogwr | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ |
| | Caerdydd | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| | Merthyr Tudful | ✓ | | | | | ✓ | | | | ✓ | | | |
| | Rhondda Cynon Taf | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| | Bro Morgannwg | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓[22] | ✓ | | | ✓ |
| De-ddwyrain Cymru (EAS) | Blaenau Gwent | ✓ | | | | ✓ | | | | | ✓ | | | |
| | Caerffili | ✓[23] | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ |
| | Sir Fynwy | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | |
| | Casnewydd | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | |

[21] Mae hyn yn cynnwys pan ddaw disgybl at sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol heb reswm derbyniol

[22] Absenoldeb anawdurdodedig o'r ysgol oherwydd gwyliau yn ystod y tymor A lle mae hanes o bresenoldeb gwael

[23] Dros gyfnod treigl o 12 wythnos yn hytrach na'r tymor presennol

### Ymgynghoriadau lleol a llunio'r codau terfynol


3.6 Cynhaliodd pob ALl ymgynghoriad ar y codau drafft cyn llunio'r fersiynau terfynol; er i'r graddau a'r math o ymgynghoriad amrywio'n sylweddol. Ceisiodd rai ALlau sylwadau gan grŵp bach o randdeiliaid mewnol, sef y Cyfarwyddwr Addysg ac uwch reolwyr eraill yn yr adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol, fel arfer, a staff sy'n gyfrifol am reoli dirwyon ac erlyniadau.

3.7 Ymestynnodd y rhan fwyaf o'r ALlau yr ymgynghoriad y tu hwnt i randdeiliaid mewnol, i benaethiaid a staff addysgu eraill. Staff EWS a arweiniodd trafodaethau ynghylch y drafftiau, yn aml, o fewn grwpiau presennol sydd â buddiant mewn polisïau presenoldeb (fel Fforymau Presenoldeb). Hefyd, ceisiodd rai ohonynt sylwadau gan aelodau'r cyhoedd trwy ymgynghoriadau ar-lein, a chan gynghorwyr etholedig mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu. Cynhaliodd ychydig o ALlau ymarferion ymgynghori manylach, gan ymgysylltu â llywodraeth, staff ysgolion yn ehangach, rhieni, ac (mewn un ALl) â grwpiau o bobl ifanc.

> 'Roedd cael cymeradwyaeth gan gynghorwyr yn her. Nid oedd llawer o gynghorwyr eisoes yn cymeradwyo cod a all gosbi rhieni. Roeddent yn poeni am rieni sy'n gweithio yn y sector twristiaeth nad ydynt yn gallu cymryd gwyliau y tu allan i'r tymor, ac am gosbi rhieni sydd eisoes yn wynebu caledi ariannol.' Swyddog ALl

3.8 Mae ymatebion yr arolwg yn cadarnhau graddau amrywiol yr ymgynghoriadau, gan mai 19 y cant yn unig o ymatebwyr ysgolion sy'n datgan y gwnaeth eu ALl ymgynghori â nhw wrth ddatblygu'r cod. Roedd cyfraddau cymharol debyg o ymatebwyr yn cytuno ac yn anghytuno ynghylch addasrwydd yr ymgynghoriad, fel y gwelir yn Ffigur 3.1.

**Ffigur 3.1: Cynhaliwyd ymgynghoriad addas â rhanddeiliaid, gan gynnwys staff ysgolion, wrth i'm Hawdurdod Lleol ddatblygu ei god**




255 o ymatebion, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017

3.9 "Hysbyswyd" cynrychiolwyr yr heddlu am ddatblygu'r cod HCB ac, mewn rhai ALlau, fe'u "gwahoddwyd i wneud sylwadau". Fodd bynnag, nid ydym wedi canfod unrhyw achosion lle y gwnaeth yr heddlu sylwadau ar ddatblygu cod HCB lleol[24].

3.10 Penderfynodd timau cyfreithiol ALlau ar eiriad terfynol y codau HCB mewn llawer o awdurdodau lleol. Esboniodd sawl un o gyfweleion ALlau fod y testun terfynol wedi'i ddylanwadu'n gryf gan ddehongliad swyddogion cyfreithiol o arweiniad Llywodraeth Cymru.

**Materion a ystyriwyd wrth bennu (a diwygio) codau**

3.11 Mae trafodaethau ynghylch pennu codau ALlau ac unrhyw ddiwygiadau a newidiadau dilynol (lle digwydd y rhain) wedi canolbwyntio'n bennaf ar y materion canlynol:

- **Cynnwys sbardun penodol oherwydd gwyliau yn ystod y tymor**: Mae'r rhan fwyaf o ALlau wedi cynnwys cymalau penodol ar gyfer gwyliau heb ganiatâd ac wedi pennu sbardunau ar gyfer absenoldebau gwyliau anawdurdodedig sy'n arwain at ystyried HCB. Mae'r sbardunau yn amrywio yn ôl Cod yr ALl, fel y gwelir yn Nhabl 3.1. Lle nad oes unrhyw gymal tebyg, dywed y cyfweleion fod hyn eisoes yn cael ei gwmpasu gan y sbardun cyffredinol ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig (sy'n cynnwys gwyliau, hwyrni neu driwantiaeth), neu nad yw'r

[24] Mewn un ALl, ysgrifennu yr Heddlu at y Cyngor ar ôl i'r cod gael ei roi ar waith i ofyn iddo beidio â chyflwyno HCBau i rieni sy'n aelodau o'r Heddlu, gan nad oes ganddynt unrhyw hyblygrwydd o ran eu gwyliau.

ALl yn dymuno erlyn neu gyflwyno HCB ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig yn ymwneud â gwyliau er mwyn peidio â chosbi rhieni sy'n dewis tynnu eu plentyn o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor ysgol.

- **Pennu nifer y sesiynau a gollwyd:** mae'r rhan fwyaf o'r ALlau yn nodi y gellir cyflwyno HCB os bydd disgybl wedi colli 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) trwy absenoldeb anawdurdodedig. Mae un ALl yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgybl fod wedi colli 20 sesiwn; ystyriwyd bod hyn yn fwy priodol na sbardun is dan amgylchiadau lleol i fynd i'r afael ag absenoldebau anawdurdodedig rheolaidd.
- **Trothwy ar gyfer presenoldeb cyffredinol:** Mae codau ar gyfer ALlau yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru yn mynnu y gellir ond cyflwyno HCB pan fydd y sesiynau a gollwyd yn *'dod â phresenoldeb cyffredinol disgyblion islaw 90 y cant'*. Ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff HCBau eu defnyddio i fynd i'r afael ag absenoldebau anawdurdodedig rheolaidd, yn hytrach nag i gosbi rhieni am dynnu eu plant o'r ysgol am wyliau byr yn ystod y tymor ysgol. Yn ei hanfod, nid yw'n caniatáu i HCBau gael eu cyflwyno pan fydd yr absenoldeb anawdurdodedig yn bythefnos o wyliau (20 sesiwn), gan na fyddai hyn ar ei ben ei hun yn dod â phresenoldeb disgybl islaw 90 y cant mewn tymor.
- **Absenoldebau olynol:** Yn gyffredinol, mae codau'n nodi nad oes rhaid i absenoldebau fod yn olynol. Yn gyffredinol, esboniodd cyfweleion ALlau fod hyn wedi'i gynnwys yn benodol i gyfleu neges glir for HCBau yno i fynd i'r afael â cholli'r ysgol yn rheolaidd yn hytrach na gwyliau yn unig. Esboniodd rhai ohonynt ymhellach fod plant yn colli sesiynau ysgol yn gyson o gwmpas penwythnosau a gwyliau'r ysgol (er enghraifft, plentyn yn colli sesiwn bob prynhawn dydd Gwener i fynd i ffwrdd am y penwythnos yn ystod tymor olaf yr ysgol), sy'n cael ei ystyried yr un mor niweidiol â cholli'r ysgol am bythefnos i fynd ar wyliau dramor.
- **Cyfnod amser:** Mae codau'n nodi bod sesiynau a gollwyd neu drothwyon presenoldeb yn berthnasol naill ai i'r tymor presennol neu'r flwyddyn academaidd bresennol. Yn y rhan fwyaf o ALlau, caiff y tymor ysgol ei ddefnyddio ar gyfer y cyfnod amser perthnasol ar gyfer "nifer y sesiynau", a'r flwyddyn academaidd ei defnyddio wrth ystyried "absenoldeb cyffredinol". Dywedodd sawl un o gyfweleion ALlau eu bod wedi diwygio eu codau ers hynny, neu eu bod yn bwriadu eu diwygio, er mwyn i'r cyfnod amser perthnasol fod yn *'gyfnod treigl o 12 mis ar draws blynyddoedd academaidd'*. Mae hyn yn rhoi'r un pwysoliad i absenoldebau anawdurdodedig ni waeth pryd y cânt eu cymryd yn ystod y flwyddyn

academaidd. Er enghraifft, nid yw'r rhai sy'n absennol ar ddechrau tymor dan anfantais annheg.

3.12 Ar ben hynny, gallai Codau HCB gynnwys yr elfennau canlynol, nad oeddent yn destun trafodaeth ac anghytundeb helaeth, yn nodweddiadol:

- **Sbardunau ar gyfer triwantiaeth:** Mae pymtheg o ALlau yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cyflwyno HCBau ar gyfer triwantiaeth. Esboniodd ALlau nad ydynt yn cynnwys triwantiaeth yn eu codau nad yw triwantiaeth yn wahanol i resymau eraill dros golli sesiwn heb ganiatâd, yn y bôn, ac felly yr ystyrir bod y cymal yn ddiangen.
- **Diffiniadau triwantiaeth:** lle caiff ei gynnwys, mae diffiniad triwantiaeth yn amrywio fesul rhanbarth[25]. Er enghraifft, mae ALlau yng nghonsortiwm addysg rhanbarthol gogledd Cymru (GwE) yn diffinio triwantiaeth fel *'aros i ffwrdd o'r ysgol heb reswm da (geiriadur Rhydychen)'*, tra bod y rhai yng nghonsortiwm addysg rhanbarthol de-ddwyrain Cymru (GCA) yn ei ddiffinio fel *'lle mae'r plentyn wedi dod at sylw'r Heddlu neu'r cyhoedd yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol'*.
- **Sbardunau ar gyfer hwyrni:** mae'r holl godau'n cynnwys darpariaethau ar gyfer cyflwyno HCBau ar gyfer '*cyrraedd yn hwyr yn gyson h.y. ar ôl i'r gofrestr gau*'. Yna, maent yn mynd ymlaen i ddiffinio *'cyson'* fel 'cyrraedd o leiaf 10 sesiwn yn hwyr'. Mae rhai codau'n rhoi eglurhad pellach ynghylch ystyr cyrraedd yn hwyr, er enghraifft 'cyrraedd ar ôl 9.30am', y tybir bod hynny'n hwyrach na phan gaiff y gofrestr ei llenwi a'i chau.
- **Llythyrau rhybudd:** mae'r holl godau'n cynnwys darpariaethau ar gyfer anfon llythyr o rybudd at y rhiant yn ei hysbysu y gallai dderbyn HCB os na fydd presenoldeb ei blentyn/phlentyn yn gwella cyn pen 15 diwrnod. Dywedodd cyfweleion fod ymgynghoreion wedi croesawu cynnwys llythyrau o rybudd ar gyfer HCBau, yn gyffredinol. Fodd bynnag, mewn un ALl, mynegodd penaethiaid bryderon yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer datblygu'r cod HCB y byddai llythyrau o rybudd yn rhy gyfwynebiadol hyd yn oed, ac y byddant mewn perygl o niweidio'r berthynas rhwng ysgolion a rhieni (nid oedd penaethiaid yn yr ALl hwn o blaid cyflwyno HCBau o gwbl).

[25] Nid oes gan Lywodraeth Cymru ddiffiniad safonol o driwantiaeth.

- **Mynd i'r afael â chyfrifoldebau rhiant ar y cyd / cyflwyno mwy nag un HCB i riant:** dywed rhai codau'n benodol y gellir cyflwyno HCBau i fwy nag un rhiant os ydynt yn rhannu cyfrifoldeb rhiant. Dywed rhai codau y gellir cyflwyno mwy nag un HCB os oes mwy nag un plentyn yn y teulu â phresenoldeb gwael. Dywed rhai codau fod uchafswm o HCBau y gellir eu cyflwyno i riant disgybl yn yr un flwyddyn academaidd. Ymddengys fod geiriad terfynol y materion hyn wedi'i benderfynu'n lleol.
- **Eithriadau ac ystyriaethau:** dywed rhai codau'n eglur na ellir cyflwyno HCBau ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion (plant sy'n derbyn gofal, y rhai sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol). Mae codau eraill yn rhestru nifer o ystyriaethau y dylid eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylid cyflwyno HCB ai peidio (fel anghenion dysgu ychwanegol, hanes teuluol o gamddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl, effaith niweidiol sylweddol dirwy ar les y teulu). Esboniodd rhai ALlau fod effaith dirwy ar deuluoedd ag incwm isel yn bryder a fynegwyd yn aml gan gynghorwyr etholedig mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu.

**Rôl y Consortia Addysg Rhanbarthol (CARh)**

3.13 Ym mhob rhanbarth, cynorthwyodd staff CARhau â datblygiad cychwynnol y codau trwy drefnu cyfarfodydd penodol ar gyfer datblygu codau HCB neu ddarparu cymorth i grwpiau rhanbarthol presennol a oedd yn trafod presenoldeb. Darparodd o leiaf un CARh amser staff i helpu grwpiau rhanbarthol i ddehongli arweiniad Llywodraeth Cymru a helpu â'r gwaith drafftio.

3.14 Ni chanfuom lawer o dystiolaeth fod CARhau wedi darparu hyfforddiant helaeth neu unrhyw arweiniad safonol i ysgolion. Dim ond 15 y cant o ymatebwyr yr arolwg a grybwyllodd eu bod wedi mynychu hyfforddiant a ddarparwyd gan CARhau. Nid oedd athrawon yr ymgynghorwyd â nhw mewn cylchoedd trafod yn gallu cofio mynychu hyfforddiant na chael arweiniad gan y CARh.

3.15 O ymatebwyr yr arolwg a oedd wedi mynychu hyfforddiant gan y CARh, roedd barn ynghylch ansawdd yr hyfforddiant yn gymysg. Roedd tua hanner (53 y cant) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod CARhau yn darparu hyfforddiant o ansawdd uchel ar sut i gyflwyno HCBau, tra bod 47 y cant yn cytuno. Esboniodd un ymatebydd fod yr hyfforddiant ei hun o ansawdd uchel ond, oherwydd y caiff manylion ar sut mae'r weithdrefn HCBau yn gweithio'n ymarferol eu penderfynu'n lleol, nad oedd yn berthnasol iawn. Nododd ychydig o ymatebwyr fod anghytundeb a dryswch ymhlith hyfforddwyr/cyflwynwyr yn yr hyfforddiant oherwydd y

gwahaniaethau rhwng codau ALlau, a'r gwahaniaethau o ran y ffordd yr oedd gwahanol bobl yn yr un ALl yn dehongli'r un cod. Dywedodd sawl ymatebydd fod angen arweiniad cyson, clir i ysgolion.

3.16 Ymddengys y bu gan CARhau rôl gyfyngedig iawn wrth ddatblygu'r codau terfynol, eu cyflwyno a'u rhoi ar waith. Darparodd o leiaf un CARh hyfforddiant ar HCBau i Ymgynghorwyr Her sy'n helpu i herio ysgolion i wella. Esboniodd cynrychiolwyr CARhau a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymchwil hon nad oeddent o'r farn bod y polisi HCBau o fewn eu cylch gwaith. Roedd bron i dri chwarter ymatebwyr yr arolwg (73 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod angen arweiniad neu hyfforddiant rhanbarthol gwell gan CARhau ynghylch pryd i gyflwyno HCBau.

**Casgliadau**

- I ddechrau, cydweithiodd ALlau â'i gilydd mewn grwpiau rhanbarthol i ddatblygu eu codau. Cydweithiodd rhai ALlau cyfagos â'i gilydd i ddatblygu codau unfath.
- Ceir cysondeb sylweddol yn y cymalau sydd wedi'u cynnwys yng nghodau terfynol ALlau rhwng ALlau yn yr un rhanbarth, sy'n awgrymu bod gwaith rhanbarthol cychwynnol a chydlynu pellach wedi dylanwadu'n gryf ar ffurfio nodweddion allweddol codau'r ALlau.
- Ymgynghorodd ALlau yn lleol cyn cadarnhau eu codau HCB. Cynhaliodd rhai ALlau ymgynghoriadau cyfyngedig yn fewnol, tra yr ymgysylltodd eraill â phenaethiaid a phobl eraill yng nghymuned yr ysgol. Gallai hyn esbonio pam na chyfrannodd lawer o ymatebwyr yr arolwg at ddatblygu codau lleol.
- Cymalau yn ymwneud â gwyliau, pennu nifer y sesiynau a gollwyd, gan gynnwys trothwy ar gyfer absenoldebau cyffredinol, absenoldebau olynol a chyfnodau amser ar gyfer sesiynau coll, yw'r elfennau a arweiniodd at y drafodaeth fwyaf wrth benderfynu ar y codau. Dewisodd rhai ALlau eiriad pwrpasol er mwyn sicrhau nad oedd codau HCBau i'w gweld yn cosbi rhieni am absenoldebau oherwydd gwyliau byr yn unig.
- Mae codau'r holl ALlau (heblaw un sy'n mynnu 20) yn mynnu bod o leiaf 10 sesiwn yn cael eu colli oherwydd absenoldebau anawdurdodedig. Mae codau mewn 18 o ALlau yn cynnwys sbardunau ar gyfer gwyliau. Mae pymtheg o godau'n cynnwys sbardunau ar gyfer triwantiaeth. Mae'r holl godau'n cynnwys sbardunau ar gyfer cyrraedd o leiaf 10 sesiwn yn siŵr yn gyson ar ôl i'r gofrestr gau. Yng nghonsortiwm addysg rhanbarthol canolbarth a gorllewin Cymru

(ERW), mae codau'r holl ALlau hefyd yn mynnu bod presenoldeb islaw 90 y cant er mwyn cyflwyno HCB.

- Mae gan rai codau sbardunau yn ymwneud â sesiynau a gollwyd mewn tymhorau academaidd a phresenoldeb cyffredinol yn ystod blwyddyn ysgol. Gallai'r cyfnodau amser gwahanol a ddefnyddir ar gyfer sbardunau gwahanol a'r trothwyon ar gyfer gwahanol fathau o absenoldebau anawdurdodedig beri dryswch i rieni.
- Roedd gan y CARhau rôl gyfyngedig mewn datblygu a gweithredu codau HCB. Cefnogodd bob un ohonynt y gwaith cydlynu cychwynnol.
- Nid oes llawer o dystiolaeth i CARhau fod wedi darparu hyfforddiant nac arweiniad helaeth i ysgolion. Roedd gan y rhai a fynychodd yr hyfforddiant hwn safbwyntiau cymysg o ran ei ansawdd.
- Esboniodd cynrychiolwyr y CARhau a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymchwil nad oeddent o'r farn bod y polisi HCB o fewn eu cylch gwaith; er bod mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno bod angen arweiniad neu hyfforddiant rhanbarthol gwell gan CARhau ynghylch pryd i gyflwyno HCBau.

# 4. Gweithredu'r broses yn ymarferol

4.1 Mae'r bennod hon yn darparu tystiolaeth ar gyfer ystyried y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Ymchwilio i'r rhesymau pam y caiff HCBau eu cyflwyno, a'r amgylchiadau
  - Gyda'r cod ar waith, sut caiff HCBau eu cyflwyno'n ymarferol?
  - Pwy sydd ynghlwm pan gaiff HCB ei gyflwyno?
  - Pa fath o gyfathrebu a geir rhwng ALlau/CARh ac ysgolion?
  - Beth yw'r rhesymau nodweddiadol dros gyflwyno HCB?
  - Sut caiff HCBau eu defnyddio o gymharu ag opsiynau eraill i wella presenoldeb?
  - Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar b'un a chaiff HCBau eu talu'n brydlon ai peidio?
  - I ba raddau y mae nifer a natur yr HCBau a gyflwynir yn cyfateb i god yr ALl? Pa mor aml y caiff ei ddefnyddio'n ddogfen gyfeirio gan randdeiliaid?

**Sut caiff HCBau eu cyflwyno'n ymarferol?**

*Lansiad cychwynnol*

4.2 Cadarnhaodd a chyhoeddodd ALlau eu Codau HCB yn ystod y flwyddyn academaidd 2014/15. Nid oedd gweithdrefnau ychydig o ALlau ar gyfer cyflwyno HCBau ar waith yn llawn tan yn hwyr ym mlwyddyn academaidd 2014/15 neu ar ôl dechrau blwyddyn academaidd 2015/16. Esboniwyd hyn fel a ganlyn:

- Roedd rhai ALlau yn mynnu bod pob ysgol yn mabwysiadu'r cod HCB fel rhan o bolisi'r ysgol, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethol yr holl ysgolion gytuno gwneud hynny – proses nad oedd yn syml bob tro;
- Roedd oedi wrth i ychydig o ALlau sefydlu systemau i gyflwyno llythyrau a chasglu dirwyon;
- Bu rhaid i un ALl fuddsoddi mewn system feddalwedd newydd i wneud hyn, gan nad oedd ei systemau presennol yn gallu ymdrin â chyflwyno HCBau.

4.3 Defnyddiodd ALlau ystod o ddulliau i roi gwybod i ysgolion a rhieni am HCBau. Anfonodd bob un ohonynt wybodaeth ac arweiniad at benaethiaid / arweinwyr presenoldeb trwy eu dulliau cyfathrebu arferol (e-bost, cyfarfodydd, cylchlythyron). Darparodd llawer o ALlau sesiynau hyfforddiant i benaethiaid, athrawon a staff EWS. Cynhaliodd rai ohonynt ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd wedi'u hanelu at rieni ac athrawon, gan gynnwys cylchlythyron i rieni ac erthyglau yn y wasg leol, tra gadawodd eraill i ysgolion roi gwybod i rieni. Nid yw'n ymddangos bod maint y gweithgarwch yn adlewyrchu nifer yr HCBau a gyflwynwyd ym mhob ALl. Er

enghraifft, cyflwynodd un ALl sawl sesiwn hyfforddiant i athrawon, ond nid yw wedi cyflwyno unrhyw HCBau ers hynny.

*Y broses ar waith*

4.4 Ym mhob ALl, ysgolion sy'n gwneud y cais cychwynnol i'r tîm EWS yn yr ALl gyflwyno HCB (a llythyr cychwynnol o rybudd). Felly, yr ysgol sy'n penderfynu p'un a yw defnyddio HCBau i annog presenoldeb yn briodol ar gyfer cymuned yr ysgol ai peidio. Ni chanfuom unrhyw enghreifftiau o staff EWS na'r heddlu yn arwain cais am HCB. Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth ychwaith o HCB yn cael ei gyflwyno'n awtomatig wedi i absenoldebau anawdurdodedig disgybl (a'r gyfradd bresenoldeb gyffredinol, os yw'n berthnasol) gyrraedd y sbardun HCB ar system wybodaeth rheoli absenoldebau ysgol. Mae'n amlwg bod penderfyniad i wneud cais am HCB yn cael ei wneud gan ysgolion unigol, a hynny fesul achos.

> 'Nid oes unrhyw orfodaeth iddynt [ysgolion] gyflwyno un, dim ond dod ataf â digon o dystiolaeth i mi allu gwneud penderfyniad am y cais.' Swyddog Awdurdod Lleol.

4.5 I wneud cais am HCB, rhaid i'r ysgol ddarparu sawl darn o wybodaeth. Mae codau llawer o ALlau yn cynnwys rhestr wirio o'r wybodaeth sydd ei hangen. Mae sawl cod yn cynnwys ffurflen wybodaeth mewn Atodiad. Yn nodweddiadol, mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am absenoldebau a phresenoldeb cyffredinol, unrhyw wybodaeth am ymdrechion a wnaed gan yr ysgol ac EWS i gydweithio â rhieni i leihau absenoldebau anawdurdodedig, hanes o broblemau o ran presenoldeb a chamau gweithredu, ac unrhyw ystyriaethau perthnasol yn ymwneud â chydraddoldeb neu anghenion addysgol arbennig.

4.6 Yn y rhan fwyaf o ALlau, caiff y cais ei brosesu gan swyddog arweiniol yr ALl. Mae swyddogion arweiniol ALlau yn aelodau o'r EWS, ac felly maent yn ystyried eu rôl yn estyniad o'r gwaith a wneir gan staff EWS mewn ysgolion.

4.7 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod swyddog unigol yn ystyried ceisiadau'n ofalus, yn gwirio bod HCB yn briodol dan yr amgylchiadau, a bod y meini prawf a amodir yn y cod lleol yn cael eu bodloni. Er enghraifft, dywedodd cyfweleion ALlau eu bod wedi gwrthod ceisiadau am HCB pan na all ysgolion ddarparu digon o dystiolaeth o'u hymdrechion i ymgysylltu â rhieni, neu lle'r oeddent yn teimlo y byddai amgylchiadau'r teulu yn golygu y byddai HCB yn cael effaith niweidiol ar rieni (a'u plant).

‘Bu rhai plant ar y llwyth achosion yn gymwys i gael HCB, ond mae angen i ni ei wneud fesul achos yn ôl disgresiwn, hyd yn oed pan rydym yn defnyddio’r cod ymddygiad.’ Swyddog Awdurdod Lleol

‘Weithiau, pan mae llawer o blant neu ymgysylltiad â’r gwasanaethau cymdeithasol, bydd yr ysgol yn ein ffonio i drafod tynnu HCB yn ei ôl oherwydd nad oedden nhw’n gwybod beth oedd yn digwydd gyda’r teulu.’ Swyddog Awdurdod Lleol

4.8 Mewn rhai ALlau, ceir arweiniad cryf gan adrannau cyfreithiol i beidio â chyflwyno HCB oni bai y byddai’n arwain at erlyniad llwyddiannus. Weithiau, mae hyn yn golygu bod rhaid i swyddogion arweiniol ystyried ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ysgol a gwrthod cais am HCB oherwydd ei bod yn credu (yn eu barn nhw) y byddai’r ynad yn anghytuno â phenderfyniad gwreiddiol y pennaeth i beidio ag awdurdodi cais am absenoldeb ar gyfer gwyliau.

4.9 Mewn ychydig o ALlau, caiff ceisiadau am HCBau eu hadolygu gan banel (panel presenoldeb neu banel lles), sy’n cynnwys swyddog arweiniol yr ALl a chynrychiolwyr EWS a’r gwasanaethau cyfreithiol ac, mewn rhai achosion, athrawon ysgol. Mae’r panel yn ystyried y cais ac yn gwneud penderfyniad ynghylch p’un a ddylid cyflwyno HCB ai peidio. Nid yw ALlau sydd wedi mabwysiadu’r dull hwn wedi cyflwyno llawer o HCBau, sy’n awgrymu efallai nad yw’r dull hwn yn ymarferol i ALlau sy’n derbyn nifer fawr o geisiadau ar gyfer HCBau gan ysgolion.

4.10 Mewn ychydig o ALlau, caiff ceisiadau eu prosesu gan staff gweinyddol mewn proses fwy mecanyddol oherwydd bod nifer fwy o geisiadau. Mae hyn yn dueddol o fod yn wir mewn ALlau lle na fyddai’r swyddog arweiniol yn gallu archwilio pob cais am HCB yn bersonol. Gallai hyn olygu y caiff mwy o geisiadau am HCBau eu cymeradwyo heb archwilio amgylchiadau eraill i’r un graddau ag mewn ALlau eraill.

4.11 Pan ofynnwyd pwy maent yn credu sy’n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch p’un a gaiff HCB ei gyflwyno ai peidio, roedd ychydig yn fwy o ymatebwyr yr arolwg yn credu mai staff yr ALl (55 y cant) sy’n gwneud y penderfyniad hwn, o gymharu â staff ysgolion (45 y cant).

4.12 Mae ein hadolygiad o’r dystiolaeth yn awgrymu bod ysgolion yn gwneud y penderfyniad cychwynnol i wneud cais i gyflwyno HCB fesul achos. Ym mwyafrif yr ALlau, mae EWS yn ystyried y cais fesul achos ac yn llunio barn ynghylch p’un a ddylid cyflwyno llythyr o rybudd / HCB neu wrthod y cais. Mewn ychydig o ALlau, caiff y penderfyniad i fynd rhagddo neu wrthod y cais ei wneud gan banel, sydd eto

yn ystyried pob cais yn unigol. Mewn ychydig o ALlau eraill, mae'r broses yn cynnwys gwirio bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chyflwyno yn bennaf, ac nid ydynt yn craffu ar geisiadau i'r un lefel o fanylder.

*Niferoedd a gyflwynwyd*

4.13 Ledled Cymru, cyflwynwyd 2,178 HCB yn 2014/15 a 4,224 HCB yn 2015/16. Fel y nodwyd yn 4.2, nid oedd HCBau ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd lawn yn ystod y flwyddyn gyntaf yr oeddent ar waith. Disgwylir i tua 2,300 o HCBau gael eu cyflwyno yn 2016/17 (Tabl 4.2).


4.14 Mae gwahaniaeth sylweddol yn nifer yr HCBau a gyflwynwyd ar draws ALlau. Mae Tabl 4.1 yn dangos nifer yr HCBau ar gyfer pob ALl mewn grwpiau rhanbarthol, ac mae Ffigur 4.1 yn dangos yr HCBau a gyflwynwyd fesul 1,000 o ddisgyblion ym mhob ALl. Ni chyflwynodd saith ALl unrhyw HCBau a chyflwynodd 10 ALl lai na 50 o HCBau yn ystod 2014/15. Roedd hyn wedi disgyn i dri a chwech ALl, yn ôl eu trefn, yn 2015/16. ALlau yn rhanbarth canol de Cymru sy'n cyflwyno'r nifer fwyaf o HCBau mewn niferoedd absoliwt a pherthynol, a'r rhai yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru sy'n cyflwyno'r nifer leiaf.

**Tabl 4.1 Cyfanswm yr HCBau a gyflwynwyd fesul blwyddyn gan ALl**

| | **Awdurdod Lleol** | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---|---|---|
| Canol De Cymru (CSCJES) | Caerdydd | 1,020 | 1,531 |
| | Rhondda Cynon Taf | 682 | 1,063 |
| | Merthyr Tudful | 47 | 163 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 17 | 23 |
| | Bro Morgannwg | 4 | 33 |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW) | Abertawe | 157 | 391 |
| | Powys | 83 | 292 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 35 | 73 |
| | Ceredigion | 16 | 20 |
| | Sir Gâr | 0 | 0 |
| | Sir Benfro | 0 | 32 |
| Gogledd Cymru (GwE) | Wrecsam | 51 | 96 |
| | Sir Ddinbych | 25 | 89 |
| | Sir y Fflint | 21 | 10 |
| | Conwy | 7 | 84 |
| | Ynys Môn | 4 | 34 |
| | Gwynedd | 0 | 60 |
| De-ddwyrain Cymru (EAS) | Blaenau Gwent | 9 | 90 |
| | Caerffili | 0 | 75 |
| | Sir Fynwy | 0 | 0 |
| | Cyngor Dinas Casnewydd | 0 | 65 |
| | Torfaen | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Data ar HCBau a gedwir gan Lywodraeth Cymru

**Ffigur 4.1 HCBau fesul 1,000 o ddisgyblion 5 – 15 oed yn ôl ardal awdurdod lleol, 2014/15 a 2015/16**




*Ffynhonnell: Yn cynnwys data Llywodraeth Cymru. Map yn cynnwys data Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2014; yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2014. Crëwyd y map gan ddefnyddio meddalwedd ArcGIS® gan Esri. Mae ArcGIS® ac ArcMap™ yn eiddo deallusol Esri a chânt eu defnyddio yma dan drwydded. Hawlfraint © Esri. Cedwir pob hawl.*

4.15 Nid oedd data terfynol ar yr HCBau a gyflwynwyd yn 2016/17 ar gael adeg yr astudiaeth hon. Casglwyd data ar nifer yr HCBau a gyflwynwyd adeg y cyfweliadau ansoddol[26] (roedd hyn yn cynnwys HCBau a gyflwynwyd yn ystod dau dymor academaidd cyntaf 2016/17, mewn gwirionedd) mewn 18 awdurdod lleol[27]. Rydym wedi tybio y bydd nifer debyg o HCBau wedi'u cyflwyno yn ystod y tymor olaf, ac felly wedi allosod cyfanswm yr HCBau disgwyliedig ar gyfer 2016/17, fel y dangosir yn Nhabl 4.2. Disgwylir i nifer yr HCBau ostwng mewn naw ALl a chynyddu mewn chwech ALl. Disgwylir i nifer yr HCBau mewn ALlau â nifer fawr o HCBau (Caerdydd, Powys a Rhondda Cynon Taf [RCT]) ostwng yn sylweddol. Felly, disgwylir i nifer gyffredinol yr HCBau a gyflwynir yng Nghymru ostwng 40 y cant o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol.

[26] Darparodd Wrecsam ddata dros dro ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

[27] Roedd yr 18 awdurdod lleol yn cyfrif am 97 y cant o'r holl HCBau yn 2014/15, a 95 y cant yn 2015/16.

**Tabl 4.2 Nifer yr HCBau y disgwylir eu cyflwyno yn 2016/17, 18 Awdurdod Lleol**

| Awdurdod Lleol | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 (rhannol) | Disgwyliedig 2016/17 | Newid disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 9 | 90 | 27 | 40.5 | -49.5 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 17 | 23 | 2 | 3 | -20 |
| Caerffili | 0 | 75 | 78 | 117 | 42 |
| Caerdydd | 1,020 | 1,531 | 504 | 756 | -775 |
| Sir Gâr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 16 | 20 | 29 | 43.5 | 23.5 |
| Cyngor Gwynedd | 0 | 60 | 0 | 0 | -60 |
| Ynys Môn | 4 | 34 | 16 | 24 | -10 |
| Merthyr Tudful | 47 | 163 | 136 | 204 | 41 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 35 | 73 | 74 | 111 | 38 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 0 | 65 | 25 | 37.5 | -27.5 |
| Sir Benfro | 0 | 32 | 25 | 37.5 | 5.5 |
| Powys | 83 | 292 | 55 | 82.5 | -209.5 |
| Rhondda Cynon Taf | 682 | 1,063 | 325 | 487.5 | -575.5 |
| Abertawe | 157 | 391 | 206 | 309 | -82 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 51 | 96 | * | 110 | 14 |
| **18 Awdurdod Lleol** | **2,121** | **4,008** | **1,502** | **2,363** | **-1,645** |

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru ar HCBau, gwybodaeth a gasglwyd gan ICF/Arad gan Swyddogion ALlau (Data gan yr 18 ALl a gyflwynodd ragamcaniad i'r astudiaeth ymchwil hon)

4.16 Crybwyllodd sawl un o gyfweleion ALlau a phenaethiaid eu bod yn disgwyl cyflwyno llai o HCBau yn 2016/17 nag yn 2015/16 am y rhesymau canlynol:

- Roedd rhai ysgolion yn "frwdfrydig" ynghylch defnyddio HCBau yn ystod y ddwy flynedd gyntaf fel ffordd o anfon neges gref i gymuned ehangach yr ysgol ar absenoldebau anawdurdodedig. Ciliodd y brwdfrydedd hwn yn 2016/17, neu mae wedi dod yn ddiangen oherwydd bod absenoldebau anawdurdodedig wedi gostwng;
- Roedd rhai rhieni wedi "deall y neges" y cânt eu dirwyo a'u herlyn ar ôl y flwyddyn lawn gyntaf o fod ar waith. Maent yn sicrhau presenoldeb neu'n fwy gofalus o ran gofyn am ganiatâd i dynnu plentyn o'r ysgol ymlaen llaw;
- Mae llythyrau o rybudd yn fwy effeithiol nad oeddent yn ystod y flwyddyn gyntaf o fod ar waith, oherwydd mae rhieni'n gwybod y bydd ALlau yn mynd ati i gyflwyno'r HCB a'u herlyn;

- Mae rhieni'n fwy ymwybodol o sbardunau HCB ac yn cyfyngu ar nifer y sesiynau y mae eu plant yn eu colli yn ystod y cyfnod amser perthnasol. Er enghraifft, esboniodd penaethiaid ysgolion mewn ALlau, lle mae'r cod HCB lleol yn cynnwys sbardun yn ymwneud â chyfradd bresenoldeb gyffredinol plentyn mewn blwyddyn academaidd, fod rhai rhieni'n ffonio'n rheolaidd i holi ynghylch cyfradd bresenoldeb eu plentyn er mwyn sicrhau na fyddant mewn perygl o gael HCB os byddant yn mynd â'u plentyn ar absenoldeb anawdurdodedig (fel cymryd dydd Gwener i ffwrdd ar gyfer penwythnos hir);
- Mae'n bosibl bod llythyr y Gweinidog at benaethiaid wedi rhwystro ychydig o ysgolion rhag gwahardd awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor ysgol yn gyffredinol, ac wedi annog ysgolion i beidio â gofyn i ALlau gyflwyno HCBau yn ymwneud yn bennaf â gwyliau anawdurdodedig;
- Mae'n bosibl bod achos *Isle of Wight Council v Platt* wedi annog rhai ysgolion ac ALlau i beidio â chyflwyno HCBau nes i ddyfarniad gael ei wneud gan y Goruchaf Lys.

**Rhesymau a roddwyd dros gyflwyno HCB**

4.17 Darparodd naw ALl ddata am y rhesymau dros gyflwyno HCBau. Mae Tabl 4.3 yn dangos y cyflwynwyd y mwyafrif ohonynt ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig (gan gynnwys triwantiaeth) yn 2015/16. Nid yw sawl ALl yn gwahaniaethu rhwng y rhesymau yn y ffordd y maent yn prosesu data ar HCBau ac yn casglu gwybodaeth am absenoldebau (mae hwyrni, triwantiaeth a gwyliau i gyd yn cyfrif fel absenoldebau anawdurdodedig), ac felly nid oeddent yn gallu darparu data i'w ddadansoddi.

**Tabl 4.3 Rhesymau dros gyflwyno HCBau, % o HCBau 2015/16**

| Awdurdod Lleol | Nifer yr HCBau | Absenoldeb Anawdurdodedig | Hwyrni | Gwyliau |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 90 | 82% | 0% | 18% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 23 | 17% | 0% | 83% |
| Caerffili | 75 | 100% | 0% | 0% |
| Ceredigion | 20 | 100% | 0% | 0% |
| Merthyr Tudful | 161 | 52% | 24% | 24% |
| Powys | 272 | 44% | 0% | 56% |
| Rhondda Cynon Taf | 1,063 | 9% | 1% | 90% |
| Abertawe | 391 | 92% | 1% | 8% |
| Bro Morgannwg | 33 | 97% | 3% | 0% |

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan ALlau i ICF/Arad

4.18 Yn 2015/16, cyflwynodd rhai ALlau fwyafrif llethol yr HCBau ar gyfer gwyliau anawdurdodedig yn ystod y tymor ysgol. Mae hyn yn cynnwys 90 y cant o'r HCBau a gyflwynwyd yn Rhondda Cynon Taf, a gyflwynodd bron i chwarter yr holl HCBau yng Nghymru.

> '[Yn ein ALl] mae penaethiaid yn parhau i feddwl bod HCBau yno i'w cyflwyno i rieni sy'n mynd â'u plant allan o'r ysgol i fynd ar wyliau teuluol. Anfonais nodiadau atgoffa i benaethiaid y gallwn gyflwyno HCBau ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig yn gyffredinol... ond mae'r neges yn araf yn cyrraedd, felly mae'r ceisiadau rydym yn eu cael gan ysgolion ar gyfer gwyliau.' Swyddog Awdurdod Lleol

> 'Roeddem wedi cyflwyno ychydig ohonynt [HCBau] ar gyfer gwyliau anawdurdodedig pan wnaethon ni ddechrau [ym Medi 2015], ond ers datganiad Gweinidog Cymru yn Ionawr 2016, ychydig iawn sy'n cael eu cyflwyno am y rheswm hwn. Roedd yn gwneud yr Adran Gyfreithiol ac ynadon yn nerfus. Roedd gennym un ysgol a oedd yn gofyn am HCB ar gyfer disgybl a oedd wedi cael tair wythnos o wyliau anawdurdodedig, ond nid oedd tîm cyfreithiol yr ALl yn fodlon cytuno ag ef.' Swyddog Awdurdod Lleol

4.19 Mewn ALlau yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru, caiff HCBau ond eu cyflwyno pan fydd yr absenoldebau anawdurdodedig yn golygu bod y cyfanswm presenoldeb yn disgyn islaw 90 y cant. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na chaiff HCBau eu cyflwyno ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig oherwydd pythefnos o wyliau yn unig. Hefyd, rhaid i ddisgybl fod yn absennol o'r ysgol am resymau eraill (wedi'u hawdurdodi neu heb eu hawdurdodi) i fodloni gofynion y cod o fod ag absenoldeb sydd islaw 90 y cant.[28]

4.20 Cyflwynwyd ambell i HCB ar gyfer hwyrni cyson yn unig (fel y diffinnir yn y codau), er bod bron i chwarter yr HCBau a gyflwynwyd ym Merthyr Tudful yn 2015/16 ar gyfer hwyrni.


4.21 Mae llawer o ymatebwyr yr arolwg yn credu na chaiff HCBau byth eu cyflwyno ar gyfer rhai mathau o absenoldebau anawdurdodedig (yn amrywio o 22 y cant ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor ysgol i 41 y cant ar gyfer hwyrni cyson), fel y dangosir yn Ffigur 4.2. Esboniodd rhai penaethiaid nad ydynt yn pwysleisio ac

[28] Fel enghraifft, dywed Cod Ymddygiad Castell-nedd Port Talbot y gallai'r amgylchiadau ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb gynnwys "*colli o leiaf 10 sesiwn (pum niwrnod ysgol) heb ei awdurdodi oherwydd gwyliau yn ystod y tymor ac mae'r absenoldebau'n golygu bod presenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd at y dyddiad hwnnw (nid oes angen i'r absenoldebau hyn fod yn olynol)*" (tudalen 6). https://www.npt.gov.uk/media/5195/codeofconductfor_penalty_notices_nov_2014_cymraeg.pdf

felly'n cosbi hwyrni yn ormodol, oherwydd y byddai'n well ganddynt fod plentyn yn cyrraedd yr ysgol am hanner y sesiwn yn hytrach na cholli'r sesiwn gyfan.

'Na, nid ydym yn gofyn am HCBau ar gyfer hwyrni. Rydym am i ddisgyblion ddod i'r ysgol hyd yn oed os ydynt yn hwyr... Gwnaethom ganfod y byddai rhieni a disgyblion yn cael eu temtio i gymryd y diwrnod cyfan i ffwrdd o'r ysgol pe byddant yn hwyr yn rheolaidd, pe na fyddai cymryd diwrnod i ffwrdd yn croesi'r trothwy o ddeg absenoldeb anawdurdodedig.' Pennaeth, ysgol uwchradd

**Ffigur 4.2 Ar sail eich dealltwriaeth, yn nodweddiadol, dan ba rai o'r amgylchiadau canlynol y caiff HCBau eu cyflwyno**




Ffynhonnell: Dangosir nifer yr ymatebion (N) wrth ochr bob opsiwn, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017

4.22 Hefyd, ni chaiff HCBau eu cyflwyno gan yr heddlu nac o ganlyniad i ymgyrchoedd triwantiaeth. Yn y rhan fwyaf o ALlau, esboniodd cyfweleion nad oes gan yr heddlu yr adnoddau mwyach i gynnal ymgyrchoedd triwantiaeth, a bod llai o angen i wneud hynny gan nad yw pobl ifanc yn dueddol o ymgynnull mewn mannau cyhoeddus yn achosi niwsans. Fodd bynnag, yn yr ychydig achosion pan ddefnyddir ymgyrchoedd triwantiaeth, cânt eu cydlynu â'r gwasanaethau cymdeithasol ac EWS, ac maent yn canolbwyntio'n bennaf ar gartrefi teuluoedd. Ni chaiff HCBau eu hystyried yn arf priodol i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd tebyg – er y gellir eu cyflwyno i riant y mae

eu plant yn rhan o ymgyrchoedd triwantiaeth ar adegau gwahanol oherwydd absenoldebau anawdurdodedig rheolaidd.

**Esboniad o lefel yr HCBau a gyflwynwyd**

*Ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ysgolion ac ALlau*

4.23 Mae cyfweliadau â staff ALlau a thrafodaethau â phenaethiaid yn awgrymu y caiff penderfyniadau yn ymwneud â chroesawu HCBau yn fesur polisi presenoldeb eu gwneud ar lefel sefydliadol, yn aml.

4.24 Ar gyfer ysgolion, mae ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnyddio'r mesur yn cynnwys:

- **Perthynas â rhieni**. Mae llawer o ysgolion yn tybio bod HCBau yn debygol o gythruddo rhieni. Maent yn pryderu y caiff y berthynas rhwng rhieni a'r ysgol eu niweidio os caiff HCBau eu cyflwyno. Mae'r ffactor hwn yn arbennig o bwysig i lawer o ysgolion cynradd.

    'Rydym bob amser yn chwilio am gryfderau mewn teuluoedd... yn hytrach na defnyddio dull cosbol.' Pennaeth, ysgol gynradd sydd wedi gofyn am beidio â chyflwyno HCBau

    'Mae'n cymryd blynyddoedd o gymorth blaengar a dwys... mae'n well na chamau gweithredu ymatebol, cosbol.' Pennaeth, ysgol arbennig sydd wedi gofyn am beidio â chyflwyno HCBau

- **Lefelau presenoldeb ysgol cyffredinol.** Esboniodd penaethiaid os yw ysgol yn cyrraedd ei tharged presenoldeb (a gytunwyd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol â'r ALl) neu os nad yw presenoldeb wedi'i amlygu'n bryder mewn adroddiadau Estyn, mae ganddi lai o gymhelliant i weithredu ar absenoldebau anawdurdodedig a chyflwyno HCBau (yn enwedig o ystyried yr effaith bosibl ar y berthynas â rhieni a'r baich gweinyddol).

    'Mae presenoldeb yn broblem fawr i ni. Oherwydd nifer y disgyblion rydym yn eu derbyn a'n lleoliad, mae gennym bresenoldeb is na rhai ysgolion eraill... Felly, byddwn yn dweud bod gennym bolisi mwy llym na'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd yn ein hardal. Y llynedd, gwnaethom anfon 400 o lythyrau cyngor anffurfiol i rieni pan roedd presenoldeb yn beryglus o isel.' Pennaeth, ysgol gynradd

- **Baich gweinyddol.** Crybwyllodd ychydig o benaethiaid fod yr amser sydd ei angen i gasglu tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am HCBau yn rhoi baich sylweddol ar eu gweinyddwyr ac, mewn rhai achosion, ar yr athrawon. Soniodd rhai ohonynt

am ostyngiadau diweddar i'r adnoddau gweinyddol ac EWS sydd ar gael i'w hysgolion. Mae hyn wedi golygu ei bod yn anoddach darparu tystiolaeth bod yr ysgol wedi gwneud ymdrechion digonol i ymgysylltu â rhieni ynghylch materion presenoldeb erbyn hyn, fel dangos eu bod wedi ceisio cysylltu â rhieni trwy lythyr, dros y ffôn neu wyneb-yn-wyneb. Mae hyn wedi annog rhai ysgolion i beidio â symud ymlaen â cheisiadau am HCBau, hyd yn oed pan allai fod achos i wneud hynny.

> 'Erbyn hyn, mae gennym weinyddwr sy'n gweithio ar faterion presenoldeb ar sail amser llawn [yn gyffredinol yn hytrach na HCBau yn unig]. Nid ydym yn ysgol fawr; mae'n rhan sylweddol o'n cyllideb... [Ar gyfer HCBau] mae cymaint o waith papur i'w gasglu, gwneud yn siŵr fod pob llythyr a chyfarfod â rhieni yn cael eu cofnodi... Mae effeithiau ôl-ddilynol ar fy amser ac ar fy nirprwyon ac athrawon dosbarth. Yn y pen draw, rydyn ni i fod yn addysgu'r plant sy'n dod i'r ysgol ac rydym yn treulio cymaint o amser yn mynd ar drywydd y plant nad ydynt yn dod i'r ysgol. Mae'n rhwystredig.' Pennaeth, ysgol gynradd

- **Cydymffurfio â chymheiriaid.** Mae'n ymddangos bod ysgolion yn cael eu dylanwadu gan weithredoedd ysgolion eraill yn eu ALl neu eu clwstwr lleol. Er enghraifft, mewn un cylch trafod, mynegodd sawl cyfranogwr anghytundeb â'r polisi HCB a chwestiynu ei effeithiolrwydd, ond dywedasant eu bod i gyd yn gwneud ceisiadau ar gyfer HCBau yn eu hysgol oherwydd bod ysgolion eraill yn eu hardal yn gwneud hynny.

> 'Yn bersonol, nid wyf yn cytuno â HCBau a dirwyo rhieni, ond fe wnaeth bob un ohonom gytuno [fel grŵp o benaethiaid] mai dyna yw ein polisi. Pan fydd gan ddisgybl gymaint o absenoldebau anawdurdodedig, rydym yn dechrau'r weithdrefn ar gyfer HCBau […] Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod ni gyd yn cadw at yr un weithdrefn neu, fel arall, rydych chi'n cael rhieni sy'n dweud o, dydy ysgol hon a hon ddim yn gwneud hynny ac mae'n annheg...' Pennaeth, ysgol gynradd

4.25 Ar gyfer y rhan fwyaf o ysgolion, mae'n gyfuniad o'r ffactorau hyn a'u hamgyffrediad o effeithiolrwydd y mesur o ran gwneud gwahaniaeth i ymddygiad rhieni a phresenoldeb disgyblion.

4.26 Ar gyfer ALlau, ymddengys bod y ffactorau canlynol yn dylanwadu ar ba mor rhagweithiol y mae'r swyddogion arweiniol a rheolwyr eraill o ran annog ysgolion i ddefnyddio HCBau:

- **Barn gan dimau cyfreithiol.** Ymddengys y rhoddwyd cyfeiriad cryf i dimau cyfreithiol ynghylch p'un a ddylid cymeradwyo ceisiadau ar gyfer HCBau ai peidio mewn rhai ALlau. Ni fydd y rhan fwyaf o ALlau yn cyflwyno HCB oni bai eu bod yn credu y byddai'r dystiolaeth yn arwain at erlyniad llwyddiannus, er nad yw hyn bob amser yn wir. Ymddengys bod ychydig o ALlau yn fodlon anfon llythyr o rybudd neu HCB a dim ond cynnwys y tîm cyfreithiol os na chaiff yr HCB ei dalu (yna, caiff yr HCB ei dynnu'n ôl os yw'r tîm cyfreithiol yn penderfynu nad yw'n debygol o arwain at erlyniad llwyddiannus). Gall hyn fynnu ceisio rhagweld sut y bydd ynadon unigol yn dehongli'r arweiniad a'r dystiolaeth. Mae ychydig o ALlau yn llai trylwyr o ran gwirio'r dystiolaeth gychwynnol, sy'n golygu eu bod yn anfon mwy o lythyrau o rybudd a HCBau, ond hefyd yn tynnu nifer sylweddol ohonynt yn ôl neu'n peidio â mynd rhagddo ag erlyniadau.
- **Baich gweinyddol.** Mae baich casglu a chadw tystiolaeth i gyfiawnhau HCB yn peri pryder i sawl ALl. Mae un ALl mawr yn cyflogi pum cynorthwyydd gweinyddol i reoli nifer yr HCBau. Esboniodd un arall nad yw'n annog ysgolion yn weithredol i ddefnyddio HCBau oherwydd na fyddai'n gallu ymdopi'n weinyddol â mwy o geisiadau. Cynhaliodd un ALl asesiad gwerth am arian, a phenderfynodd roi'r gorau i gyflwyno HCBau oherwydd eu bod yn rhy ddrud i'w gweinyddu.

  'Mae'n faich anferth oherwydd, er bod gennyf rywun yn gwneud y gwaith gweinyddol i mi, dim ond rhan o'r hyn mae'n ei wneud ydy hynny... a phan dw i'n gwneud yr erlyniadau... ac mae gennyf wyth neu naw i'w gwneud yr wythnos hon... mae'n llawer o waith, a llawer o amser.' Swyddog Awdurdod Lleol

- **Amgyffrediad o effeithiolrwydd a thegwch.** Mae gan ychydig o swyddogion arweiniol ALlau farnau cryf o blaid neu yn erbyn HCBau fel mesur. Er enghraifft, mynegodd un cyfwelai siomedigaeth gref ynghylch llythyr y Gweinidog i ysgolion yn Ionawr 2016, a oedd yn amlygu y gall penaethiaid awdurdodi hyd at 10 diwrnod o wyliau, a chrybwyllodd yn arall fod yr ALl yn sensitif i broblemau sy'n cael eu hwynebu gan deuluoedd ag incwm isel, ac nad ydynt eisiau ychwanegu beichiau ariannol trwy gosb ariannol. Roedd cyfwelai arall yn teimlo'n gryf iawn bod dirwyo rhieni yn groes i ethos y gymuned addysg ac nad oedd unrhyw amgylchiadau lle y gellid cyfiawnhau dirwy, a bod yn well ganddynt ddefnyddio dulliau eraill i fynd i'r afael ag absenoldeb. Dywedodd rhai cyfweleion fod amgyffrediad ymhlith rhai aelodau o'r gymuned y caiff HCBau eu cyflwyno i godi incwm ar gyfer yr ALl, yn hytrach na bod yn arf dilys i wella presenoldeb.

> ‘Roedd rhaid bod yn ofalus i wneud yn siŵr nad oeddem yn bod yn rhy gosbol... ac roeddem yn gobeithio y byddai ysgolion yn defnyddio gwahanol fath o ymyrraeth, fel contractau presenoldeb rhwng y cartref a’r ysgol efallai, a gwneud y gwaith hwnnw gyda’r rhieni yn hytrach na dirwyon, mewn gwirionedd. Oherwydd bod lefel y ddyled yn y fwrdeistref yn uchel, mae diweithdra’n uchel, a’r cwbl y byddai’n ei wneud byddai ychwanegu at y baich i deuluoedd... ac mae hyn yn adlewyrchu beth fyddai penaethiaid yn ei ddweud wrthyf pan fyddwn yn trafod y rhesymau pam nad oedd presenoldeb yn cynyddu.’ Swyddog Awdurdod Lleol

*Perthynas ag absenoldebau anawdurdodedig*

4.27 Er i rai ymatebwyr ddweud bod rhywfaint o gysylltiad rhwng cyfraddau presenoldeb ysgolion defnyddio HCBau, nid oes unrhyw berthynas amlwg rhwng nifer yr HCBau a gyflwynwyd a lefelau absenoldebau anawdurdodedig ar lefel ALlau. Fodd bynnag, dim ond dwy flynedd o ddata a oedd ar gael ar absenoldebau i’w ystyried yn ystod yr ymchwil hon, nad yw’n caniatáu i ni amlygu unrhyw dueddiadau.


4.28 Mae Tabl 4.4 a Ffigur 4.3 yn crynhoi graddau’r absenoldebau anawdurdodedig a HCBau yn 2014/15 a 2015/16. Maent yn dangos bod rhai ALlau sydd â lefelau cymharol uchel o absenoldebau anawdurdodedig a lefelau uchel o HCBau (Caerdydd, Rhondda Cynon Taf), lefelau canolig (Abertawe, Ceredigion) a lefelau isel/dim (Gwynedd, Sir Fynwy), ond bod llawer lle nad oes unrhyw berthynas rhyngddynt, fel Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Caerffili a Thorfaen.

**Tabl 4.4 Absenoldebau anawdurdodedig a HCBau a gyflwynwyd fesul 1,000 o ddisgyblion**

| Awdurdod Lleol | 2014/15 | | 2015/16 | |
|---|---|---|---|---|
| | Canran yr absenoldebau anawdurdodedig | HCBau a gyflwynwyd fel 1,000 o ddisgyblion 5-15 oed | Canran yr absenoldebau anawdurdodedig | HCBau a gyflwynwyd fel 1,000 o ddisgyblion 5-15 oed |
| Blaenau Gwent | 1.3% | 1.0 | 1.2% | 9.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0.9% | 0.7 | 1.0% | 1.0 |
| Caerffili | 1.2% | 0.0 | 1.2% | 2.6 |
| Caerdydd | 2.1% | 19.2 | 1.9% | 28.5 |
| Sir Gâr | 0.8% | 0.0 | 0.8% | 0.0 |
| Ceredigion | 1.0% | 1.7 | 1.1% | 2.1 |
| Conwy | 1.0% | 0.4 | 1.0% | 5.3 |
| Sir Ddinbych | 1.0% | 1.6 | 1.3% | 5.7 |
| Sir y Fflint | 0.3% | 0.9 | 0.4% | 0.4 |
| Gwynedd | 0.4% | 0.0 | 0.3% | 3.5 |
| Ynys Môn | 0.8% | 0.4 | 0.8% | 3.5 |
| Merthyr Tudful | 1.1% | 5.4 | 1.4% | 18.6 |
| Sir Fynwy | 0.7% | 0.0 | 0.8% | 0.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1.1% | 1.7 | 1.3% | 3.5 |
| Sir Benfro | 1.1% | 0.0 | 1.1% | 1.8 |
| Powys | 0.7% | 4.5 | 0.7% | 16.2 |
| Rhondda Cynon Taf | 1.5% | 17.6 | 1.6% | 27.4 |
| Abertawe | 1.2% | 4.4 | 1.3% | 10.9 |
| Torfaen | 1.0% | 0.0 | 1.1% | 0.0 |
| Bro Morgannwg | 0.9% | 0.2 | 0.9% | 1.5 |
| Wrecsam | 0.8% | 2.6 | 0.9% | 4.9 |

Ffynhonnell: Data Presenoldeb Ysgolion Ystadegau Cymru, data ar HCBau a gedwir gan Lywodraeth Cymru, ICF

## Ffigur 4.3 Absenoldebau anawdurdodedig yn ôl ardal ALl, 2015/16





*Ffynonellau: Yn cynnwys data Llywodraeth Cymru ar absenoldebau anawdurdodedig a HCBau. Mae'r map yn cynnwys data Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2014; yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2014. Crëwyd y map gan ddefnyddio meddalwedd ArcGIS® gan Esri. Mae ArcGIS® ac ArcMap™ yn eiddo deallusol Esri a chânt eu defnyddio yma dan drwydded. Hawlfraint © Esri. Cedwir pob hawl*


*Perthynas ag absenoldebau awdurdodedig a chyffredinol*

4.29 Mynegodd ychydig o randdeiliaid y gallai cyflwyno HCBau, ynghyd â mwy o ffocws ar leihau absenoldebau anawdurdodedig, fod yn arwain at ganlyniadau anfwriadol trwy annog ysgolion i awdurdodi absenoldebau fel y byddai llai o bwysau arnynt (gan ALlau neu'n anuniongyrchol mewn adroddiad arolygu Estyn, er enghraifft) i ofyn am HCBau. Dywedodd ychydig o randdeiliaid hefyd y gallai mwy o bwyslais ar leihau absenoldebau cyffredinol fod wedi annog ysgolion i wrthod awdurdodi ceisiadau am absenoldebau (er enghraifft ar gyfer gwyliau teuluol, lle maent yn teimlo y bydd teuluoedd yn cydymffurfio â'r gwrthodiad ac yn peidio â thynnu'r plentyn o'r ysgol heb awdurdod) er mwyn cadw cyfraddau absenoldeb cyffredinol yn isel.

4.30 Serch hynny, mae'r data'n awgrymu, ar lefel ALIau a lefel ranbarthol, nad yw HCBau wedi cael unrhyw effaith ar lefel yr absenoldebau anawdurdodedig a'r absenoldebau cyffredinol. Mae Ffigur 4.4 yn dangos y rhain ar gyfer y pedwar rhanbarth a Chymru gyfan (canrannau'r sesiynau hanner diwrnod a gollwyd) rhwng 2011/12 a 2015/16. Mae absenoldebau cyffredinol ac absenoldeb awdurdodedig wedi gostwng yn gyson yn ystod y cyfnod hwn, a gwelwyd y gostyngiad mwyaf rhwng 2012/13 a 2013/14. Mae absenoldebau anawdurdodedig wedi gostwng ychydig mewn tri rhanbarth (a ledled Cymru), wrth iddynt gynyddu rhywfaint yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru. Mewn ALIau, mae absenoldebau awdurdodedig wedi gostwng ym mhob ALI rhwng 2011/12 a 2015/16. Mae absenoldebau anawdurdodedig wedi cynyddu dim ond ychydig mewn pedwar ALI (Ynys Môn, Sir Benfro, Sir Gâr, Merthyr Tudful).

**Ffigur 4.4 Absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig (canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd) fesul rhanbarth a Chymru, 2011/12 i 2015/16**




Ffynhonnell: Data Presenoldeb Ysgol Ystadegau Cymru, dadansoddiad ICF

4.31 Mae Tablau 4.5 a 4.6, sy’n dangos y rhesymau dros absenoldebau, yn dangos bod cyfran y diwrnodau a gollwyd oherwydd gwyliau teuluol a awdurdodwyd wedi gostwng dros bum mlynedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae’r sesiynau a gollir oherwydd salwch neu apwyntiadau meddygol (wedi’u hawdurdodi) wedi gostwng mewn ysgolion uwchradd hefyd. Fodd bynnag, mae’r diwrnodau a gollwyd oherwydd gwyliau teuluol heb eu hawdurdodi wedi cynyddu dros y cyfnod o bum mlynedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. O ystyried yr absenoldebau cyffredinol, fel y dangosir uchod, gellir gweld y gostyngiad mwyaf rhwng 2012/13 a 2013/14 h.y. cyn cyflwyno Rheoliadau HCB 2013. Felly, nid yw’r tueddiadau hyn yn awgrymu bod perthynas glir rhwng absenoldebau cyffredinol ac awdurdodedig a chyflwyno’r Rheoliadau HCB.

**Tabl 4.5 Canran y sesiynau a gollwyd gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ôl y rheswm dros yr absenoldeb**

| Math o absenoldeb | Cod | Rheswm dros yr absenoldeb | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdodedig | I | Salwch | 4.3 | 3.8 | 3.8 | 3.5 | 3.4 |
| | M | Apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol | 0.6 | 0.5 | 0.5 | 0.4 | 0.4 |
| | R | Absenoldeb crefyddol | - | - | - | - | - |
| | S | Cyfnod astudio | 0.1 | - | - | - | - |
| | T | Absenoldeb teithwyr | - | - | - | - | - |
| | H | Gwyliau teuluol y cytunwyd iddynt | 0.4 | 0.2 | .01 | 0.1 | 0.1 |
| | F | Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd iddynt | - | - | - | - | - |
| | E | Wedi'u gwahardd, ond heb drefnu darpariaeth arall | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| | C | Rheswm arall a awdurdodwyd (nad yw'n cael ei gwmpasu gan godau neu ddisgrifiadau eraill) | 0.5 | 0.4 | 0.4 | 0.4 | 0.4 |
| | | **Cyfanswm yr absenoldebau awdurdodedig** | **6.1** | **5.1** | **4.9** | **4.5** | **4.5** |
| Anawdurdodedig | G | Gwyliau teuluol (na chytunwyd iddynt neu fwy o sesiynau na'r hyn a gytunwyd) | 0.1 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 |
| | U | Hwyr (wedi cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau) | - | - | - | - | - |
| | O | Anawdurdodedig arall (nad yw'n cael ei gwmpasu gan godau neu ddisgrifiadau eraill) | 0.9 | 1.0 | 1.0 | 1.0 | 1.1 |
| | N | Ni roddwyd rheswm dros yr absenoldeb hyd yn hyn | 0.2 | 0.1 | - | - | - |
| | | **Cyfanswm yr absenoldebau anawdurdodedig** | **1.3** | **1.3** | **1.3** | **1.3** | **1.4** |
| **Cyffredinol** | | **Cyfanswm yr absenoldebau cyffredinol** | **7.4** | **6.4** | **6.1** | **5.8** | **5.9** |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru, Absenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd, 2016/17: http://gov.wales/docs/statistics/2017/170831-absenteeism-secondary-schools-2016-17-cy.pdf
[Cyhoeddwyd: 31 Awst 2017]

**Tabl 4.6 Canran y sesiynau a gollwyd gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a chanol, yn ôl y rheswm dros yr absenoldeb**


| Math o absenoldeb | Cod | Rheswm dros yr absenoldeb | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdodedig | I | Salwch | 3.2 | 3.6 | 3.0 | 3.1 | 3.0 |
| | M | Apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol | 0.6 | 0.4 | 0.3 | 0.3 | 0.3 |
| | R | Absenoldeb crefyddol | - | - | - | - | - |
| | S | Cyfnod astudio | - | - | - | - | - |
| | T | Absenoldeb teithwyr | - | - | - | - | - |
| | H | Gwyliau teuluol y cytunwyd iddynt | 1.2 | 1.1 | 0.6 | 0.4 | 0.5 |
| | F | Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd iddynt | - | - | - | - | - |
| | E | Wedi'u gwahardd, ond heb drefnu darpariaeth arall | - | - | - | - | - |
| | C | Rheswm arall a awdurdodwyd (nad yw'n cael ei gwmpasu gan godau neu ddisgrifiadau eraill) | 0.3 | 0.3 | 0.2 | 0.2 | 0.2 |
| | | **Cyfanswm yr absenoldebau awdurdodedig** | **5.4** | **5.5** | **4.2** | **4.0** | **4.0** |
| Anawdurdodedig | G | Gwyliau teuluol (na chytunwyd iddynt neu fwy o sesiynau na'r hyn a gytunwyd) | 0.1 | 0.2 | 0.4 | 0.5 | 0.5 |
| | U | Hwyr (wedi cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau) | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| | O | Anawdurdodedig arall (nad yw'n cael ei gwmpasu gan godau neu ddisgrifiadau eraill) | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.4 | 0.5 |
| | N | Ni roddwyd rheswm dros yr absenoldeb hyd yn hyn | 0.1 | 0.1 | - | - | - |
| | | **Cyfanswm yr absenoldebau anawdurdodedig** | **0.8** | **0.9** | **1.0** | **1.0** | **1.1** |
| **Cyffredinol** | | **Cyfanswm yr absenoldebau cyffredinol** | **6.1** | **6.3** | **5.2** | **5.0** | **5.1** |

Ffynhonnell: Absenoldeb o ysgolion cynradd, 2015/16: http://gov.wales/docs/statistics/2016/161215-absenteeism-primary-schools-2015-16-cy.pdf [Cyhoeddwyd: 15 Rhagfyr 2016]

4.32 Nid yw archwilio data ar lefel ALlau (nad yw'n cael ei ddangos) yn awgrymu y bu'r gostyngiad mewn absenoldebau cyffredinol dros y pum mlynedd diwethaf o ganlyniad i symudiad pwrpasol i awdurdodi absenoldebau na fyddai wedi cael eu hawdurdodi'n flaenorol. Fodd bynnag, mae'r data ar lefel ALlau ar absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn awgrymu bod gan ardaloedd ALlau ddulliau gwahanol iawn o benderfynu'r hyn sy'n gyfystyr ag absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig. Gallai hyn esbonio rhai o'r gwahaniaethau sylweddol sydd i'w gweld yn Ffigurau 4.5 a 4.6 isod. Er enghraifft:


- Mae cyfrannau gwahanol iawn o absenoldebau awdurdodedig/anawdurdodedig ymhlith ALlau. Yng Ngwynedd, mae absenoldebau anawdurdodedig yn cyfrif am 6 y cant yn unig o'r holl absenoldebau. Mewn 10 ALl, maent yn cyfrif am dros 20 y cant o'r holl absenoldebau, ac yn cyfrif am tua thraean o'r holl absenoldebau yng Nghaerdydd a Chasnewydd;
- Nid yw'n ymddangos bod perthynas rhwng lefelau uchel o absenoldebau anawdurdodedig a lefelau uchel o absenoldebau awdurdodedig. Mae gan rai ALlau lefelau cymharol isel o absenoldebau anawdurdodedig a lefelau uchel o absenoldebau awdurdodedig (fel Sir y Fflint a Thorfaen). Mae gan eraill lefelau uchel o absenoldebau anawdurdodedig a lefelau isel o absenoldebau awdurdodedig (fel Caerdydd, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf).

**Ffigur 4.5 Cyfanswm yr absenoldebau a chyfran yr absenoldebau anawdurdodedig ac awdurdodedig o'r holl absenoldebau fesul ALl yn 2015/16**




Ffynhonnell: Data Presenoldeb Ysgol Ystadegau Cymru, dadansoddiad ICF

**Ffigur 4.6 Graff gwasgariad o ganran yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig ym mhob awdurdod lleol, 2015/16**





Ffynhonnell: Data Presenoldeb Ysgol Ystadegau Cymru, dadansoddiad ICF

*A yw'r Cod HCBau yn dylanwadu ar nifer a natur yr HCBau a gyflwynwyd*

4.33 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg (81 y cant) yn cytuno bod yr HCBau y gyflwynwyd yn bodloni'r gofynion ac yn dilyn y gweithdrefnau a bennir yng nghodau ALlau, fel y dangosir yn Ffigur 4.7. Yn gyffredinol, rhannwyd y farn hon gan y cyfweleion.

**Ffigur 4.7 Yn gyffredinol, mae'r HCBau a gyflwynwyr yn bodloni'r gofynion ac yn dilyn a gweithdrefnau a bennir yng nghod yr ALI**





178 o ymatebion, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017

4.34 Esboniodd swyddogion ALlau nad oedd geiriad y codau yn cyfleu nac yn esbonio i ba raddau y defnyddir disgresiwn wrth benderfynu p'un a ddylid cyflwyno HCB ai peidio, o reidrwydd - er efallai y gellid disgwyl hyn mewn dogfen â natur swyddogol a chyfreithiol, pan fydd yn ôl disgresiwn penaethiaid a staff yr ALI. Roedd dau draean (65 y cant) o holl ymatebwyr yr arolwg yn cytuno bod cod yr ALI yn darparu hyblygrwydd addas i ystyried amgylchiadau teuluol ac amgylchiadau eraill. Mae cytundeb yn uwch ymhlith ymatebwyr o ysgolion uwchradd (80 y cant) nag ysgolion cynradd (61 y cant), fel y dangosir yn Ffigur 4.8.

> '[Efallai y dylem ddiwygio ein cod i adlewyrchu'r hyn rydyn yn ei wneud yn [enw'r ALI] yn well wrth i ni gyflwyno'r HCB, oherwydd mae cod yn gwneud iddo ymddangos fel ein bod yn eu cyflwyno ynghynt o lawer nag ydym yn ymarferol.'
> Swyddog Awdurdod Lleol

**Ffigur 4.8 Mae cod yr ALl yn darparu hyblygrwydd addas i ystyried amgylchiadau teuluol ac amgylchiadau perthnasol eraill**




144 o ymatebion gan ysgolion cynradd; 59 o ymatebion gan ysgolion uwchradd, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017

4.35 Nid yw'r cyfweleion wedi nodi y caiff HCBau eu cyflwyno am resymau nad ydynt wedi'u datgan yng nghodau'r ALlau nac unrhyw achosion pan na ddilynwyd y gweithdrefnau a bennir yn y codau.

**Talu**

4.36 Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, talwyd 71 y cant o'r HCBau na chawsant eu tynnu'n ôl cyn pen 42 diwrnod, fel y gwelir yn Nhabl 4.7. Cynyddodd cyfran yr HCBau a dalwyd cyn pen 28 diwrnod rywfaint (2 bwynt canran), ond ni ellir ystyried bod hyn yn sylweddol.

**Tabl 4.7 Nifer yr HCBau wedi'u talu a heb eu talu. 2014/15 a 2015/16, Cymru**

| | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---:|---:|
| HCBau a gyflwynwyd | 2,178 | 4224 |
| *O'r rheiny* | | |
| HCBau a dynnwyd yn ôl | 362 (17%) | 1,007 (24%) |
| Nifer yr HCBau a oedd yn weddill | 1,816 (83%) | 3,217 (76%) |
| *O'r rheiny:* | | |
| Talwyd cyn pen 28 diwrnod | 1,132 (62%) | 2,069 (64%) |
| Talwyd rhwng 29 a 42 diwrnod | 170 (9%) | 238 (7%) |
| Heb eu talu ar ôl 42 diwrnod | 530 (29%) | 932 (29%) |
| *O'r rheiny:* | | |
| Cyfanswm yr erlyniadau o ganlyniad i beidio â thalu | 380 (71%) | 583 (63%) |

Ffynhonnell: Data ar HCBau a gedwir gan Lywodraeth Cymru

4.37 Cynigiodd y cyfweleion nifer o resymau pam y caiff llawer o ddirwyon eu talu'n brydlon. Mae rhai rhieni'n disgwyl y ddirwy. Byddant hefyd wedi derbyn llythyr o rybudd. Mae'r cyfnod a ganiateir ar gyfer talu yn galluogi'r rhan fwyaf o rieni i wneud trefniadau i'w thalu. Soniodd ychydig ohonynt am resymau ymarferol pam nad yw rhieni'n talu dirwyon, fel colli'r llythyr o rybudd, anawsterau o ran rhyngweithio â systemau talu'r cyngor, a rhieni (y rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, yn aml) yn methu deall cynnwys y llythyr.

4.38 Rhannodd cyfweleion storïau am drefnwyr teithiau yn talu dirwyon hefyd (a hysbysebwyd ymlaen llaw yn rhan o'r pecyn gwyliau) neu am weithwyr cymdeithasol yn talu dirwyon i deuluoedd y maent yn eu cefnogi er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar les y teulu.

4.39 I'r gwrthwyneb, dyfalodd rhai ohonynt nad oedd rhieni yn talu'r dirwyon oherwydd nad oeddent yn credu y byddai'r ALl yn mynd rhagddo â'r erlyniad neu, pe byddai'n mynd rhagddo â'r erlyniad, y byddai'r Llys Ynadon yn dyfarnu o'u plaid. Roedd ychydig o gyfweleion yn teimlo bod achos *Isle of Wight Council v Platt* (o leiaf tan benderfyniad y Goruchaf Lys o blaid Cyngor Ynys Wyth yn Ebrill 2017) a llythyr y Gweinidog yn Ionawr 2016 yn annog rhieni i beidio â thalu.

**Casgliadau**

- Cyflwynwyd HCBau yn raddol gan y rhan fwyaf o ALlau yn ystod blwyddyn academaidd 2014/15; rhoddodd rai ALlau arweiniad a hyfforddiant, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r rheoliad newydd;
- Mae cyfweleion yn crybwyll y caiff ceisiadau ar gyfer HCBau eu gwneud gan benaethiaid ysgolion i'r ALl, a bod penaethiaid yn arfer eu disgresiwn wrth wneud y penderfyniad hwn trwy ystyried ffactorau eraill pan fydd disgyblion yn cyrraedd trothwyon a sbardunau a nodir yng nghodau'r ALlau;
- Swyddogion ALlau sy'n gwneud y penderfyniad ac yn ystyried y dystiolaeth yn erbyn y cod lleol, a chaiff rhai ohonynt eu gwrthod. Credai ymatebwyr yr arolwg a chyfweleion y caiff y codau eu defnyddio i wneud penderfyniadau a darparu disgresiwn wrth wneud y penderfyniad hwnnw;
- Mae pob un ond tri ALl wedi cyflwyno HCBau; yn 2015/16 roedd y niferoedd yn amrywio'n sylweddol, gyda dau ALl yn cyflwyno dros fil ohonynt a dau arall dros 250, tra cyhoeddodd naw ALl lai na 50. Mewn ALlau lle caiff y rhesymau dros gyflwyno HCBau eu cofnodi, caiff y rhan fwyaf o'r HCBau eu cyflwyno ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig cyffredinol, fel y diffinnir yng nghodau'r ALlau

(gan gynnwys triwantiaeth), a chaiff llai o HCBau eu cyflwyno ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig oherwydd gwyliau neu hwyrni;

- Disgwylir i nifer yr HCBau a gyflwynir ddisgyn yn 2016/17 o gymharu â 2015/16m o bosibl oherwydd mwy o ofal ac effeithiolrwydd cychwynnol o ran gostwng absenoldebau anawdurdodedig;
- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth ymatebwyr yr arolwg o'r hyn y mae cod yr ALl yn manylu arno i sbarduno HCB, a phwy sy'n penderfynu, yn amrywio. Gallai hyn awgrymu nad yw'r codau'n glir neu nad ydynt yn cael eu deall yn dda;
- Mae ymatebwyr yr arolwg a chyfweleion yn crybwyll bod arfer mewn ysgolion yn amrywio o ran p'un a chaiff HCBau eu hystyried a pha absenoldebau anawdurdodedig sy'n arwain at eu hystyried. Gallai hyn esbonio'r graddau na chânt eu defnyddio a'r gwahanol lefelau o ddefnydd ymhlith ysgolion;
- Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd ysgolion o HCBau yn cynnwys arferion yr ysgol ar y berthynas â rhieni, y baich gweinyddol tybiedig ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt, y lefel gyffredinol o absenoldeb a phwysau gan gymheiriaid mewn ysgolion eraill;
- Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ba mor rhagweithiol y mae ALlau o ran herio ysgolion i ddefnyddio'r mesur i wella presenoldeb a lleihau absenoldebau anawdurdodedig yn cynnwys amgyffrediad swyddogion o effeithiolrwydd y mesur, y baich gweinyddol ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt, a barn y tîm cyfreithiol ar ansawdd y dystiolaeth sydd ei hangen;
- Nid oes unrhyw berthynas amlwg rhwng yr HCBau a gyflwynwyd a lefel yr absenoldebau anawdurdodedig ar lefel ALlau y gellid fod wedi'i disgwyl gan ei fod yn fesur i leihau hyn, er bod defnydd ambell i ALl ohonynt yn adlewyrchu lefelau eu habsenoldebau anawdurdodedig;
- Nid oes unrhyw dystiolaeth o berthynas rhwng lefelau cyfnewidiol yr absenoldebau awdurdodedig, anawdurdodedig a chyffredinol a HCBau, ond mae lefelau perthynol bob un ohonynt yn awgrymu eu bod yn cael eu dehongli'n wahanol er bod codau ALlau yn debyg;
- Caiff y rhan fwyaf o HCBau (71 y cant) eu talu cyn pen 42 diwrnod.

## 5. Cydosod y cod â pholisïau ac arferion eraill a'i effeithiolrwydd

5.1 Mae'r bennod hon yn darparu tystiolaeth ar gyfer ystyried y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Ymchwilio i sut mae penaethiaid yn dehongli ac yn defnyddio codau ALlau wrth ystyried HCBau
  - Pa fath o drefniadau monitro sydd ar gael i olrhain HCBau? A ydynt yn addas i'r diben?
  - A yw cod yr ALl yn alinio â pholisi'r ysgol? A yw ysgolion yn ystyried ceisiadau am absenoldeb gan rieni fesul achos?
  - A yw rhanddeiliaid yn credu bod HCBau yn cyfrannu at bresenoldeb gwell? Os ydynt, pam felly? Os nad ydynt, pam felly?
  - Pa elfennau o'r cod sy'n galluogi/llesteirio hyn?

**Monitro prosesau ac olrhain deilliannau**

5.2 Mae ALlau yn cadw cofnodion ar HCBau, y maent yn eu defnyddio i ddarparu data blynyddol penodedig i Lywodraeth Cymru. Felly, mae pob ALl yn casglu data ar nifer yr HCBau a gyflwynwyd, y nifer a dalwyd ac ni thalwyd, nifer yr HCBau a dynnwyd yn ôl a'r rhesymau am hynny, a nifer yr erlyniadau.


5.3 Mae'r rhan fwyaf o ALlau yn defnyddio system rheoli llwyth achosion/llwyth gwaith, ac felly'n casglu gwybodaeth am lythyrau o rybudd ac yn cofnodi dyddiadau cyflwyno HCBau a thalu dirwyon hefyd. Mae taenlenni monitro hefyd yn cofnodi gwybodaeth am y disgybl, ymgysylltu â rhieni, a chamau gweithredu EWS a'r ysgol yn ymwneud â gwella presenoldeb. Mewn rhai ALlau, mae'r cofnodion hyn hefyd yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd i ategu'r HCB a gyflwynwyd neu, os yw'n berthnasol, yr erlyniad. Nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw enghreifftiau o ddadansoddiadau manwl pellach o'r data hwn.

5.4 Mae ALlau wedi darparu adroddiadau blynyddol neu chwe-misol i Gyfarwyddwyr Addysg eu ALlau unigol (neu'r unigolyn priodol a nodir yn eu codau) sydd, yn gyffredinol, yn cynnwys y wybodaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru.

5.5 Mae ALlau hefyd yn cyfathrebu ag ysgolion yn gyson, ond yn aml ar sail *ad hoc*. Mae hyn yn cynnwys darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am brosesau HCB a thrafod HCBau yn rhan o gamau gweithredu ehangach i fynd i'r afael â phresenoldeb, lles a gwella ysgolion. Fel y gwelir yn Ffigur 5.1, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn fodlon â'r cyfathrebiad ag ALlau ynghylch HCBau. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r ymatebwyr o ysgolion cynradd (42 y cant) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod

yr ALl yn cyfathrebu'n effeithiol, sy'n sylweddol uwch na chyfran yr ymatebwyr o ysgolion uwchradd (30 y cant).

**Ffigur 5.1 Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfathrebu'n effeithiol â mi ynghylch sut y gellir defnyddio HCBau neu sut y cânt eu defnyddio**




124 o ymatebion gan ysgolion cynradd; 47 o ymatebion gan ysgolion uwchradd, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017

5.6 Mae rhai ALlau wedi cynnal ymarferion olrhain ar raddfa fach (neu roeddent yn eu cynnal adeg yr ymchwil), lle maent yn ceisio monitro unrhyw welliannau o ran presenoldeb. Ymddengys bod y rhain yn ymateb i geisiadau gan gynghorwyr etholedig / pwyllgorau craffu.

5.7 Lle'r oedd canlyniadau ar gael, mae'r ymarferion hyn wedi tynnu sylw at welliannau mewn presenoldeb yn ystod y cyfnod olrhain mewn rhai achosion. Mewn eraill, roeddent yn amhendant. Nododd cyfweleion ALlau nad oedd ganddynt yr adnoddau i olrhain er mwyn gwerthuso'r polisi HCB yn ymarferol, gan gynnwys ymgymryd â gwaith i amlygu p'un a ellid priodoli unrhyw welliannau mewn presenoldeb i HCBau neu ffactorau eraill.

5.8 Yn gyffredinol, mae ysgolion yn yr astudiaeth yn casglu gwybodaeth am HCBau fel rhan o gadw cofnodion presenoldeb. Nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw enghreifftiau o ysgolion yn dadansoddi data presenoldeb yn systematig i ddangos p'un a yw HCBau wedi arwain at welliannau mewn presenoldeb ai peidio.


**Alinio â pholisi ysgolion**

5.9 Mae Ffigur 5.2 yn dangos bod 76 y cant o ymatebwyr yr arolwg o ysgolion cynradd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod cod yr ALl wedi'i gydosod yn gryf â pholisïau mewnol eu hysgolion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y bydd ysgol yn ystyried cyflwyno HCB hyd yn oed pan fodlonir y sbardunau ar gyfer gwneud hynny. Yn ein cylchoedd trafod â phenaethiaid, roedd rhai cyfranogwyr yn cytuno

bod eu hysgolion wedi cynnwys HCBau mewn polisïau presenoldeb, ond roeddent yn glir nad oedd ganddynt unrhyw fwriad o wneud cais am HCB oherwydd nad oeddent yn teimlo bod cosbau'n cyd-fynd ag ethos eu hysgolion a'r berthynas yr oeddent ei heisiau rhwng yr ysgol a rhieni. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion cynradd.

'Edrychom yn fanwl ar Hysbysiadau Cosb Benodedig a gwnaeth ein corff llywodraethol eu trafod yn fanwl. Maent yn rhan o'n polisi presenoldeb, ond nid ydym wedi'u defnyddio erioed… ' Dirprwy bennaeth, ysgol gynradd

**Ffigur 5.2 Mae cod yr ALI wedi'i gydosod â pholisïau mewnol ein hysgol**




135 o ymatebion gan ysgolion cynradd; 57 o ymatebion gan ysgolion uwchradd, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017


5.10 Crybwyllodd yr holl staff ysgol a gymerodd ran yn nhrafodaethau'r astudiaeth achos nifer o arferion a ddefnyddir i wella presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi gwybod i rieni am bwysigrwydd mynychu'r ysgol a pheidio â cholli sesiynau, a chodi ymwybyddiaeth ar ddechrau'r flwyddyn ysgol a phob tymor ysgol, gan gynnwys cyhoeddusrwydd mewn allfeydd newyddion lleol, yn ogystal ag hyrwyddo a gwobrwyo presenoldeb da trwy wobrau a dathliadau. I blant â lefelau uchel o absenoldebau anawdurdodedig, soniodd nifer o benaethiaid am bwysigrwydd cydweithio'n agos ag EWS a gwasanaethau eraill trwy gyfarfodydd y Tîm o Amgylch y Teulu i roi ymyriadau ar waith a fyddai'n helpu i wella presenoldeb.

'Maent [EWS] yn darparu cymorth dwys iawn i ddelio â sefyllfaoedd argyfyngus – dyma sy'n gweithio orau. Os nad yw hyn yn gweithio, beth fyddai Hysbysiad Cosb Benodedig yn ei gyflawni?' Dirprwy bennaeth, ysgol gynradd

'Mae defnyddio EWS yn fwy buddiol o lawer ar gyfer y math o gleientiaid sydd gennym ni.' Rheolwr Cymorth Ymddygiad, Uned Cyfeirio Disgyblion

5.11 Roedd cyfranogwyr o ysgolion yn y trafodaethau i gyd yn cytuno eu bod wedi ystyried HCBau yn rhan o'u polisi presenoldeb, er ei bod yn glir bod rhai ysgolion wedi ystyried yr opsiwn ar wedi penderfynu nad oeddent am wneud ceisiadau ar gyfer HCBau. Yn yr arolwg, roedd mwy nag wyth o bob deg o ymatebwyr yr arolwg (81 y cant) yn cytuno eu bod wedi ystyried defnyddio HCBau yn rhan o bolisi ac arfer i wella presenoldeb (Ffigur 5.3). Roedd mwy o ysgolion uwchradd (39 y cant) yn cytuno'n gryf eu bod wedi gwneud hynny, o gymharu ag ysgolion cynradd (22 y cant).

**Ffigur 5.3 Mae ein hysgol wedi ystyried defnyddio HCBau yn rhan o'r broses o adolygu a monitro polisi ac arfer i wella presenoldeb**





116 o ymatebion gan ysgolion cynradd; 46 o ymatebion gan ysgolion uwchradd, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017

5.12 Ymddengys bod ysgolion yn ystyried ceisiadau rhieni am absenoldeb fesul achos. Roedd llawer o gyfweleion ALlau yn credu, hyd at 2016, bod ychydig o ysgolion yn gwrthod awdurdodi absenoldeb ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Darparodd Datganiad y Gweinidog yn Ionawr 2016 eglurhad i ALlau ac ysgolion ar y mater hwn, ac maent yn credu bod y gwaharddiadau cyffredinol hyn wedi dod i ben.

**Effeithiolrwydd HCBau fel arf i wella presenoldeb**

5.13 Mynegodd rhanddeiliaid safbwyntiau cymysg ynghylch p'un a yw HCBau yn cyfrannu at bresenoldeb gwell. Yn ein harolwg, roedd 56 y cant o'r holl ymatebwyr yn cytuno bod HCBau yn arf effeithiol i wella presenoldeb, a 37 y cant yn unig oedd yn anghytuno. Wrth ystyried ymatebwyr ysgolion yn unig, roedd mwy o ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn cytuno'n gryf (23 y cant) o gymharu ag ymatebwyr o ysgolion cynradd (13 y cant), fel y dangosir yn Ffigur 5.4.

**Ffigur 5.4 Mae HCBau yn ffordd effeithiol o atal absenoldebau anawdurdodedig**




124 o ymatebion gan ysgolion; 47 o ymatebion gan ALlau, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017

5.14 Mae rhai rhanddeiliaid, a oedd yn amheugar i ddechrau ynghylch defnyddio HCBau, wedi newid eu meddwl o ganlyniad i bresenoldeb gwell ar ôl cael rhybudd o gyflwyno HCB.

> 'Roedd ysgolion yn teimlo'n rhwystredig iawn oherwydd y diffyg eglurder pan wnaethom ei roi ar waith, a sut y byddai'n ffitio... ond mae presenoldeb plant wedi gwella. Rwy'n credu eu bod nhw'n meddwl y byddai'n wastraff amser i ddechrau.' Swyddog Awdurdod Lleol

5.15 Roedd llawer o gyfweleion yn teimlo bod llythyrau o rybudd wedi cael effaith ar ostwng absenoldebau anawdurdodedig. Mewn rhai achosion, mae swyddogion ALlau ac ysgolion yn crybwyll bod llythyrau o rybudd yn cael effaith gref a ddigonol i arwain at newidiadau cadarnhaol i ymddygiad (o leiaf rhai) rhieni. Er enghraifft, dadansoddodd un ALl ddata ar 326 o blant y cyflwynwyd llythyrau o rybudd am

HCB i'w rhieni, a chanfod bod presenoldeb wedi gwella mewn 87 y cant o'r achosion hyn, i'r graddau nad oedd angen cyflwyno HCB.

> 'Mae'r cyfnod rhybudd wedi gwneud argraff ddymunol, ac mae ysgolion yn dod i arfer â'r system.' Swyddog Awdurdod Lleol

5.16 Mae llawer o randdeiliaid yn credu y bu dirwyon ac erlyniadau yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o roi HCBau ar waith yn fygythiad digon cryf i annog (o leiaf rhai) rhieni i gymryd camau i ostwng absenoldebau anawdurdodedig. Mae hyn yn awgrymu y gallai cyflwyno rheoliadau HCB ynddo'i hun fod yn atal absenoldebau anawdurdodedig rheolaidd gan rai disgyblion a rhieni.

> 'Erbyn hyn, mae'r llythyr o rybudd yn rhoi pwniad i rieni... Mae bygythiad camau gweithredu yn effeithiol iawn.' Swyddog EWS

5.17 Mae sawl cyfwelai yn credu bod HCBau yn effeithiol o ran newid ymddygiad rhai rhieni, ond nid pob un ohonynt (yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru ar wella presenoldeb a grynhoir yn adrannau 2.18 a 2.19 uchod). Esboniodd y cyfweleion hyn, i rai teuluoedd sy'n cael profiad o amrywiaeth o broblemau a heriau hirdymor, nid yw bygwth dirwy neu gosb arall ar ei phen ei hun yn eu hannog i gymryd camau i ostwng absenoldeb anawdurdodedig. Dywedasant hefyd y gallai camau gweithredu eraill i wella presenoldeb fod yn fwy priodol neu effeithiol yn yr achosion hyn. Mynegodd rhai ohonynt bryderon ynghylch rhieni'n tynnu eu plant o'r ysgol i'w haddysgu gartref o ganlyniad i HCB (neu fygythiad HCB) a oedd (yn eu barn nhw) yn arwain at blant sydd angen y mwyaf o gymorth yn cael eu tynnu o amgylcheddau cefnogol. Nid yw'r dystiolaeth yn awgrymu y caiff yr effaith hon ei hadrodd ar gyfer llawer o ddisgyblion; ond mae pryder o hyd y gallai fod wedi effeithiol ar rai o'r plant mwyaf agored i niwed.

> 'Mae'n bosibl eu bod [HCBau] yn cael rhai effeithiau byrdymor ar bresenoldeb, ac yn arf ataliol ar draws yr ysgol, ond nid yw'n ymddangos eu bod yn cael effaith fawr ar bresenoldeb disgyblion o'r teuluoedd sy'n eu derbyn.' Pennaeth, ysgol gynradd

> 'Prif bwynt yr Hysbysiad Cosb Benodedig yw bod angen iddo gael ei gyflwyno er mwyn iddo arwain at newid, ond mae gennym ymddygiad mor ddiysgog mewn rhai achosion, nid yw'n arwain at newid.' Swyddog Awdurdod Lleol

5.18 Soniodd ychydig o gyfranogwyr yn y cylchoedd trafod am achosion o rieni yn newid eu hymddygiad er mwyn sicrhau nad oedd eu plant yn cyrraedd y trothwyon HCB. Er enghraifft, rhieni sy'n dewis mynd ar wyliau ddwywaith yn hytrach na theirgwaith yn ystod y tymor dros flwyddyn academaidd, neu rieni a oedd yn crybwyll bod eu plentyn yn sâl yn hytrach na gofyn am awdurdodiad ar gyfer gwyliau lle y byddai'n golygu na fyddai'r presenoldeb cyffredinol yn disgyn islaw 90 y cant.

> 'Gall rhieni dwyllo'r system gan ei bod ond yn ystyried yr absenoldebau anawdurdodedig mewn tymor – felly, mewn gwirionedd, gallent gymryd hyd at 4 diwrnod bob tymor.' Sylw o'r arolwg

5.19 Dywedodd sawl un o'r cyfweleion ac ymatebwyr yr arolwg fod lefel y ddirwy (£60 neu £120) yn rhy isel i annog newid o ran ymddygiad. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn achosion o absenoldebau anawdurdodedig ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor ysgol, pan roeddent yn credu y byddai'n well gan deuluoedd dalu dirwy o £60 o gymharu â phris gwyliau yn ystod gwyliau'r ysgol (a allai fod cannoedd o bunnoedd yn fwy na'r ddirwy).

> 'Yn yr ardal ddifreintiedig hon, ni all lawer o deuluoedd fforddio cost gwyliau y tu allan i'r tymor ysgol. Os gallant, maent yn cynnwys cost yr HCB yn rhan o gost y gwyliau (sy'n golygu nad yw'r HCB yn cael unrhyw effaith).' Sylw o'r arolwg

**Casgliadau**

- Mae'r holl ALlau yn casglu'r data ar HCBau sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru ac nid ydynt yn cynnal unrhyw ddadansoddiad arall o'u data manwl na'r cysylltiadau rhwng data presenoldeb ysgolion a HCBau;
- Ni chynhaliwyd llawer o ddadansoddiadau o ddata presenoldeb ar gyfer disgyblion unigol sydd wedi cael HCB er mwyn monitro effaith HCBau ar ddisgyblion unigol;
- Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg yn credu bod codau ALlau yn gydnaws â pholisïau eu hysgolion ar bresenoldeb ac wedi ystyried defnyddio HCBau. Fodd bynnag, mae cyfweleion yn nodi nad oedd hyn yn golygu y caiff HCBau eu hystyried fel mater o drefn pan fydd lefelau presenoldeb disgyblion yn cyrraedd sbardunau a throthwyon. Mewn rhai ysgolion, mae dealltwriaeth ddistaw na chaiff HCBau eu defnyddio na'u hystyried yn opsiwn;

- Mae’r holl gyfweleion yn cydnabod bod HCBau yn un o’r mesurau amrywiol y gellir eu defnyddio i annog presenoldeb da, ac nad ydynt yn briodol ar gyfer rhai teuluoedd a disgyblion unigol;
- Mae safbwyntiau cymysg ymhlith ymatebwyr yr arolwg ynghylch effeithiolrwydd HCBau, ac mae 56 y cant yn credu eu bod yn effeithiol, ond 37 y cant yn credu nad ydynt yn effeithiol. Mae rhai cyfweleion wedi newid eu meddwl ynghylch eu heffeithiolrwydd ac mae llawer ohonynt yn credu bod y llythyr o rybudd yn arf ataliol effeithiol;
- Crybwyllwyd rhai canlyniadau anfwriadol gan gyfweleion wrth i rieni ddod i ddeall y sbardunau a’r trothwyon presenoldeb yng nghodau ALlau, ac mae’r dirwyon, pan gânt eu talu’n brydlon, yn sylweddol llai na’r arbedion wrth gymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol.

# 6. Opsiynau Polisi yn y Dyfodol


6.1 Mae'r bennod hon yn darparu tystiolaeth tuag at ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Ystyried a oes angen cod ymddygiad cenedlaethol a beth mae rhanddeiliaid yn teimlo fyddai'n briodol
  - A yw'n briodol cadw codau ALlau?
  - A fyddai'n ddefnyddiol cael arweiniad ychwanegol gan CARhau?
  - A fyddai'n ddefnyddiol cael arweiniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru?
  - Beth yw manteision/anfanteision cael cod Cymru gyfan?

**Yr angen am arweiniad a chamau gweithredu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru**

6.2 Mynegodd y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw ac a ymatebodd i'r arolwg fod angen a galw mawr am arweiniad ychwanegol ar HCBau. Roedd saith o bob deg o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod angen arweiniad neu hyfforddiant gwell gan eu ALlau, ac roedd bron i dri chwarter (73 y cant) yn cytuno bod angen arweiniad neu hyfforddiant rhanbarthol gwell gan gonsortia. Roedd cyfran fwy (85 y cant) yn cytuno bod angen arweiniad cenedlaethol gwell gan Lywodraeth Cymru (Ffigur 6.1).

**Ffigur 6.1 Mae angen arweiniad neu hyfforddiant gwell ar gyflwyno HCBau**





207 o ymatebion, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017

6.3 Mewn cyfweliadau, roedd penaethiaid a swyddogion ALlau yn teimlo bod angen arweiniad gwell er mwyn hyrwyddo a sicrhau cysondeb a chydlyniad wrth gymhwyso HCBau ar draws ysgolion yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae pryder ynghylch sut mae ysgolion unigol ac athrawon unigol yn dehongli'r codau HCB ac yn gwneud penderfyniadau gwahanol ynghylch absenoldebau anawdurdodedig. Yn

gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn credu bod cysondeb yn bwysig gan ei fod yn darparu ymdeimlad o degwch mewn perthynas â chyflwyno HCBau. Mae anghysondeb o ran eu cymhwyso a'u dehongli yn gwneud rhai penaethiaid yn nerfus ynghylch cymryd camau a all gosbi rhieni â dirwy neu hyd yn oed, fel roeddent yn credu, cofnod troseddol[29]. Er gwaethaf y ffafriaeth gref am fwy o gysondeb, roedd cyfweleion yn llai eglur ynghylch pa newidiadau penodol i'r arweiniad presennol fyddai'n helpu i gyflawni cysondeb.

6.4 Mynegodd y rhan fwyaf o'r cyfweleion ffafriaeth gref dros gyflwyno un cod cenedlaethol i Gymru yn ymwneud â HCBau. Mae hyn yn gyson â'r ymatebion i'r arolwg: roedd bron i 9 o bob 10 o ymatebwyr (88 y cant) yn cytuno y dylai fod un cod cenedlaethol i Gymru, ac roedd dros hanner (57 y cant) yn cytuno'n gryf (fel y gwelir yn Ffigur 6.2). Ni chanfu ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn 2012/2013 ar gynigion i gyflwyno HCBau ar gyfer colli'r ysgol yn rheolaidd unrhyw gytundeb nac anghytundeb clir ymhlith y 53 o ymatebwyr ynghylch cynigion i gyflwyno cod ymddygiad lleol, ond crybwyllodd nifer o'r ymatebwyr y dylai'r cod fod yn un cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2013).

**Ffigur 6.2 Opsiynau polisi (Dywedwch i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol)**




207 o ymatebion, Ffynhonnell: Arolwg Hysbysiadau Cosb Benodedig 2017, ICF, Mai – Mehefin 2017

6.5 Wrth ystyried opsiynau eraill ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, roedd 65 y cant yn cytuno y dylai fod arweiniad cenedlaethol cryfach, ond y dylid cadw codau HCB ALlau. Esboniodd cryn dipyn o'r cyfweleion a'r ymatebwyr nad oeddent

[29] Mae hyn yn cyfeirio at ganfyddiadau penaethiaid. Nid yw derbyn HCB yn gyfystyr â gweithred droseddol. Gallai peidio â thalu HCB arwain at erlyn rhiant am fethu sicrhau nad yw ei blentyn/phlentyn yn cael addysg addas a fyddai, pe byddai'n cael ei farnu'n/barnu'n euog, yn gyfystyr â gweithred droseddol.

yn credu y byddai arweiniad cenedlaethol cryfaf ar ei ben ei hun yn arwain at gysondeb gwell (yr oedd ei eisiau arnynt), oherwydd y byddai gwahaniaethau rhwng codau lleol o hyd.

6.6 Nid yw bron i ddau draean o'r ymatebwyr (66 y cant) am i'r rheoliad gael ei ddiddymu.

> 'Mae angen gwella cysondeb ar draws yr holl ALlau. Dylai pob ysgol fod yn gweithio o fewn yr un canllawiau. Dylai pob ysgol fod yn cadw at yr un codau presenoldeb; dylai'r codau [HCB] gael eu pennu gan Lywodraeth Cymru.' Sylw o'r arolwg

> 'Gan ein bod yn cael ein meincnodi yn erbyn ysgolion ledled Cymru ar gyfer presenoldeb – sy'n bwydo i'r gweithdrefnau categoreiddio, gweithdrefnau Estyn a Set Ddata Craidd Cymru Gyfan – mae angen i'r cod [HCB] a'r modd y caiff y cod ei gymhwyso fod yn gyson ledled CYMRU GYFAN.' Sylw o'r arolwg

> 'Mae anghysondebau enfawr rhwng ysgolion o hyd, hyd yn oed mewn awdurdod lleol bach... pe byddai polisi cenedlaethol, byddai rhieni'n deall yn glir a byddem yn gallu dweud "dyma ddogfen ddu a gwyn a dyma pam rydych chi'n cael HCB".' Pennaeth, ysgol gynradd

6.7 Pan ofynnom am ystyried yr angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau o gwbl, roedd ychydig yn llai na thraean (31 y cant) o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno na ddylai fod unrhyw newidiadau – ac roedd dros hanner (55 y cant) yn anghytuno. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder ynghylch beth fyddai baich y newid pe byddai newidiadau, yn enwedig oherwydd eu bod yn teimlo bod rhieni ac ysgolion yn deall systemau. Nid oedd unrhyw un ohonynt yn teimlo y dylid cael gwared â'r gallu i gyflwyno HCBau. Roedd swyddogion ALlau yn benodol yn teimlo eu bod wedi buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol mewn cyflwyno'r system HCB a gwneud iddi weithio'n effeithiol yn eu hardaloedd lleol.

6.8 Mae'n ymddangos bod y system llythyr o rybudd yn cael effaith gadarnhaol o ran lleihau absenoldebau anawdurdodedig. Roedd llawer o randdeiliaid yn teimlo'n gryf nad oeddent yn dymuno colli'r opsiwn o gyflwyno llythyr yn rhybuddio am HCB wrth ystyried strategaethau i wella presenoldeb.

> 'Mae'n arf mewn blwch offer. Bydd yn gweithio â rhai teuluoedd ac ni fydd yn gweithio gyda theuluoedd eraill. Mae'n braf ei gael yn opsiwn.' Swyddog Awdurdod Lleol

**Tystiolaeth o fannau eraill**

*Effeithiolrwydd cosbau*

6.9 Mae’r llenyddiaeth ymchwil yn awgrymu bod tystiolaeth gymysg o effeithiolrwydd cosbau ariannol o ran newid ymddygiad oedolion.

6.10 Archwiliodd adroddiad ar gyfer Joseph Rowntree Foundation (Giggs and Evans (2010)) gosbau mewn ystod o feysydd polisi cymdeithasol. Gwnaethant ganfod gyda’r rhai sy’n chwilio am waith, sef prif ffocws eu hymchwil, roedd cosbau’n newid ysgogiad ag agweddau hawlwyr tuag at waith yn lleiafrif yr achosion yn unig. Canfu'r awdurdod dystiolaeth amhendant mewn rhaglenni polisi cyhoeddus eraill â chosbau ariannol, fel gwella iechyd (e.e. imiwneiddio a chamddefnyddio sylweddau) a chynhaliaeth plant.

6.11 Canfu’r awduron dystiolaeth o ddwy enghraifft yn yr Unol Daleithiau lle’r oedd cosbau ariannol wedi’u cynllunio’n dda, ar ffurf taliadau lles gostyngedig, wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ysgol. Canfu gwerthusiad o’r rhaglen *Wisconsin Learnfare* yn 2009, a oedd yn cosbi derbynwyr taliadau lles yn eu harddegau, neu eu rhieni, am fwy na dau absenoldeb diesgus mewn mis, gynnydd o 4.5 y cant mewn presenoldeb a 3.7 y cant mewn ymrestriadau, â’r effaith fwyaf cadarnhaol ar is-grwpiau a oedd mewn perygl o adael yr ysgol. Canfu gwerthusiad o raglen *Learning, Earning and Parenting (LEAP)* yn yr Unol Daleithiau, a oedd yn lleihau taliadau lles i bobl ifanc yn eu harddegau a oedd yn feichiog ac yn rhieni nad oeddent wedi graddio o’r ysgol os nad oeddent yn mynd i’r ysgol, ac yn rhoi taliadau ychwanegol a chymorth gweithiwr achos iddynt os oeddent yn mynd i’r ysgol, effeithiau cadarnhaol i’r cyfranogwyr hynny ar y rhaglen a oedd yn yr ysgol o hyd pan wnaethant ymuno â’r rhaglen LEAP o gymharu â grŵp rheolydd.

6.12 Roedd effaith cosbau ar bresenoldeb ysgol o ymchwil arall yn dangos canlyniadau cymysg. Ni chanfu rhai astudiaethau unrhyw effaith. Ni chanfu Zhang (2007), mewn astudiaeth o gyfraddau absenoldeb disgyblion yn Lloegr rhwng 2004 a 2006, unrhyw gysylltiad arwyddocaol rhwng tueddfryd ALl i gyflwyno hysbysiadau cosb yn gysylltiedig â phresenoldeb dros y ddwy flynedd a’r newid mewn cyfraddau absenoldeb yn ystod yr un cyfnod. Roedd hyn yn wir ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Gellid dadlau bod angen dadansoddi data tebyg dros gyfnod hwy (pan fydd o leiaf tair blynedd o ddata ar gael), ac y dylid categoreiddio ALlau yn ôl eu lefelau absenoldeb er mwyn asesu effaith cosbau ariannol.

6.13 Ar raddfa fach iawn, canfu Wright (2009) effeithiau cadarnhaol. O'r 15 o achosion mewn un ALl yn Lloegr lle'r oedd achosion llys yn erbyn rhieni wedi dod i ben, roedd presenoldeb eu plant wedi gwella mewn 80 y cant o achosion; mewn saith o achosion, cynyddodd presenoldeb i dros 85 y cant, gan olygu y gellid eu cau gan EWS, ac roedd pump ohonynt yn fwy na 94 y cant, gan olygu eu bod yn uwch na phresenoldeb cyfartalog yr ALl.

6.14 Mae ymchwil Giggs ac Evans (2010) yn awgrymu rhai arferion da y mae angen eu rhoi ar waith i roi'r cyfle gorau i gosbau fod yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod gan gyfranogwyr sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut y caiff cosbau eu rhoi a beth fydd yn digwydd iddynt os na fyddant yn bodloni'r disgwyliadau hyn, fel nad ydynt yn cael eu cosbi, mewn gwirionedd, am beidio â deall yn hytrach na pheidio â chydymffurfio (yn fwriadol). Maent yn dadlau hefyd bod arfer da yn mynnu cysondeb er mwyn i gosbau gael eu cymhwyso'n rhesymol ac yn deg, ac fel nad ydynt yn disgyn yn anghymesur ar rai grwpiau o gyfranogwyr.

6.15 Ceir rhywfaint o dystiolaeth y gall erlyn fod yn effeithiol ynddo'i hyn, beth bynnag fo penderfyniad terfynol y llys. Ystyriodd astudiaeth Kendall a White (2004) mewn 119 o ALlau yn Lloegr ystod o ganlyniadau llys ar gyfer colli'r ysgol, a oedd yn cynnwys dirwyon ynghyd â chanlyniadau eraill, fel gorchmynion rhianta. Canfu'r astudiaeth fod erlyniadau yn gwneud rhieni (gan gynnwys rhieni na chawsant eu herlyn, ond a oedd wedi clywed am erlyniadau eraill) yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ac yn eu helpu i ddeall pwysigrwydd presenoldeb yn yr ysgol.

6.16 Fodd bynnag, canfu Kendall a White (2004) effaith gymysg wrth ddadansoddi gwelliannau gwirioneddol mewn presenoldeb. O'r 30 o blant y gwnaethant eu dilyn, gwellodd eu presenoldeb ar ôl erlyniad mewn ychydig dros 40 y cant o'r achosion; nid oedd unrhyw welliant sylweddol mewn tua 33 y cant ohonynt, ac roedd rhywfaint o welliant ymhlith tuag 20 y cant ohonynt, wedi'i ddilyn gan ddirywiad. Ni arweiniodd unrhyw un o'r pedwar achos lle y bu erlyniadau lluosog at unrhyw welliant mewn presenoldeb. Yn gyffredinol, roedd rhieni'n teimlo nad oedd dirwyon yn cael llawer o effaith, os o gwbl, ar barodrwydd eu plant i fynd i'r ysgol. Ystyriwyd bod erlyniadau'n fwy tebygol o fod yn effeithiol ar gyfer y teuluoedd hynny a oedd yn ei chael hi'n anodd gosod terfynau ar gyfer eu plant, ond a oedd mewn sefyllfa i wneud hynny. Roedd erlyniadau'n llai effeithiol lle nad oedd teuluoedd mewn sefyllfa i osod terfynau, a gallai hyn fod oherwydd bod y berthynas rhwng y rhieni a'r plant yn

gymhleth, neu oherwydd nad oedd y teulu yn ystyried bod addysg yn flaenoriaeth ac nad oeddent yn fodlon ymgysylltu â gwasanaethau.

6.17 Mae rhai astudiaethau'n pwysleisio y gallai'r anghysondebau o ran penderfyniadau llysoedd fod yn cyfyngu ar effeithiolrwydd cosbau. Yn ei astudiaeth o bresenoldeb ysgol yn Lloegr, crybwyllodd Taylor (2012) o'r tua 9,000 o rieni y cymerwyd â nhw i'r llys dan Adran 444 Deddf Addysg 1996 ac a farnwyd yn euog yn 2010, dim ond 72 y cant ohonynt a gafodd ddirwy neu gosb fwy difrifol. Roedd cyfweleion yn Kendall a White (2004) yn beirniadu lefel isel (y cyfartaledd yn 2010 oedd £165) ac anghysondeb dirwyon a pheidio â gorfodi taliadau, a arweiniodd, yn eu barn nhw, at beidio â newid ymddygiad rhieni.

*Arfer gorau o ran gwella presenoldeb*

6.18 Fel yr amlinellwyd yn Adran 2.3 yr adroddiad hwn, mae'r Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan yn amlinellu ystod o arferion da y dylai ysgolion eu rhoi ar waith i wella presenoldeb. Mae'r themâu allweddol yn cynnwys:

- Polisi presenoldeb cynhwysfawr, y mae'r holl staff yn ymwybodol ohono ac sy'n cael ei weinyddu'n gyson;
- Cyfathrebu cryf â rhieni, gan gynnwys hyrwyddo manteision presenoldeb rheolaidd a chysylltu'n gynnar pan fydd disgyblion yn colli'r ysgol;
- Ymyrraeth gynnar â disgyblion (a rhieni) pan fyddant yn dechrau colli'r ysgol;
- Timau Arweinyddiaeth Ysgolion yn adolygu data presenoldeb ac effeithiolrwydd ymyriadau â'u disgyblion yn rheolaidd; a
- Chydweithio a gwaith amlasiantaeth effeithiol.

6.19 Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad yng Nghymru (Reid 2009), ac maent yn gyffredin yn y llenyddiaeth sy'n cyflwyno tystiolaeth o'r hyn a fu'n llwyddiannus mewn ysgolion. Mae'n tynnu'n bennaf ar brofiad ymarferwyr a thrafodaethau â chymheiriaid, yn hytrach nag astudiaethau ymchwil empirig.

6.20 Mae llawer o'r llenyddiaeth yn pwysleisio pwysigrwydd strategaethau ataliol, ymyrraeth gynnar pan fydd disgyblion yn dechrau colli'r ysgol, a chamau gweithredu dilynol cyson er mwyn gwella presenoldeb gwael cyson. Mae adolygiad Reid (2012) o'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymyrraeth gynnar yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus nag ymyriadau â disgyblion sydd wedi dechrau colli'r ysgol yn gyson. Mae cryn dystiolaeth yn y llenyddiaeth fod strategaethau ataliol, fel codi

ymwybyddiaeth, archwiliadau presenoldeb a systemau cofrestru cyfrifiadurol, yn bolisïau allweddol y nodwyd eu bod yn gwella presenoldeb ysgol (Wright 2009). Mae Reid (2010) yn hyrwyddo pwysigrwydd ceisio barn disgyblion ar sut i annog presenoldeb da, gan gynnwys ymgysylltu â chynghorau myfyrwyr ysgolion.

6.21 O ran arfer da wedi i ddisgyblion ddechrau cael trafferthion â phresenoldeb, mae Wright (2009) yn crybwyll bod camau gweithredu ar lefel ysgolion, y crybwyllir yn rheolaidd yn y llenyddiaeth eu bod yn effeithiol, yn cynnwys gwobrau ar gyfer presenoldeb da (ar gyfer grwpiau ac unigolion), ffonio ar y diwrnod cyntaf, ymgyrchoedd triwantiaeth a chysylltiad agos rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn amlygu'r rhesymau sydd wrth wraidd presenoldeb gwael disgybl a chytuno ar atebion â rhieni a gofalwyr a all arwain at welliannau. Gall cael mentoriaid dysgu a gweithwyr cyswllt rhwng y teulu a'r ysgol mewn ysgolion godi pontydd, ac maent wedi cyflawni llwyddiant mawr o ran gwella presenoldeb. Mae Taylor (2012) yn adleisio pwysigrwydd staff yn olrhain presenoldeb ac yn gweld bwlch rhwng ysgolion cynradd yn monitro presenoldeb yn systematig ac yn cymryd camau fel nad yw patrymau presenoldeb gwael sy'n dod i'r amlwg yn gynnar ym mywyd ysgol plentyn yn ymwreiddio. Mae'n annog ymyrraeth mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar i fynd i'r afael ag ymddygiad rhieni cyn i arferion ysgol gael eu sefydlu. Mae'n dadlau bod dadl cyfiawnder o blaid ymyrraeth gynnar, oherwydd y mae plant â phresenoldeb isel yn y blynyddoedd cynnar hefyd yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd tlotach.

6.22 Gall ymgysylltiad cadarnhaol â rhieni wella presenoldeb hefyd. Mewn tair ysgol gynradd lwyddiannus mewn ardaloedd â difreintedd uchel, mae Taylor (2012) yn nodi bod yr ysgolion hyn yn gwneud ymdrech sylweddol i gefnogi rhieni i gael plant i'r ysgol yn brydlon, gan gynnwys bysiau cerdded, ymweliadau â chartrefi a chasglu plant i fynd i'r ysgol os yw'r teulu'n cael trafferthion. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn hyrwyddo negeseuon clir a chyson i rieni ynghylch pryd y byddai'n briodol neu beidio i ddisgybl fod yn absennol, ac yn atgyfnerthu'r neges na fyddant yn awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor ysgol heblaw mewn amgylchiadau gwirioneddol eithriadol.

6.23 Dylai ysgolion edrych y tu hwnt i'r ymddygiad i weld a allant fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sylfaenol sy'n atal presenoldeb. Crybwyllodd Kendall a White (2014) fod dros hanner y rhieni a erlynwyd yn teimlo nad oedd eu herlyn yn gwella presenoldeb gan nad oedd yn mynd i'r afael â'r rheswm pam nad oedd eu plant yn mynd i'r ysgol. Gall ymddieithrio rhag gwersi a disgyn ar ei hôl hi arwain at

bresenoldeb isel yn y dyfodol hefyd. Gallai ymyrraeth a chefnogaeth gynnar, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, i ddisgyblion sydd â lefelau isel o lythrennedd a rhifedd atal presenoldeb gwael. Dywed Reid (2012), gan fod y rhai sy'n absennol o'r ysgol yn gyson yn debygol o fod â llai o hyder yn eu gallu academaidd a lefelau is o hunan-barch na'u grwpiau cyfoedion, dylai ysgolion weithio i gynyddu hunan-barch a hyder academaidd disgyblion sy'n agored i niwed.

6.24 Gall ymyriadau gwrthfwlio ategu polisïau presenoldeb hefyd. Canfu Dalziel a Henthorne (2005) y crybwyllwyd bwlio yn rheswm dros absenoldeb gwael gan rai rhieni, a dywed Reid (2010) mai'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan ddisgyblion dros golli'r ysgol (heblaw am salwch a gwyliau) oedd bwlio, blinder, peidio â hoffi athrawon/gwersi a diflastod.

**Diwygio'r arweiniad presennol**

6.25 O ystyried y canfyddiadau a gyflwynwyd yn adrannau 3, 4 a 5 uchod a sut y datblygwyd codau HCB a sut y cânt eu defnyddio'n ymarferol yng Nghymru, byddai cyhoeddiad Llywodraeth Cymru o 2013, "*Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd*"[30] yn deilwng o gael ei ddiwygio. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- **Cysylltiadau â'r Fframwaith Presenoldeb a strategaethau a pholisïau eraill:** Mae dwy adran gyntaf y ddogfen Canllawiau (tudalennau 3 i 11) yn cynnwys y negeseuon allweddol canlynol:
  - Mae hysbysiadau cosb yn opsiwn ychwanegol
  - Bydd hysbysiadau cosb yn fwyaf effeithiol ar gyfer problemau presenoldeb nad ydynt wedi ymwreiddio
  - Gall plant sy'n colli'r ysgol wneud yn waeth yn yr ysgol
  - Dylai ysgolion gydweithio â rhieni/gofalwyr a disgyblion gymaint ag sy'n bosibl er mwyn annog presenoldeb
  - Gall ymyrraeth wedi'i thargedu gan EWS fod yn effeithiol lle mae anghenion penodol
  - Ni ddylid defnyddio hysbysiadau cosb yn ddewis amgen yn lle cymryd camau gweithredu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegu (ADY).

  Er bod y negeseuon hyn yn gyd-destun pwysig a defnyddiol ar gyfer gweithredu a dehongli HCBau, nid ydynt wedi ymddangos mewn codau ALlau yn gyffredinol. Felly, mae gan ymatebwyr mewn ysgolion gamsyniadau ynghylch pryd y mae disgwyl iddynt ddefnyddio HCBau. Mae gwrthwynebiadau llawer o ymatebwyr i HCBau yn ymwneud â defnyddio

[30] http://gov.wales/docs/dcells/publications/130925-guidance-regular-non-attendance-cy.pdf

HCBau ar gyfer problemau presenoldeb sydd wedi ymwreiddio – er ei fod yn glir o'r Canllawiau hyn nad dyma oedd bwriad y Rheoliad yn wreiddiol. Dylai arweiniad diwygiedig annog ALlau i gynnwys y negeseuon allweddol hyn mewn codau ac atgoffa disgyblion am ddefnydd bwriadedig HCBau fel un o blith nifer o opsiynau.

- **Gweithio ar sail consortia (tudalennau 10 ac 11):** Dylai'r adran hon gael ei diwygio i amlinellu rôl consortia addysg rhanbarthol o ran sicrhau presenoldeb ysgol rheolaidd yn agwedd gynorthwyol allweddol ar wella ysgolion. Mae hyn yn ofynnol, ochr yn ochr â'r angen i alluogi ALlau i gydweithio'n agosach er mwyn gwella cydlyniad a chysondeb yn y modd y caiff codau eu dehongli a HCBau eu cyflwyno'n ymarferol.
- **Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb (tudalennau 12 i 14):** Yn ymarferol, nid yw penaethiaid a'r heddlu yn cyflwyno HCBau (er bod ganddynt y pŵer i wneud hynny yn ôl y Rheoliadau). Dylid diwygio'r adran hon yn drylwyr i adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau presennol ysgolion, penaethiaid, yr heddlu a staff ALlau. Dylai, er enghraifft, gadarnhau mai'r ysgol sy'n gyfrifol am fonitro presenoldeb, casglu tystiolaeth a phenderfynu gofyn i'r ALl gyflwyno HCB.
- **Pryd y bydd yn briodol cyflwyno hysbysiad cosb (tudalen 14):** Er nad yw'r canllawiau wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol i ALlau ynghylch y sbardunau neu'r trothwyon anawdurdodedig ar gyfer ystyried a chyflwyno HCB, gellid eu symleiddio trwy beidio â manylu at sbardunau ar gyfer gwahanol achosion o absenoldebau anawdurdodedig. Gan y bydd gan rai disgyblion resymau amrywiol dros absenoldebau anawdurdodedig, mae sbardunau penodol ar gyfer diffyg prydlondeb, gwyliau a thriwantiaeth yn ormodol, mewn gwirionedd.
- **Pwerau disgresiwn i awdurdodi ceisiadau am absenoldeb ar gyfer gwyliau:** Dylai'r canllawiau gynnwys adran yn ailadrodd yr hyn a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016 ynghylch pŵer disgresiwn penaethiaid i awdurdodi absenoldeb ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor ysgol, pan fydd rhieni'n gofyn am ganiatâd. Gallai'r iaith fod yn gliriach ynghylch y ffaith fod gan benaethiaid ddisgresiwn i wrthod absenoldeb ar gyfer gwyliau teuluol o 10 diwrnod ysgol neu lai os oes rhesymau da yn ymwneud â phresenoldeb ac amseriad, fel agosrwydd at arholiadau. Bydd hyn yn cryfhau sefyllfa penaethiaid fel deiliaid pŵer disgresiwn ac yn gwrthbrofi'r amgyffrediad ymhlith rhai rhieni ac ymarferwyr y dylai pob cais am wyliau nad ydynt yn hwy na 10 diwrnod ysgol gael ei awdurdodi. Gallai'r adran

hon ddisodli'r paragraff ar awdurdodi neu beidio ag awdurdodi absenoldeb ar dudalen 14.

- **Pwy sy'n gallu derbyn hysbysiad cosb (tudalen 15):** Byddai defnyddwyr yn croesawu arweiniad ar bwy sy'n gallu derbyn hysbysiad cosb os yw'r rhieni wedi gwahanu.
- **Llythyrau o rybudd (tudalennau 15 ac 16):** Ymddengys bod llythyrau o rybudd yn effeithiol. Gallai arweiniad ar argymell eu defnyddio gael ei gryfhau trwy ddatgan bod rhaid eu hanfon (nad ydynt yn arfer da yn unig).
- **Cadw derbyniadau a chasglu refeniw (tudalen 18):** Byddai annog ALlau i gyhoeddi datganiadau archwilwyr yn cynorthwyo o ran tryloywder ac yn gwrthod rhai canfyddiadau ymhlith rhieni y caiff HCBau eu defnyddio gan ALlau yn ddull o godi refeniw.

**Asesiad o opsiynau polisi**

*Diffiniad o'r opsiynau*

6.26 Er mwyn asesu cryfderau a gwendidau opsiynau polisi ar gyfer gwella'r rheoliadau a'r canllawiau presennol ynglŷn â HCB am absenoldebau anawdurdodedig, y peth cyntaf y mae angen ei wneud yw diffinio rhestr gyfyngedig o ddewisiadau amgen i ddewis o'u plith. Mae'r pedwar opsiwn canlynol yn darparu rhestr gyfyngedig o ddewisiadau amgen sylweddol wahanol ond ymarferol i'w cymharu.

- **Opsiwn A: Dim newid**

  Yn y senario hon, ni fydd Llywodraeth Cymru'n gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau na'r canllawiau ynglŷn â HCBau. Bydd codau ALlau yn parhau a bydd y codau hyn yn pennu'r rheolau ynglŷn â phryd y gall ALlau gyflwyno HCB yn eu hardal leol. Bydd y sefyllfa gyfreithiol a rheoleiddiol yn aros "fel y mae".

  Bydd ysgolion yn parhau i fod yn gyfrifol am wneud cais am gyflwyno HCB a chasglu tystiolaeth. Bydd ALlau yn parhau i fod yn gyfrifol am ganiatáu cais ac ymgymryd â thasgau gweinyddol, sef cyhoeddi'r llythyr o rybudd a'r HCB, derbyn taliadau dirwy a symud ymlaen ag erlyniadau.

  Bydd penaethiaid yn parhau i arfer eu disgresiwn wrth awdurdodi ceisiadau am absenoldebau o hyd at 10 niwrnod ysgol yn ystod y tymor pan fydd rhieni'n ceisio caniatâd, ac wrth ystyried ceisiadau am absenoldebau o fwy na 10 niwrnod ysgol mewn amgylchiadau eithriadol.

- **Opsiwn B: Codau Awdurdodau Lleol i barhau, a chanllawiau cenedlaethol cryfach gan Lywodraeth Cymru**

  Yn y senario hon, ni fydd Llywodraeth Cymru’n gwneud unrhyw newidiadau i’r rheoliadau ynglŷn â HCBau. Bydd codau ALlau yn parhau a bydd y codau hyn yn pennu’r rheolau ynglŷn â phryd y gall ALlau gyflwyno HCB yn eu hardal leol. Bydd Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi canllawiau cryfach ar ddefnydd priodol o HCBau. Disgwyliwn y byddai hyn yn unol â’r casgliadau sy’n dod i’r amlwg yn adran 6.26 uchod.

  Bydd ysgolion yn parhau i fod yn gyfrifol am wneud cais am gyflwyno HCB a chasglu tystiolaeth. Bydd ALlau yn parhau i fod yn gyfrifol am ganiatáu cais, gan gyfeirio at eu cod eu hunain, ac ymgymryd â thasgau gweinyddol, sef cyhoeddi’r llythyr o rybudd a’r HCB, derbyn taliadau dirwy a symud ymlaen ag erlyniadau.

  Bydd penaethiaid yn parhau i arfer eu disgresiwn wrth awdurdodi ceisiadau am absenoldebau o hyd at 10 niwrnod yn ystod y tymor pan fydd rhieni’n ceisio caniatâd, ac wrth ystyried ceisiadau am absenoldebau o fwy na 10 niwrnod mewn amgylchiadau eithriadol, ond bydd canllawiau cryfach ar gael i roi arweiniad iddynt.

- **Opsiwn C: Un Cod cenedlaethol ar gyfer Cymru yn disodli codau Awdurdodau Lleol**

  Yn y senario hon, bydd Llywodraeth Cymru’n llunio Cod Cymru Gyfan (cenedlaethol) ar gyflwyno HCBau. Bydd y Cod Cymru Gyfan hwn yn disodli codau ALlau, a fydd yn cael eu diddymu. Gellir disgwyl i God Cymru Gyfan gynnwys diffiniadau o’r canlynol:

  – Y sbardun(au) ar gyfer ystyried pryd y byddai lefel yr absenoldeb anawdurdodedig (nifer y sesiynau a gollwyd o ganlyniad i wyliau, triwantiaeth a hwyrni) yn cyfiawnhau ystyried rhoi rhybudd ac yna HCB;
  – Hwyrni, ar ôl diwedd y cyfnod cofrestru (mae Llywodraeth Cymru’n cynghori y dylai ysgolion gau’r gofrestr i ddisgyblion 30 munud ar ôl galw’r gofrestr);
  – Y cyfnod pan fydd absenoldebau anawdurdodedig yn cronni tuag at sbardun (yn ystod blwyddyn academaidd, yn ystod tymor neu yn ystod cyfnod treigl o 12 mis);
  – P’un a ddylai presenoldeb cyffredinol disgybl (nifer y diwrnodau ysgol a gollwyd yn gyffredinol) gael ei ystyried ar y cyd ag unrhyw bwyntiau sbardun ar gyfer absenoldeb anawdurdodedig (a’r cyfnod ar gyfer hyn: presenoldeb tymhorol, blynyddol (blwyddyn academaidd) neu dros gyfnod treigl o 12 mis);
  – Sawl HCB y gellir ei gyflwyno fesul rhiant, fesul disgybl, fesul blwyddyn;
  – Disgwyliadau lleiaf ysgolion ac EWS ynglŷn â chysylltiad â rhieni cyn rhoi llythyr o rybudd (nifer y llythyrau/galwadau ffôn/cyfarfodydd)

  Yn ogystal, byddai newidiadau i’r Canllawiau yn Opsiwn B yn cael eu cyflwyno.

  Bydd ysgolion yn parhau i fod yn gyfrifol am wneud cais am gyflwyno HCB a chasglu tystiolaeth. Bydd ALlau yn parhau i fod yn gyfrifol am ganiatáu cais, gan

gyfeirio at y Cod Cenedlaethol, ac ymgymryd â thasgau gweinyddol, sef cyhoeddi'r llythyr o rybudd a'r HCB, derbyn taliadau dirwy a symud ymlaen ag erlyniadau.

Bydd penaethiaid yn parhau i arfer eu disgresiwn wrth awdurdodi ceisiadau am absenoldebau o hyd at 10 niwrnod yn ystod y tymor pan fydd rhieni'n ceisio caniatâd, ac wrth ystyried ceisiadau am absenoldebau o fwy na 10 niwrnod mewn amgylchiadau eithriadol, ond bydd canllawiau cryfach ar gael i roi arweiniad iddynt.

- **Opsiwn Ch: Diddymu Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig**

  Yn y senario hon, bydd rheoliad Llywodraeth Cymru sy'n caniatáu ar gyfer HCBau yn cael ei ddiddymu. Ni fydd darpariaethau i gyflwyno HCB i rieni am absenoldeb anawdurdodedig eu plentyn o'r ysgol.

  Bydd penaethiaid yn parhau i arfer eu disgresiwn wrth awdurdodi ceisiadau am absenoldebau o hyd at 10 niwrnod ysgol yn ystod y tymor pan fydd rhieni'n ceisio caniatâd, ac wrth ystyried ceisiadau am absenoldebau o fwy na 10 niwrnod ysgol mewn amgylchiadau eithriadol.

*Opsiynau nad ystyriwyd*

6.27 Mae'r pedwar opsiwn uchod yn ymwneud â diwygio (neu beidio) rheoliad a chanllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â HCBau yn unig, yn unol â nodau ac amcanion ymchwil yr astudiaeth hon. Nid ystyrir opsiynau eraill i wella presenoldeb cyffredinol a lleihau absenoldebau anawdurdodedig (fel ymgysylltiad ychwanegol â rhieni, sicrhau bod mwy o adnoddau EWS ar gael i ysgolion, canolbwyntio adnoddau CARh ac arolygiadau Estyn ar faterion presenoldeb), oherwydd byddai hynny'n gofyn am adolygiad ehangach o bolisi presenoldeb sydd y tu hwnt i gwmpas ac adnoddau'r astudiaeth hon.

6.28 Yn ogystal, nid yw'r opsiynau uchod yn cynnwys newidiadau eraill na fyddent yn cael eu hystyried yn ymarferol. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn):

- Creu panel llywodraeth ganolog ar gyfer Cymru i ystyried ceisiadau HCB gan ysgolion a chyhoeddi canllawiau;
- Creu pedwar corff rhanbarthol (a arweinir gan CARhau) i ystyried a gweinyddu HCBau ac arwain erlyniadau;
- Dirprwyo'r broses gyfan i ysgolion.

*Diffiniad o'r meini prawf ar gyfer yr asesiad o opsiynau*

6.29 I asesu'r pedwar opsiwn uchod, mae angen diffinio cyfres o feini prawf y gellir arfarnu canlyniadau (costau a buddion) pob opsiwn yn eu herbyn. Mae angen i'r meini prawf adlewyrchu'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn "llwyddiant". I bennu'r meini prawf "llwyddiant" priodol, dechreuwyd trwy ystyried diben gwreiddiol a pharhaus 'Rheoliadau 2013' a'u hamcanion. Ystyriwyd hefyd ddisgwyliadau defnyddwyr (yn yr achos hwn, rhieni, ysgolion ac ALlau), arfer gorau yn ôl tystiolaeth gyhoeddedig ac unrhyw oblygiadau cost a budd cyhoeddus ehangach.

6.30 Yn dilyn y broses hon, rydym wedi dewis y meini prawf canlynol ar gyfer asesu'r opsiynau uchod:

1. Llai o absenoldebau anawdurdodedig a chyffredinol (presenoldeb cyffredinol uwch)

Amcan cyffredinol y rheoliadau HCB yw annog newid o ran ymddygiad rhieni fel bod eu plant yn colli llai o ddiwrnodau ysgol a'u bod felly'n barod i ddysgu ac yn gallu dysgu. Dylai pob opsiwn gael ei arfarnu yn erbyn y tebygolrwydd o gyflawni'r newid mwyaf o ran ymddygiad rhieni.

**Pwysoliad:** dyma'r maen prawf pwysicaf wrth asesu llwyddiant newid rheoleiddiol. Pwysoliad uchel.

2. Cysondeb a thryloywder wrth gyflwyno HCBau

Un o egwyddorion sylfaenol unrhyw gyfraith neu reoliad yw ei chymhwyso / gymhwyso mewn ffordd unffurf a chyson, a thrin troseddwyr neu droseddau posibl yn gyfartal. I'r gwrthwyneb, mae unrhyw ganfyddiad o gymhwyso anghyfartal neu drin troseddwyr neu droseddau posibl yn anghyfartal yn creu ymdeimlad o annhegwch a rhwystredigaeth i randdeiliaid (gan gynnwys y rhai yr effeithir arnynt a'r rhai sy'n gweithredu'r broses). Mae'n bosibl y byddai ysgolion sy'n pryderu am niweidio'r berthynas â rhieni pe byddent yn gwneud cais am HCB yn pryderu llai pe deimlid bod pob rhiant yn cael ei drin yn deg o dan gyfres gyson a thryloyw o reolau. Mae Canllawiau 2013 Llywodraeth Cymru ar HCBau yn cyfeirio at y ffaith bod angen "*cysondeb, tegwch a thryloywder yn y ffordd y cymhwysir hysbysiadau cosb*". Mae tystiolaeth o Loegr hefyd yn awgrymu y gallai anghysondebau mewn penderfyniadau llysoedd a dirwyon gyfyngu ar effeithiolrwydd cosbau. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried bod unrhyw welliannau sy'n arwain at fwy o gysondeb wrth gymhwyso a dehongli codau a chanllawiau HCB yn fuddiol.

**Pwysoliad:** mae'r maen prawf hwn yn bwysig wrth asesu llwyddiant newid rheoleiddiol. Pwysoliad canolig.

3. Baich newid

Bydd unrhyw newid rheoleiddiol yn creu baich gweinyddol i unigolion a sefydliadau. Mae'r baich hwn yn adlewyrchu'r gost sy'n deillio o'r amser a dreulir gan staff wrth weithredu'r newid ac unrhyw gost uwch barhaus o ganlyniad i'r newid. Bydd angen rhywfaint o amser i weithredu newid rheoleiddiol hefyd o'r adeg dderbyn i'r adeg weithredu, yn dibynnu ar raddau a chymhlethdod y newid. Dylai'r amser a gymerir i weithredu newid gael ei ystyried yn faich hefyd.

**Pwysoliad:** mae'r maen prawf hwn o bwysigrwydd isel wrth asesu pa mor llwyddiannus yw newid rheoleiddiol o ran cyflawni'r effeithiau a ddymunir. Pwysoliad isel.

**Asesiad o'r opsiynau**

6.31 Yn yr adran hon, aseswn y pedwar opsiwn yn erbyn y tri maen prawf.

**Opsiwn A: Dim newid**

| | |
|---|---|
| Llai o absenoldebau anawdurdodedig a chyffredinol | Mae'n ymddangos bod y Rheoliadau a'r trefniadau HCB presennol yn cael rhywfaint o effaith ar leihau absenoldebau anawdurdodedig o ran rhai rhieni ac mewn rhai ALlau. Credir bod llythyrau o rybudd a bygythiad HCB yn cael rhywfaint o effaith. Nid oes data ar gael ar hyn o bryd i gadarnhau'r effaith hon. Mae unrhyw welliant a gyflawnwyd hyd yma o ran lleihau absenoldebau anawdurdodedig a chyffredinol yn cael ei gynnal. |
| Cysondeb a thryloywder | Bydd gwahaniaethau o ran codau ALl yn parhau. Bydd gwahaniaethau o ran dehongli codau ALl yn parhau. Bydd gwahaniaethau o ran dehongli a chymhwyso codau ALl gan ysgolion yn parhau. Ni ddisgwylir gwelliant o ran cysondeb a thryloywder. |
| Baich newid | Dim baich. Gweithredu ar unwaith. |

**Opsiwn B: Codau Awdurdodau Lleol i barhau, ond canllawiau cenedlaethol cryfach gan Lywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Llai o absenoldebau anawdurdodedig a chyffredinol | Gallai canllawiau cenedlaethol cryfach arwain at gymhwyso'r rheoliadau HCB yn fwy effeithiol. Dylai rhieni (a disgyblion) fod â gwell dealltwriaeth o absenoldebau anawdurdodedig, sut y cânt eu cofnodi a'u dehongli a beth fydd y canlyniadau. Gallai hyn, yn ei dro, annog mwy o rieni i newid eu hymddygiad a gallai arwain at lai o absenoldebau anawdurdodedig a chyffredinol. Gellir disgwyl gwelliant bach o ran lleihau absenoldebau cyffredinol. |
| Cysondeb a thryloywder | Bydd gwahaniaethau o ran codau ALlau yn parhau, er y gellir disgwyl i rai codau gael eu diwygio, gan leihau'r gwahaniaethau. Bydd gwahaniaethau o ran dehongli codau ALlau yn parhau, er y gellir disgwyl y bydd canllawiau diwygiedig yn lleihau meysydd lle y ceir ansicrwydd ac yn arwain at ddehongli a chymhwyso prosesau'n fwy cyson ar draws ALlau. Bydd gwahaniaethau o ran |

| | |
|---|---|
| | dehongli a chymhwyso codau ALlau gan ysgolion yn parhau, er y gellir disgwyl gwelliannau o ran cysondeb camau gweithredu ysgolion. Gallai canllawiau diwygiedig annog ysgolion i weithredu'n fwy cyson wrth wneud penderfyniadau am absenoldebau anawdurdodedig. Disgwylir rhywfaint o welliant o ran cysondeb a thryloywder. |
| Baich newid | Bydd angen i staff Llywodraeth Cymru ddiwygio'r canllawiau. Disgwylir i hyn fynnu cryn dipyn o amser staff ar gyfer ymgynghori, llunio, diwygio a cheisio cyngor cyfreithiol. Gallai ALlau benderfynu diwygio eu codau eu hunain yng ngoleuni'r canllawiau newydd. Gellid disgwyl costau tebyg. Bydd cost yn gysylltiedig â lledaenu gwybodaeth i ysgolion a rhieni ynglŷn â'r canllawiau newydd. Bydd y cyfnod gweithredu'n hir a gallai ddibynnu ar gamau gweithredu ALlau unigol. |

**Opsiwn C: Un Cod cenedlaethol ar gyfer Cymru yn disodli codau ALlau**

| | |
|---|---|
| Llai o absenoldebau anawdurdodedig a chyffredinol | Dylai un Cod cenedlaethol ar gyfer Cymru arwain at gymhwyso'r rheoliadau HCB yn fwy effeithiol. Dylai roi eglurder llwyr i rieni (disgyblion) ac ysgolion ynglŷn â'r rheolau sy'n pennu pryd a sut y gellir cyflwyno HCB. Gallai cyhoeddusrwydd cenedlaethol gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd presenoldeb ymhlith rhieni (ac ysgolion) a gallai annog newid o ran ymddygiad. Felly, gellir disgwyl gwelliant bach o ran lleihau absenoldebau anawdurdodedig o ganlyniad i welliannau o ran eglurder a chyhoeddusrwydd cenedlaethol (ond mwy nag Opsiwn B). |
| Cysondeb a thryloywder | Bydd un Cod cenedlaethol ar gyfer Cymru yn golygu na fydd mwy o wahaniaethau yn y rheolau sy'n pennu pryd a sut y gellir cyflwyno HCB. Bydd ALlau yn parhau i wneud penderfyniadau ynglŷn â phryd y gellir cyflwyno HCB, felly disgwylir i wahaniaethau o ran dehongli barhau. Bydd ysgolion yn parhau i arfer eu disgresiwn ynglŷn â phryd i ofyn am HCB, felly bydd gwahaniaethau o ran defnyddio HCBau fel mesur yn parhau. Gallai Cod diwygiedig annog ysgolion i weithredu'n fwy cyson wrth wneud penderfyniadau am absenoldebau anawdurdodedig. Disgwylir gwelliant sylweddol o ran cysondeb a thryloywder. |
| Baich newid | Bydd angen i staff Llywodraeth Cymru lunio un Cod cenedlaethol ar gyfer Cymru. Disgwylir i hyn fynnu cryn dipyn o amser staff ar gyfer ymgynghori, llunio, diwygio a cheisio cyngor cyfreithiol. Bydd rhaid i ALlau ddiddymu eu codau eu hunain. Bydd rhaid i ALlau addasu prosesau presennol i adlewyrchu gofynion Cod cenedlaethol newydd. Disgwylir i hyn fynnu rhywfaint o amser staff ALlau. Bydd rhywfaint o gostau'n gysylltiedig â lledaenu gwybodaeth i ysgolion a rhieni am y Cod newydd. Gellid cyflawni hyn trwy gyhoeddusrwydd a gydlynir yn genedlaethol gydag arbedion maint (o gymharu ag Opsiwn C). Bydd y cyfnod gweithredu'n hir (disgwylir iddo fod yn hwy nag Opsiynau B ac Ch). |

| **Opsiwn Ch: Diddymu Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig** | |
|---|---|
| Llai o absenoldebau anawdurdodedig a chyffredinol | Nid oes dewis ar gael mwyach i ysgolion ac ALlau ddefnyddio HCBau neu lythyrau o rybudd i fynd i'r afael ag absenoldeb anawdurdodedig cyson. Gallai rhieni a newidiodd eu hymddygiad o ganlyniad i HCBau (neu rybuddion) ddychwelyd i'w hymddygiad blaenorol. Disgwylir cynnydd mewn absenoldebau anawdurdodedig. Gallai roi'r argraff i rieni nad yw presenoldeb yn fater pwysig i Lywodraeth Cymru, gan arwain at absenoldebau cyffredinol uwch. |
| Cysondeb a thryloywder | Nid oes gwahaniaethau o ran dehongli a chymhwyso HCBau oherwydd nid ydynt yn bodoli. Gwelliant o ran cysondeb a thryloywder. |
| Baich newid | Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r Rheoliadau. Disgwylir i hyn fynnu cryn dipyn o amser staff ar gyfer ymgynghori, llunio, diwygio a cheisio cyngor cyfreithiol (yn debyg i Opsiynau B ac C). Bydd angen i ALlau ddiddymu codau a gallent ddisodli canllawiau. Gallai'r cyfnod gweithredu fod yn fyrrach nag Opsiynau B ac C, ond mae hyn yn dibynnu ar gamau gweithredu ALlau. |

6.32 I grynhoi, mae'r llwyddiant a gyflawnir o ran pob maen prawf fel a ganlyn:

- **Absenoldebau anawdurdodedig:** Disgwylir i Opsiynau A, B ac C gynnal unrhyw enillion neu wella gostyngiadau ychydig o ran absenoldebau anawdurdodedig. Disgwylir i absenoldebau anawdurdodedig gynyddu o dan Opsiwn Ch. Dyma'r maen prawf sydd â'r pwysoliad mwyaf gan ei fod yn hanfodol i gyflawni diben y rheoliad.
- **Cysondeb a thryloywder:** Mae Opsiwn Ch yn cyflawni'r gwelliannau mwyaf o ran cysondeb oherwydd ni fydd HCBau yn bodoli (er y gallai ALlau gyflwyno eu cosbau eu hunain). Disgwylir i Opsiynau B ac C gynyddu cysondeb, er y bydd gwahaniaethau o ran dehongli a chymhwyso yn parhau. Mae Opsiwn C yn fwy tebygol o arwain at welliannau nag Opsiwn B. Nid oes gan Opsiwn A ganlyniadau cadarnhaol o ran y maen prawf hwn. Mae'r maen prawf hwn o bwysigrwydd canolig.
- **Baich newid:** Mae Opsiwn A yn cyflawni'r canlyniadau cadarnhaol mwyaf gan nad oes unrhyw gostau nac oedi o ran gweithredu yn gysylltiedig ag ef. Mae costau'n gysylltiedig ag Opsiynau B, C ac Ch o ran amser staff a'r amser cyffredinol y bydd ei angen i ddiwygio ac addasu dogfennau a gweithredu polisi. Gallai costau Opsiwn C fod yn uwch i Lywodraeth Cymru ond yn is i ALlau. Gallai arbedion maint fod yn bosibl o ran ymdrechion cyhoeddusrwydd trwy Opsiynau C

ac Ch o gymharu ag Opsiwn B. Gallai Opsiwn B gymryd mwy o amser i'w weithredu, yn dibynnu ar ba mor gyflym y bydd ALlau yn ymateb i'r Canllawiau diwygiedig. Mae'r maen prawf hwn o bwysigrwydd isel.

6.33 O gymharu pwysoliad yr opsiynau â llwyddiannau disgwyliedig, disgwylir i Opsiwn C (Cod Ymddygiad unigol ar gyfer Cymru) gyflawni mwy o ganlyniadau dymunol yn erbyn costau, ar y cyfan. O'i gymharu â'r tri opsiwn arall, dyma'r un sy'n fwyaf tebygol o gyflawni gostyngiad mewn absenoldebau anawdurdodedig a chyffredinol wrth ddylanwadu ar ymddygiad rhieni trwy gyhoeddusrwydd cenedlaethol a gwell eglurder, a gwella cysondeb a thryloywder. Mae costau uwch yn gysylltiedig ag ef ac fe allai gymryd mwy o amser i'w weithredu na rhai o'r opsiynau eraill, ond ni ddisgwylir i hynny fod yn drech na'r buddion. Mae'n fwy tebygol o gael ei gefnogi gan randdeiliaid na'r opsiynau eraill.

**Casgliadau**

- Mae ymatebwyr yr arolwg a'r rhai a gyfwelwyd o'r farn bod angen gwell canllawiau a hyfforddiant gan ALlau a Llywodraeth Cymru;
- Mae'r rhai a gyfwelwyd eisiau i'r canllawiau gynyddu cysondeb ac felly tegwch;
- Nid oes fawr o awydd ymhlith ymatebwyr yr arolwg i gynnal y sefyllfa sydd ohoni na chael gwared ar HCBau;
- Mae wyth deg wyth y cant yn cytuno y dylid cael un cod cenedlaethol. Ond er bod llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn cydnabod y dylai hyn wella cysondeb, bydd yn dibynnu ar y graddau y mae ysgolion o'r farn bod HCBau yn fesur effeithiol;
- Nid yw'r dogfennau ymchwil yn cynnig tystiolaeth gref fod cosbau ariannol ar eu pen eu hunain bob amser yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad oedolion mewn polisïau cymdeithasol. Ar raddfa fechan, mae rhai astudiaethau wedi darganfod bod effeithiau cadarnhaol cyffredinol yn debygol o fod yn fwy pan fydd gan y bobl sydd wedi'u heffeithio wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r rhesymau dros ddefnyddio'r sancsiwn a sut y penderfynwyd ar y sancsiwn;
- Os yw dirwyon yn rhy isel neu os ystyrir bod camau gorfodi'n rhy wan, gallai hynny arwain at ganlyniadau na fwriadwyd neu ddiffyg effaith gadarnhaol. Mae hyn yn adlewyrchu rhai o ganfyddiadau'r astudiaeth hon;
- I raddau helaeth, mae'r Fframwaith Presenoldeb yn adlewyrchu arfer da cyhoeddedig, yn enwedig y ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar. Gallai elwa o ystyried arfer da wrth fynd i'r afael â phresenoldeb mewn lleoliadau'r blynyddoedd

cynnar i sefydlu ymddygiadau da, ymgysylltu â rhieni, dadansoddi data monitro ar lefel yr ALl a phwysleisio'r berthynas rhwng presenoldeb a bod ar ei hôl hi gyda gwaith a bwlio;

- Trwy fanteisio ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon, gellid cryfhau'r canllawiau presennol ar hysbysiadau cosb i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n deillio o godau'r ALlau. Amlinellir y rhain yn adran 6.3;

Trwy asesiad o'r opsiynau polisi, mae'n eglur y byddai newid (opsiynau B ac C) yn fwy buddiol na dim newid (opsiwn A); ac y byddai opsiwn C (un cod cenedlaethol gyda chanllawiau cadarnach i ALlau ac ysgolion ar gymhwyso'r cod) yn cael mwy o effaith ar gysondeb gweinyddol ac ar lefel yr absenoldebau anawdurdodedig nag opsiwn B (canllawiau cadarnach i ALlau ac ysgolion ar godau ALlau a gweithredu'r codau hynny).

**Cyfeiriadau**


Dalziel, D. a Henthorne, K. (2005). *Parents'/carers' Attitudes Towards School Attendance*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Addysg a Sgiliau RR618.

Yr Adran Addysg (2016). *The link between absence and attainment at KS2 and KS4*. Blwyddyn academaidd 2013/14.

Gneezy, U. a Rustichini, A. (2000). *A Fine is a Price*. Journal of Legal Studies, Cyfrol 29, Rhif 1, Gwasg Prifysgol Chicago.

Griggs, J. ac Evans, M. (2010). *Sanctions with conditional benefit systems. A review of evidence*. Sefydliad Joseph Rowntree.

Kendall, S. White, R. et al, (2004). *School Attendance and the prosecution of parents.* Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg.

Reid, K. (2009). *The National Behaviour and Attendance Review in Wales. Findings and recommendations on school attendance*. Research in Education, Cyfrol 81.

Reid, K. (2010). *Finding strategic solutions to reduce truancy*. Research in Education, Cyfrol 84.

Reid, K. (2012). *The strategic management of truancy and school absenteeism: finding solutions from a national perspective*. Educational Review, Cyfrol 64, Rhif 2

Taylor, C. (2012). *Improving attendance at school*.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009). *Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan.* Arweinlyfr gweithredol i'r Gwasanaeth Lles Addysg.

Llywodraeth Cymru (2013), *Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion, Hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd*. Rhif: WG18814, Ar gael yn: https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau?_ga=2.111025798.2054136042.1521192170-1565255877.1496732884

Wright, C. (2009), *How effective is parental prosecution as a method of improving school attendance among primary-aged children*? Support for Learning, Cyfrol 24, Rhif 4.

Zhang, M. (2007), *School Absenteeism and the Implementation of Truancy-Related Penalty Notices*. Pastoral Care, Rhagfyr.